Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru

Isabelle Carter, Amanda Hill-Dixon, a Manon Roberts

Medi 2022

www.wcpp.org.uk/cy

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i roi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef www.wcpp.org.uk

## Cyllidwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, sy'n benderfynol o feithrin perthnasau rhyngwladol cryfion wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi allu ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


Crynodeb: Tlodi 4

Crynodeb: Allgáu Cymdeithasol 5

Gair am yr adroddiad hwn 6

**1.** Cyflwyniad 7

**2.** Mesur tlodi ac allgáu cymdeithasol 9

**3.** Tlodi yng Nghymru: Tueddiadau, risg a chyfansoddiad 14

**4.** Sbardunau tlodi 32

**5.** Allgáu cymdeithasol a thlodi yng Nghymru 33

**6.** Effaith pandemig y Coronafeirws 82

**7.** Dyfodol tlodi yng Nghymru 91

**8.** Casgliad 96

Cyfeirnodau 97

# Crynodeb: Tlodi

- Cyn pandemig y Coronafeirws, roedd cyfraddau tlodi incwm cymharol yng Nghymru yn 23%, ychydig yn is nag yr oeddent 20 mlynedd yn ôl pan oeddent yn nes at 25%. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gostyngiad hwn ar ddechrau'r 2000au, gyda chyfraddau tlodi cyffredinol yn parhau’n ddisymud i raddau helaeth dros y deng mlynedd diwethaf.

- Er bod gwelliannau wedi bod yng nghyfraddau tlodi pensiynwyr yn dilyn cynnydd ar ddechrau'r 2000au, mae cyfraddau tlodi ymysg plant a phobl oedran gweithio wedi aros yn gyson uchel dros yr 20 mlynedd diwethaf.

- Mae lleihau gwerth budd-daliadau oedran gweithio, problemau parhaus sy’n deillio o waith o ansawdd gwael a chostau byw cynyddol, yn enwedig costau tai, yn ffactorau allweddol sy'n sbarduno tlodi yng Nghymru. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cynnydd mewn sgiliau oedolion, cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth a gostyngiad mewn diweithdra.

- Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael tair prif effaith ar dlodi yng Nghymru: mae wedi arwain at gynydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi; mae wedi dwysáu tlodi i'r bobl hynny a oedd eisoes yn byw mewn tlodi; ac mae wedi gwaethygu canlyniadau bod ar incwm isel.

- Cafodd y pandemig fwy o effaith ar aelwydydd incwm isel – a hynny o ran y risg o gael y Coronafeirws a'r canlyniadau economaidd – gyda’r effaith fwyaf ar grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, menywod a phobl ifanc ymysg y grŵp incwm isel hwn.

- Mae diweithdra a chostau cynyddol cyfleustodau, bwyd a thai yn faterion allweddol wrth i bandemig y Coronafeirws barhau.

- Mae amcanestyniadau’n awgrymu, os bydd un o bob pedwar o bobl sy'n gweithio yn y sectorau y gorfodwyd iddynt gau yn colli eu swyddi, y gallai diweithdra yng Nghymru yn y dyfodol agos fod yn uwch na'r lefelau a welwyd yn ystod dirwasgiad 2008.

- Mae gwrthdroi'r newidiadau dros dro i Gredyd Cynhwysol a dirwyn cynlluniau cymorth y llywodraeth i ben hefyd yn debygol o gyfrannu at dlodi cynyddol yng Nghymru yn y dyfodol.

# Crynodeb: Allgáu Cymdeithasol

» Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn gysyniadau gwahanol, ond eto mae cydgysylltiad dwfn rhyngddynt. Er bod tlodi wedi'i ddiffinio'n gul ar y cyfan o ran incwm isel a diffyg adnoddau materol, mae allgáu cymdeithasol hefyd yn cynnwys mathau ehangach o amddifadedd, ac allgáu rhag cymryd rhan gymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol mewn cymdeithas.

» Gall allgáu cymdeithasol gynyddu risg unigolion o dlodi drwy eu hallgáu rhag cymryd rhan economaidd mewn cymdeithas. Yn yr un modd, mae tlodi'n cynyddu risg pobl o allgáu cymdeithasol drwy gyfyngu ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn cymdeithas.

» Gan nad yw data ar gyfer llawer o'r agweddau anfaterol ar allgáu cymdeithasol yng Nghymru ar gael weithiau, neu gan fod y data yn dameidiog neu'n anghyson, ni allwn gofnodi eu llwybr yn yr un modd ag yr ydym wedi'i wneud ar gyfer tlodi (neu adnoddau materol).

» Mae allgáu cymdeithasol, a brofir gan y rhai sy'n byw mewn tlodi incwm neu'n agos at fod mewn tlodi incwm, yn parhau i fod yn broblem fawr yng Nghymru ac yn effeithio ar sawl agwedd ar fywydau pobl. Gall yr adnoddau canlynol effeithio ar y risg o allgáu cymdeithasol:

- Adnoddau materol ac economaidd (e.e. incwm isel, amddifadedd materol, perchentyaeth);
- Mynediad at wasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, nawdd cymdeithasol) a gwasanaethau preifat (er enghraifft, cyfleustodau, cyfrif banc); ac
- Adnoddau cymdeithasol (hynny yw, graddau ac ansawdd cysylltiadau cymdeithasol)

» Mae lefel cyfranogiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, addysgol, gwleidyddol a dinesig hefyd yn ffactor allweddol sy'n penderfynu ar allgáu cymdeithasol. Er enghraifft, gall bod yn ddarparwr gofal di-dâl arwain at allgáu cymdeithasol, tra gall cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol leihau allgáu cymdeithasol.

» Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael fel achos a chanlyniad tlodi ac allgáu cymdeithasol yn destun dadl barhaus. Mae pobl anabl, pobl â salwch cronig a'u teuluoedd mewn mwy o berygl o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

» Mae pandemig y Coronafeirws wedi gwaethygu allgáu cymdeithasol i'r rhai y mae'n effeithio arnynt yn barod yng Nghymru ac mae hefyd wedi arwain at lawer yn profi allgáu cymdeithasol am y tro cyntaf.

» Mae effeithiau hirdymor Coronafeirws ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl a'r tarfu ar addysg oherwydd y pandemig hefyd yn debygol o fod yn faterion a fydd yn effeithio ar allgáu cymdeithasol i'r dyfodol yng Nghymru.

# Gair am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o dueddiadau'r gorffennol, y presennol a'r tueddiadau posibl yn y dyfodol mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o waith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau allgáu cymdeithasol a thlodi rhyngwladol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bwriad yr adroddiad yw llywio a chyfrannu at y prosiect ehangach hwn drwy roi cipolwg ar gwmpas a llwybr tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o adroddiadau ac ystadegau Llywodraeth Cymru, adroddiadau Llesiant Cymru sy'n orfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac adroddiadau gan sefydliadau gan gynnwys Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree, ymhlith eraill.

Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol am gynnal adolygiad gan gymheiriad o'r adroddiad hwn: Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Dr Abigail McKnight, Ysgol Economeg Llundain; a Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan.



# 1. Cyflwyniad

**Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn faterion o bwys yng Nghymru. Mae bron i chwarter y bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd.**

Er bod cyfraddau tlodi yng Nghymru wedi gostwng yn raddol dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae hyn wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan y gostyngiadau ar ddechrau'r 2000au, gyda'r gyfradd tlodi gyffredinol yn parhau'n weddol ddisymud dros y degawd diwethaf. Er y bu gostyngiad mewn cyfraddau tlodi ymhlith grwpiau penodol o fewn cymdeithas, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i leihau lefelau tlodi cyffredinol yng Nghymru ac mae allgáu cymdeithasol yn parhau i fod yn broblem sylweddol.


Er bod tlodi'n cael ei weld yn draddodiadol yn nhermau adnoddau ariannol ac incwm isel, mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu syniad ehangach o dlodi, sy'n ymestyn i allgáu cymdeithasol. Allgáu cymdeithasol yw allgáu unigolion, aelwydydd neu grwpiau rhag cymryd rhan mewn agweddau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol mewn cymdeithas. Mae hyn yn unol â chysyniad llywodraeth Cymru o dlodi.

Felly, mae'r adroddiad yn edrych y tu hwnt i dlodi fel y'i diffinnir o ran amddifadedd materol ac incwm isel i archwilio allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cydnabod bod tlodi'n aml yn gysylltiedig ag allgáu o gymdeithas – cysylltiad nad yw'n cael ei gyfleu gan ddulliau cul o dlodi sy'n canolbwyntio ar incwm.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut caiff tlodi ac allgáu cymdeithasol eu disgrifio, eu diffinio a'u mesur yng Nghymru. Yna mae'n cynnwys diffiniad eang o dlodi ac allgáu cymdeithasol wrth wraidd ei ddadansoddiad o dueddiadau tlodi yn y gorffennol a'r presennol, allgáu cymdeithasol a'i ganlyniadau, a llwybr tlodi yng Nghymru. Er mwyn archwilio tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) fel ei brif fframwaith dadansoddol.

Dyma strwythur yr adroddiad: Mae adran 2 yn edrych ar sut caiff tlodi ac allgáu cymdeithasol eu mesur; Mae adran 3 yn edrych ar dlodi mewn perthynas â thueddiadau, risgiau a chyfansoddiad; Mae adran 4 yn rhoi trosolwg byr o sbardunau tlodi; Mae adran 5 yn darparu archwiliad cynhwysfawr o allgáu cymdeithasol a thlodi yng Nghymru; Mae adran 6 yn edrych ar effaith pandemig y Coronafeirws; Mae adran 7 yn trafod dyfodol tlodi yng Nghymru; ac mae adran 8 yn dod i gasgliadau.

## Ffigur 1: Strwythur yr adroddiad



# 2. Mesur tlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio diffiniad eang o dlodi, gan ei ddiffinio fel a ganlyn:

**"cyflwr hirdymor o beidio â chael digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau (fel mynediad i gymdogaethau atyniadol a mannau agored) a gymerir yn ganiataol gan eraill yn eu cymdeithas"**

(Llywodraeth Cymru, 2015, t. 1)

Mae'r diffiniad hwn yn tynnu sylw at y syniad bod tlodi'n gysylltiedig â chaledi ariannol a'r diffyg mynediad at set lawer ehangach o adnoddau a chyfleoedd. Mae'n dangos *tlodi* (yn ôl diffiniadau confensiynol sy'n seiliedig ar incwm) ac *allgáu cymdeithasol* (yr anallu i gael gafael ar bethau a gymerir yn ganiataol gan eraill mewn cymdeithas, yn aml ond ddim bob amser oherwydd tlodi ariannol). Bydd yr adroddiad hwn yn defnyddio'r ddwy agwedd ar y cysyniad hwn ac yn eu harchwilio o ran tlodi incwm ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o wahanol fesurau tlodi ac allgáu cymdeithasol, yn trafod eu manteision a'u hanfanteision, ac yn nodi sut mae'r mesurau hyn yn cysylltu â diffiniad Llywodraeth Cymru uchod. Yn benodol, mae'n edrych ar dlodi incwm cymharol ac absoliwt; amddifadedd materol; dulliau newydd ac amgen o ddelio â thlodi; ac allgáu cymdeithasol.

## 2.1 – Tlodi incwm cymharol ac absoliwt

Y mesur tlodi a ddefnyddir amlaf yn y DU yw tlodi incwm 'cymharol'. Yma, diffinnir bod unigolyn yn byw mewn tlodi 'pan fydd rhywun yn byw mewn aelwyd y mae ei incwm yn llai na 60% o'r incwm canolrifol, wedi'i addasu ar gyfer maint a math ei aelwyd, ac ar ôl costau tai (AHC)' (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018, t. 2), lle mae incwm yn cynnwys incwm[1] o gyflogaeth (neu bensiynau ymhlith y boblogaeth sydd wedi ymddeol) a budd-daliadau. Gan ddefnyddio'r trothwy incwm canolrifol hwn o 60%, gellir mesur tlodi incwm hefyd cyn costau tai (BHC), yn hytrach nag ar ôl costau tai (AHC) fel yn y diffiniad blaenorol. Yn gyffredinol, mae cyfraddau tlodi a gyfrifir gan ddefnyddio diffiniad AHC yn uwch na'r rhai a gyfrifir gan ddefnyddio diffiniad BHC, gan fod gwariant tai fel arfer yn cyfrif am gyfran uwch o wariant aelwyd ar gyfer y rhai ar incwm is (Tŷ'r Cyffredin, 2020).

Mae tlodi incwm 'absoliwt' yn cyfeirio at bobl y mae eu hincwm yr aelwyd o dan 60% o'r incwm canolrifol mewn blwyddyn gyfeirio neu sylfaen benodol (Tŷ'r Cyffredin, 2020). Disgrifir hyn weithiau fel mesur o dlodi 'ar angor' gan fod y trothwy wedi'i bennu i bwynt penodol mewn amser (y flwyddyn gyfeirio neu'r sylfaen) ac yna mae'n cael ei addasu bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau mewn prisiau (Fox, 2017).

1 Mae incwm fel y trafodwyd yn cyfeirio at incwm gwario, sef incwm sy'n weddill ar ôl didynnu trethi uniongyrchol.

Mae'r trothwy tlodi cymharol canolrifol o 60% yn fesur o dlodi cymharol sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol mewn gwledydd incwm uchel ac mae'n cael ei ddefnyddio gan lywodraethau'r DU a'r UE. Felly, mae'n golygu bod modd cymharu o fewn y DU a thu hwnt (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Mae mesurau tlodi cymharol yn ystyrlon mewn gwledydd incwm uchel oherwydd bod y safon byw ddisgwyliedig, a'r safon byw isaf sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ar gyfer cymdeithasau incwm uchel, yn llawer uwch na'r safon byw sy'n gysylltiedig â'r anghenion sylfaenol ar gyfer cefnogi bywyd (hynny yw, bwyd, dŵr, cysgod) (Nastic, 2012). Mae mesurau tlodi cymharol yn arbennig o ddefnyddiol o ran monitro tueddiadau hirdymor ac ar raddfa fawr mewn cyfraddau tlodi. Yng Nghymru, mae data tlodi cymharol ar gael ar draws pob grŵp oedran, sy'n golygu bod modd dadansoddi cyfansoddiad tlodi o fewn y boblogaeth (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Mae data hefyd ar gael sy'n caniatáu dadansoddi tlodi sy'n cael ei ddiffinio fel 60% o incwm canolrifol ymhlith gwahanol grwpiau/yn ôl nodweddion gwahanol, gan gynnwys oedran, rhywedd, math o aelwyd, deiliadaeth tai a statws gwaith (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Mae'n bwysig nodi bod mesurau sy'n seiliedig ar incwm yn seiliedig ar aelwydydd yn hytrach na lle. Felly, nid ydynt yn cael yr un effeithiau llyfnhau neu guddio (sy'n gallu cuddio profiadau/tueddiadau sy'n effeithio ar unigolion) a welir mewn mesurau tlodi sy'n seiliedig ar ardal.

Er eu bod yn cael eu defnyddio'n eang, gwyddom fod rhai pethau'n cyfyngu ar fesurau tlodi sy'n seiliedig ar incwm. Mae'r mesurau hyn yn dangos tlodi ar lefel aelwydydd yn unig ac wrth wneud hynny tybir bod incwm ac adnoddau'n cael eu dosbarthu'n gyfartal o fewn yr aelwyd, ac efallai nad yw hynny'n wir. Maent hefyd yn gynhenid o'u cymharu gan eu bod yn diffinio tlodi drwy fesur incwm o'i gymharu ag incwm pobl eraill yn yr un boblogaeth.

Mae mesurau sy'n seiliedig ar incwm hefyd yn eithrio'r llu o ffactorau eraill nad ydynt yn ymwneud ag incwm/arian a all gyfrannu at dlodi ac amddifadedd, fel iechyd, tai ac addysg (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Yn gyffredinol, nid yw'r mesurau hyn yn ystyried unrhyw adnoddau ariannol ar wahân i incwm, gan gynnwys cynilion a dyledion. Yn ogystal, mae'r trothwy incwm o 60% yn gymharol fympwyol, er bod cryn dipyn o dystiolaeth ddilysu ar gyfer y trothwy hwn. Dim ond cipolwg ar foment benodol mewn amser y mae'r mesur hwn o dlodi yn ei roi i ni; nid yw'n mesur unigolion sy'n symud i mewn ac allan o dlodi (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Yn gysylltiedig â hyn, mae'n bwysig nodi y gall trothwyon tlodi cymharol fod yn gamarweiniol yn y tymor byr pan fo'r incwm canolrifol yn gostwng (er enghraifft, ar ôl argyfwng ariannol 2007-08). Felly, mae'n bwysig edrych hefyd ar fesurau sydd wedi'u gosod pan fo'n hysbys bod safonau byw yn gostwng.

Mae materion data sy'n benodol i Gymru hefyd o ran defnyddio'r mesur incwm canolrifol o 60%. Oherwydd maint y samplau bach yn y gyfres ddata swyddogol, dim ond fel cyfartaledd symudol tair blynedd y mae ystadegau incwm cymharol Cymru ar gael. Mae hyn yn atal dadansoddi tueddiadau o un flwyddyn i'r llall (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). At hynny, mae meintiau bychan y samplau o ddata Cymru yn atal daduno yn ôl llawer o nodweddion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cipolygon y gellir eu cael i gyfansoddiad y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae meintiau bychan y samplau hefyd yn ei gwneud yn anodd bod yn sicr bod symudiadau bach yn y gyfradd tlodi, yn enwedig ar gyfer grwpiau fel plant, yn ddilys, oherwydd gallai newidiadau yn y brif gyfradd ar gyfer grwpiau o'r fath fod o fewn y lwfans gwallau.

## 2.2 – Amddifadedd materol

Gellir defnyddio mesurau amgen i gasglu agweddau eraill ar dlodi yng Nghymru, sy'n ategu'r dull sy'n seiliedig ar incwm.

Mae amddifadedd materol yn fesur allweddol a ddefnyddir yn aml yn adroddiadau Llywodraeth Cymru ar dlodi, yn enwedig mewn perthynas ag adroddiadau Llesiant Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae mesurau amddifadedd materol yng Nghymru yn cyfuno trothwy incwm canolrifol o 70% gydag asesiad o 'a yw aelwyd yn gallu fforddio pethau fel cadw'r tŷ'n ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn' (StatsCymru, 2019b). Yn wahanol i fesurau sy'n seiliedig ar incwm yn unig, sy'n dangos straen ariannol tymor byr, cyfredol yn bennaf, mae mesur amddifadedd materol yn helpu i dynnu sylw at ganlyniadau tlodi hirdymor ar gyfer amodau byw a lles aelwyd. Er y dylid nodi nad yw straen ariannol fel sy'n cael ei gyfleu mewn mesurau sy'n seiliedig ar incwm bob amser yn fyr dymor, ac er bod mesurau amddifadedd materol yn tueddu i fod yn fwy cysylltiedig â chaledi hirdymor, maent yn cynnwys rhai eitemau sy'n gysylltiedig â phrofiadau o amddifadedd yn y tymor byr.

## 2.3 – Dulliau newydd ac amgen o ymdrin â thlodi

Mae dulliau newydd ac amgen o fesur tlodi yn cael eu hystyried yng Nghymru. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn fesur o dlodi amlddimensiwn sy'n benodol i Gymru (StatsCymru, 2020c). Mae MALlC yn mesur lefel gymharol yr amddifadedd mewn ardaloedd bach[2] o Gymru drwy archwilio'r crynodiad o wyth math gwahanol[3] o amddifadedd ym mhob ardal. Caiff MALlC ei ddiweddaru bob pedair i bum mlynedd a chyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf yn 2019 (StatsCymru, 2020c).

Drwy gynnwys amrywiaeth o fathau o amddifadedd materol, mae MALlC (a mynegeion amddifadedd lluosog tebyg) yn caniatáu ar gyfer cysyniadau ehangach o dlodi na dulliau traddodiadol sy'n seiliedig ar incwm. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi eu bod yn dal i ganolbwyntio ar amddifadedd materol yn unig (hynny yw, diffyg adnoddau); nid ydynt yn mesur dimensiynau anfaterol amddifadedd. Gan eu bod yn archwilio sawl math o amddifadedd materol, gellir dadlau bod y mesurau hyn yn caniatáu i ystadegau tlodi adlewyrchu'n well lefelau gwirioneddol tlodi ac allgáu cymdeithasol sy'n cael eu profi mewn poblogaeth (Menter Tlodi a Datblygiad Dynol Rhydychen, 2016).

Fodd bynnag, mae mynegeion amddifadedd lluosog a materol yn gyfyngedig gan na allant gyfleu pob agwedd ar dlodi ac allgáu cymdeithasol. At hynny, gall y data sydd ar gael gyfyngu ar gymhwyso mesurau o'r fath (ibid.). Nid yw mynegeion amddifadedd yn addas ar gyfer cymharu rhyngwladol chwaith, sy'n gallu cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol ydynt. At hynny, gall MALlC, a'r holl fynegeion mesur eraill sy'n seiliedig ar fannau sy'n pennu sgorau amddifadedd i ardaloedd daearyddol, gael effaith lyfnhau sy'n cuddio amrywiaeth y profiad mewn ardaloedd penodol.

Mae'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol, a sefydlwyd yn 2016, wedi datblygu fframwaith mesur tlodi gwahanol y gellir ei ddefnyddio yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn adeiladu ar fesurau tlodi sy'n seiliedig ar incwm. Mae wedi'i gynllunio i alluogi defnyddwyr i ddeall pwy sydd mewn tlodi drwy fesur nifer yr achosion a deall mwy am natur y tlodi hwn drwy asesu dyfnder, parhad a phrofiad uniongyrchol y rhai sy'n dod o dan y mesur o niferoedd (Comisiwn Metrigau Cymdeithasol, 2020).

2 Diffinnir ardaloedd bach o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) y cyfrifiad.

3 Wyth maes MALlC yw incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol, a'r amgylchedd ffisegol.

Mae dull y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol hefyd yn ceisio cyfrif am adnoddau materol y tu hwnt i incwm a chostau anochel y mae rhai aelwydydd yn eu hwynebu (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd hirdymor) (Comisiwn Metrigau Cymdeithasol, 2019). Fodd bynnag, mae diffyg data addas yng Nghymru yn broblem ddifrifol o ran cyflwyno a defnyddio'r mesur hwn yn ymarferol.

Dull amgen arall o ymdrin â thlodi yw'r Safon Isafswm Incwm (MIS). Cynhyrchir y MIS drwy arolwg blynyddol a ddefnyddir i nodi'r safon byw ofynnol sy'n dderbyniol i bobl yn ôl gwahanol fathau o aelwydydd. Yna defnyddir hwn i ddiffinio MIS ar gyfer pob math o aelwyd (Portes a Reed, 2018). Mantais y dull hwn yw ei fod yn osgoi trothwy mympwyol ar gyfer tlodi, sy'n un o wendidau'r dull traddodiadol o ymdrin â thlodi incwm cymharol. Fodd bynnag, ni chynhyrchir data blynyddol ar bobl sy'n byw islaw'r MIS.

## 2.4 – Allgáu cymdeithasol

Gellir diffinio allgáu cymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd a gall gynnwys sawl math o amddifadedd. Mae Levitas et al. (2007) yn diffinio allgáu cymdeithasol fel:

**"proses gymhleth ac amlddimensiwn. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gymryd rhan yn y berthynas a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a thegwch a chydlyniant cymdeithas gyfan."**

(Levitas, et al., 2007, t. 9)

Er bod diffiniadau o dlodi yn aml yn cynnwys rhai agweddau ar allgáu cymdeithasol, mae tlodi'n draddodiadol yn cael ei ddisgrifio o ran amddifadedd materol, gyda phwyslais yn aml yn cael ei roi ar incwm isel a diffyg adnoddau materol. I'r gwrthwyneb, mae allgáu cymdeithasol yn canolbwyntio ar allu pobl i gymryd rhan mewn gwahanol agweddau ar gymdeithas, fel y disgrifir yn y diffiniad uchod. Y cysylltiad rhwng y ddau gysyniad yw y gall tlodi gynyddu risg pobl o brofi rhai elfennau o allgáu cymdeithasol ac i'r gwrthwyneb. Mae'n bwysig nodi y gall ffactorau eraill fel rhywedd, oedran, ethnigrwydd, statws anabledd/iechyd a statws cyflogaeth hefyd gyfrannu at allgáu cymdeithasol. Gall grwpiau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio'n negyddol arnynt brofi anfanteision strwythurol, gwahaniaethu a rhwystrau eraill i gymryd rhan mewn cymdeithas.

### 2.4.1 Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM)

Datblygwyd Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) yn 2007 fel dull o ddeall yr hyn sy'n achosi allgáu cymdeithasol yn well. Bwriedir i'r matrics gael ei ddefnyddio i archwilio'r rhain ar draws oes pobl – plentyndod, ieuenctid, byd oedolion o oedran gweithio ac yn hwyrach mewn bywyd. Mae'n defnyddio'r diffiniad o allgáu cymdeithasol a roddir yn Adran 2.4 (Levitas, et al., 2007).

Mae'r B-SEM yn cynnig ffordd o edrych ar yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel 'tlodi cyffredinol' (y Cenhedloedd Unedig, 1995). Mae'n canolbwyntio ar ddeg agwedd wahanol ('is-feysydd') o allgáu cymdeithasol, sy'n dod o dan dri maes allweddol: yr adnoddau sydd ar gael i unigolion; eu gallu i gymryd rhan mewn ystod eang o feysydd; ac ansawdd eu bywyd yn gyffredinol (Tabl 1).

## Tabl 1: Parthau B-SEM

| Parth | Is-feysydd |
|---|---|
| Adnoddau | Adnoddau materol/ economaidd |
| | Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat |
| | Adnoddau cymdeithasol |
| Cymryd rhan | Cymryd rhan yn yr economi |
| | Cymryd rhan mewn cymdeithas |
| | Diwylliant, addysg a sgiliau |
| | Cymryd rhan wleidyddol a dinesig |
| Ansawdd bywyd | Iechyd a lles |
| | Amgylchedd byw |
| | Troseddu, niwed a throseddoleiddio |

Ffynhonnell: Levitas et al. (2007)

Daeth y B-SEM a'r ystod eang o ffactorau sy'n pennu allgáu cymdeithasol o adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth, a oedd yn cynnwys archwilio diffiniadau a dimensiynau sy'n ymwneud ag anfantais amlddimensiwn, a dadansoddi arolygon mawr sy'n ymwneud ag allgáu cymdeithasol. Un o'r prif ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r B-SEM oedd Arolwg y Mileniwm o Dlodi ac Allgáu Cymdeithasol, a oedd yn dibynnu ar ddefnyddio grwpiau ffocws wrth asesu tlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae'r dull allgáu cymdeithasol yn cynnig ffordd ehangach o ddeall anfantais y tu hwnt i adnoddau ariannol a materol ac yn nodi agweddau eraill ar brofiad bywyd o dlodi. Mae'r B-SEM yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio wrth nodi a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau.

Nid yw'n cyfyngu ar y prosesau achosol sy'n effeithio ar allgáu cymdeithasol/ cyfleoedd mewn bywyd, ond mae'n eu gadael yn agored i ymchwiliad empirig. Yn ogystal, mae'r fframwaith B-SEM yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymchwil o brofiadau bywyd.

Mae rhai cyfyngiadau ar y dull allgáu cymdeithasol yn gyffredinol a'r B-SEM yn benodol. Gall dull mor eang ac amlddimensiwn o ymdrin ag anfantais olygu bod cynnal dadansoddiad cynhwysfawr yn heriol. Gall hefyd ei gwneud yn anodd nodi a blaenoriaethu polisïau ac ymyriadau perthnasol i fynd i'r afael â'r gwahanol agweddau ar allgáu cymdeithasol yn effeithiol. O ran y B-SEM yn benodol, nid yw'n hysbys eto sut mae parthau'n rhyngweithio, ac mae perygl bod canolbwyntio ar bob un o'r deg is-faes yn golygu bod ymdrech yn mynd ar rai llai pwysig yng nghyswllt achosi tlodi. Hefyd, nid yw'r fframwaith B-SEM yn gwahaniaethu rhwng sbardunau a chanlyniadau tlodi ac amddifadedd – gwahaniaeth sy'n bwysig ar gyfer datblygu ymyriadau a pholisi.

Yn y papur hwn, rydym yn archwilio tlodi yng Nghymru o safbwynt incwm isel cymharol. Rydym yn defnyddio'r mesur incwm canolrifol o 60% i wneud hyn gan mai dyma'r mesur tlodi a dderbynnir fwyaf a'r mesur y mae'r rhan fwyaf o ddata ar gael ar ei gyfer yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio'r B-SEM i archwilio allgáu cymdeithasol yng Nghymru drwy ddefnyddio'r fframwaith yng nghyd-destun Cymru, gan archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer pob un o'r is-feysydd B-SEM.

# 3. Tlodi yng Nghymru: Tueddiadau, risg a chyfansoddiad

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o bwy sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth am newidiadau mewn cyfraddau tlodi i Gymru gyfan ac ar gyfer gwahanol grwpiau dros yr 20 mlynedd diwethaf; y risg o dlodi ar gyfer pob grŵp (hynny yw, y gyfradd tlodi ar gyfer y grŵp hwn); a chyfansoddiad tlodi yng Nghymru. Yn yr adran hon rydym yn defnyddio'r diffiniad incwm canolrifol o 60% ar gyfer tlodi.

Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfansoddiad a risg/cyfraddau, gan nad yw grwpiau sydd â chyfraddau tlodi uchel yn ffurfio cyfran fawr o bobl mewn tlodi (oherwydd maint poblogaeth cymharol fach y grwpiau hyn), fel sy'n wir am blant. Gall hyn effeithio ar flaenoriaethau polisi ac effaith polisïau, rhaglenni neu fentrau penodol ar y darlun cyffredinol o dlodi yng Nghymru.

Mae'r adran yn ymdrin â'r agweddau canlynol ar dlodi yng Nghymru: y gyfradd tlodi; cyfansoddiad tlodi; tlodi oedran gweithio; tlodi mewn gwaith; tlodi allan o waith; tlodi plant; tlodi pensiynwyr; tlodi a math o deulu; tlodi a'r math o ddeiliadaeth tai; rhywedd; anabledd; dosbarthiad daearyddol; cymunedau gwledig; a thlodi parhaus.

## Tueddiadau tlodi

- Bu gostyngiad bach ar y cyfan mewn cyfraddau tlodi yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf. Gostyngodd cyfran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi incwm o 25% yn 2000 i tua 23% rhwng 2009 a 2012.
- Mae hyn wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan ostyngiadau ar ddechrau'r 2000au, gyda'r gyfradd tlodi yng Nghymru yn parhau i fod yn ddisymud i raddau helaeth dros y degawd diwethaf.
- Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae'r gyfradd tlodi yng Nghymru yn parhau'n uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn wedi bod yn wir am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf.
- Er y bu gostyngiad mewn cyfraddau tlodi ymhlith grwpiau penodol (yn enwedig pensiynwyr) mewn cymdeithas, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i leihau lefelau tlodi cyffredinol yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.
- Teuluoedd â phlant sydd â'r gyfradd tlodi uchaf yng Nghymru, tra bod y cyfraddau ar eu hisaf ymhlith pensiynwyr a theuluoedd heb blant.
- Mae cyfraddau tlodi hefyd yn gyson uwch ymhlith pobl ifanc, pobl anabl a phobl â salwch cronig, rhieni sengl, rhentwyr cymdeithasol a phreifat, menywod, a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

## Cyfansoddiad: Pwy sy'n byw mewn tlodi?

- Pobl o oedran gweithio yw'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi, sy'n cynnwys tua 57% o bobl mewn tlodi yng Nghymru.
- Mae tlodi mewn gwaith yn fater allweddol ac mae wedi gwaethygu dros yr 20 mlynedd diwethaf.
- Mae bod mewn aelwyd heb waith yn cynyddu'r risg o dlodi, ond nid yw bod mewn gwaith bob amser yn ddigon i atal tlodi.
- Plant sydd â'r risg uchaf o dlodi ond dyma'r grŵp lleiaf o bobl sy'n byw mewn tlodi o ran niferoedd absoliwt.
- Er gwaethaf gostyngiad yn y cyfraddau tlodi ymhlith pensiynwyr yng Nghymru o'i gymharu ag 20 mlynedd yn ôl, yn y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd yng nghyfran y pensiynwyr yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi.
- Mae cyfraddau tlodi yn amrywio yn ôl math o deulu gyda'r gyfradd uchaf (44%) ymhlith aelwydydd unig riant.
- Aelwydydd sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol sydd â'r gyfradd tlodi uchaf o bob math o ddeiliadaeth, a dyma'r gyfran fwyaf o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.
- Rhwng 2015 a 2019, roedd y risg o dlodi parhaus i unigolion yng Nghymru yn 12% ar ôl costau tai.
- Costau byw cynyddol – yn enwedig costau sy'n gysylltiedig â thai, gostyngiad mewn budd-daliadau oedran gweithio a gwaith o ansawdd gwael – yw prif sbardunau tlodi yng Nghymru.

## Y risg o fyw mewn tlodi

- Mae'r risg o fyw mewn tlodi ac amddifadedd materol ychydig yn uwch i fenywod na dynion.
- Mae pobl anabl a'u teuluoedd yn wynebu risg uwch o dlodi na phobl heb anableddau. Mae pobl anabl yng Nghymru yn wynebu rhwystrau penodol i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae gostyngiadau mewn cymorth nawdd cymdeithasol wedi effeithio'n arbennig arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae cyfradd tlodi pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn uwch na'r boblogaeth Wyn. Fodd bynnag, mae pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gyfran gymharol fach (2.3%) o'r holl bobl mewn tlodi yng Nghymru, oherwydd maint cyffredinol bach y boblogaeth hon.
- Tenantiaid cymdeithasol sydd â'r risg uchaf o dlodi o bob math o ddeiliadaeth. Mae nifer y tenantiaid cymdeithasol mewn tlodi mewn gwaith yng Nghymru wedi cynyddu o 29% yn 2012/15 i 39% yn 2016/19.
- Aelwydydd unig riant sydd â'r risg uchaf o dlodi o bob math o deuluoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r teuluoedd hyn yn ffurfio cyfran gymharol fach o deuluoedd mewn tlodi yng Nghymru (13.1%).
- Mae tlodi gwledig yn aml yn dod i'r amlwg yn yr un modd â thlodi trefol, ond mae'r hyn sy'n ei achosi a'i raddfa yn aml yn wahanol.
- Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol wedi'u cydgysylltu'n ddwfn. Mae pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yn wynebu risg uwch o dlodi ac i'r gwrthwyneb.

## 3.1 – Cyfradd tlodi

Dros yr 20 mlynedd diwethaf mae'r gyfradd tlodi gyffredinol yng Nghymru wedi gostwng yn raddol. Yn 2000, roedd 25% o bobl Yng Nghymru yn cael eu diffinio fel pobl a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Gostyngodd cyfraddau tlodi'n raddol ar ddechrau'r 2000au, gan gyrraedd y lefel isaf, sef 22% yn 2003-06 cyn codi eto i 23% yn 2009-12. Mae'r cyfraddau wedi aros yn sefydlog yn dilyn hynny. Am lawer o'r 20 mlynedd diwethaf, mae'r gyfradd tlodi yng Nghymru wedi aros fymryn yn uwch na chyfradd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Ffigur 2).

## 3.2 – Cyfansoddiad tlodi

Er bod cyfraddau tlodi yng Nghymru wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth am y rhan fwyaf o'r 20 mlynedd diwethaf, mae cyfansoddiad tlodi yng Nghymru – cyfran y bobl mewn tlodi sy'n perthyn i wahanol grwpiau neu sydd â nodweddion gwahanol – wedi newid dros amser.

Fel y gwelir yn Ffigur 3, mae plant yn parhau i fod fwyaf mewn risg o dlodi gan eu bod yn profi'r gyfradd tlodi uchaf yn gyson – 31% ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae maint cymharol fach y boblogaeth plant yng Nghymru yn golygu nad hwy yw'r grŵp mwyaf mewn tlodi. O'r 700,000–710,000 o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru heddiw, mae plant yn cyfrif am tua 180,000–185,000. Mae hyn wedi gostwng o tua 210,000 o blant ddeng mlynedd yn ôl, pan oedd y gyfradd tlodi plant yn 33%.

Pensiynwyr sydd leiaf mewn risg o dlodi yng Nghymru yn gyson – er gwaethaf amrywiad yn y gyfradd tlodi ar gyfer y grŵp hwn dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r gyfradd tlodi ymhlith pensiynwyr wedi bod yn 19% am y pum mlynedd diwethaf, ar ôl cyrraedd lefel isel o 14% ddeng mlynedd yn ôl. Mae nifer y pensiynwyr mewn tlodi yng Nghymru bellach 20,000 yn uwch nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl. Ers 2010, mae nifer y pensiynwyr mewn tlodi yng Nghymru wedi cynyddu o 100,000 i lefel uchel o 130,000 yn 2014–18 cyn gostwng i 120,000 yn 2016–19.

Fodd bynnag, dylid nodi bod newidiadau yn nifer y pensiynwyr (neu unrhyw grŵp) mewn tlodi yn deillio o newidiadau mewn cyfradd a newid demograffig.

Mae'r risg o dlodi i oedolion o oedran gweithio wedi aros yn weddol sefydlog dros yr 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer yr oedolion o oedran gweithio mewn tlodi wedi cynyddu. Ddegawd yn ôl, roedd 380,000 o aelwydydd o oedran gweithio yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Ers hynny mae'r nifer wedi bod mor uchel â 420,000 yn 2010-13 ac eto yn 2014-18, cyn gostwng i tua 400,000 yn 2016-19. Er nad oes ydynt yn wynebu’r risg mwyaf o dlodi, oedolion o oedran gweithio sy'n ffurfio'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi yng Nghymru yn gyson, oherwydd maint y boblogaeth o oedran gweithio.


## 3.3 – Tlodi oedran gweithio

Pobl o oedran gweithio yw'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi yng Nghymru, er nad yw'r grŵp hwn yn wynebu'r risg uchaf o dlodi. O'r 710,000 o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, mae 405,000 o oedran gweithio (16–64 oed) – sef 57.4% o bobl mewn tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae hyn yn cynrychioli tua 22% o boblogaeth oedran gweithio Cymru (StatsCymru, 2020g).

Mae'r gyfradd tlodi ymhlith oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi aros yn weddol gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf. Cyrhaeddodd lefel uchel o 24% yn 2010-13 ac mae bellach yn 22%. Mae'r gyfradd wedi bod ychydig yn uwch yng Nghymru na holl wledydd eraill y DU dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac eithrio 2007-12, pan oedd y cyfraddau ar gyfer Cymru a Lloegr yr un fath (Ffigur 4).


Yng Nghymru, mae pobl o oedran gweithio sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn fwy tebygol o fod yn profi tlodi na'r rhai sy'n byw mewn aelwyd sydd â mwy nag un oedolyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae'r rhai sy'n byw mewn cartref gydag oedolion eraill sy'n gweithio yn gallu cyfuno incwm a rhannu costau, sy'n lleihau eu risg o dlodi.

## Ffigur 2: Cyfraddau tlodi yng ngwledydd y DU, 2000-2020





Ffynhonnell: StatsCymru, 2020g

## Ffigur 3: Cyfradd tlodi ar gyfer gwahanol grwpiau yng Nghymru, 2000-2020





Ffynhonnell: StatsCymru, 2020g

## Ffigur 4: Cyfradd tlodi ymhlith oedolion o oedran gweithio yng ngwledydd y DU, 2000-2020




Ffynhonnell: StatsCymru, 2020g

## Ffigur 5: Cyfran yr aelwydydd mewn tlodi yng Nghymru yn ôl statws gwaith, 2016-19




Ffynhonnell: StatsCymru, 2019

## 3.4 – Tlodi mewn gwaith

Mae tlodi mewn gwaith wedi bod yn broblem gynyddol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Yn 2015-16 i 2017-18, roedd 58% o oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn tlodi yn rhan o aelwyd lle'r oedd o leiaf un oedolyn mewn gwaith (Llywodraeth Cymru, 2019b). Mae'r ffigur hwn yn codi i 67% ar gyfer tlodi plant mewn aelwydydd o'r fath (Llywodraeth Cymru, 2019b). Amcangyfrifir bod 14% o weithwyr yn byw mewn tlodi yng Nghymru – y gyfradd uchaf yn y DU (ac eithrio Llundain) (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Mae cyfraddau tlodi yn uwch mewn cartrefi lle mae gan bobl waith rhan-amser yn unig. Y gyfradd tlodi ar gyfer yr aelwydydd hyn oedd 26.6% yn 2016/17-2018/19. I'r gwrthwyneb, mewn aelwydydd lle'r oedd rhywun mewn gwaith llawn amser, y gyfradd tlodi oedd 15.7% yn yr un cyfnod (Ffigur 5).

O ran cyfansoddiad y boblogaeth, mae 41.4% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn rhan o aelwyd lle mae o leiaf un person mewn gwaith llawn amser. Mae 11% arall o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn rhan o aelwyd lle mae pobl mewn gwaith rhan-amser yn unig (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

## 3.5 – Tlodi allan o waith

Mae byw mewn aelwyd heb waith, aelwyd lle mae nifer cyfyngedig y bobl mewn gwaith, neu aelwyd lle mae nifer yr oriau a weithir yn gyfyngedig, i gyd yn cynyddu'r risg o dlodi i oedolion o oedran gweithio.

Mae data o 2016-19 yn dangos mai 16% oedd y gyfradd tlodi ar gyfer oedolion o oedran gweithio mewn aelwydydd lle'r oedd o leiaf un oedolyn mewn gwaith. Roedd y gyfradd ar gyfer oedolion o oedran gweithio ar aelwydydd heb waith yn 61% yn yr un cyfnod (StatsCymru, 2019a); (Ffigur 6).

Fodd bynnag, wrth i ni archwilio ymhellach yn adran 5.2.1, mae Sefydliad Joseph Rowntree yn tynnu sylw at y canfyddiad bod pedwar o bob deg aelwyd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnwys o leiaf un gweithiwr llawn amser. Mae hyn yn awgrymu nad yw bod mewn gwaith bob amser yn ddigon i atal tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Yn 2018, roedd 166,200 o aelwydydd heb waith yng Nghymru, sef 17.2% o'r holl aelwydydd (StatsCymru, 2020d). Diffinnir aelwyd heb waith fel aelwyd lle nad oes unrhyw un 16-64 oed yn economaidd weithgar neu mewn gwaith (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019a). Mae cyfradd diweithdra yng Nghymru yn parhau'n uwch nag un Lloegr, ond mae'n is na'r Alban a Gogledd Iwerddon (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018).


## 3.6 – Tlodi plant

Yn 2020, roedd tua 180,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Er bod y gyfradd tlodi ymhlith plant yng Nghymru wedi gostwng yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, nid oedd y gostyngiad hwn yn gyson ac roedd y gyfradd yn amrywio dros y cyfnod hwn.

Yn 2000-03 roedd y gyfradd tlodi plant yng Nghymru yn 33%. Gostyngodd i 29% yn 2003–2006, cyn codi eto rhwng 2005–2012. Ar ôl 2012, gostyngodd y gyfradd eto i 28% yn 2014-17 a 2016-19. Rhwng 2014 a 2017, roedd cyfradd tlodi plant yng Nghymru yn is na chyfradd Lloegr. Fodd bynnag, rhwng 2017 a 2020 cafwyd cynnydd sydyn, i gyfradd o 31%. Mae'r gyfradd tlodi plant hon yn debyg i un Lloegr, ond mae'n uwch na chyfradd yr Alban a Gogledd Iwerddon (Ffigur 7).


O'r grwpiau sy’n cael eu hystyried yma, plant yw'r grŵp sydd â'r risg uchaf o dlodi yng Nghymru. Ond, maent yn cynrychioli tua 25% o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, felly dyma'r grŵp lleiaf o bobl mewn tlodi. Mae hyn oherwydd maint cymharol fach y boblogaeth o blant. Yn 2020, roedd tri ym mhob deg o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

## Ffigur 6: Cyfraddau tlodi yn ôl statws gwaith yr aelwyd, 2016-2019




Ffynhonnell: StatsCymru, 2019

## Ffigur 7: Cyfradd tlodi ymhlith plant yng ngwledydd y DU, 2000-2020




Ffynhonnell: StatsCymru, 2020g

## 3.7 – Tlodi pensiynwyr

Mae cyfran y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf. Gostyngodd y gyfradd tlodi ymhlith pensiynwyr yng Nghymru yn sylweddol rhwng 2000 a 2010-13, o 23% i lefel isel o 14%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd wedi cynyddu ers hynny, gan gyrraedd uchafbwynt o 20% yn 2014-17. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r gyfradd wedi aros yn gyson ar tua 19%. Y gyfradd tlodi pensiynwyr yng Nghymru bellach yw'r uchaf o bob un o wledydd y DU (Ffigur 8).

O ran cyfansoddiad, rhwng 2016/17 a 2018/19 roedd pensiynwyr yn cyfrif am 17.1% o'r bobl a oedd yn byw mewn tlodi yng Nghymru (StatsCymru, 2020b).

Mae rhywfaint o amrywiaeth yn lefelau tlodi pensiynwyr rhwng gwahanol fathau o aelwydydd. Mae pensiynwyr sy'n byw fel rhan o gwpl yn llai tebygol o fyw mewn tlodi na phensiynwyr sengl, tuedd sy'n cael ei hadlewyrchu ledled y DU (StatsCymru, 2020b). Yn 2018/19 roedd y gyfradd tlodi ymhlith pensiynwyr sengl yng Nghymru yn 22.2% o'i gymharu â 17.7% ar gyfer pensiynwyr mewn cyplau (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a) (Ffigur 9).

## 3.8 – Math o deulu

Mae lefelau tlodi yn amrywio rhwng mathau o deuluoedd. O bob math o deulu, mae cyfraddau tlodi ar eu huchaf ymhlith teuluoedd unig riant. Yn 2018, roedd bron i hanner (44%) aelwydydd unig riant yng Nghymru yn byw mewn tlodi (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae hyn yn cynrychioli 13.1% o'r holl bobl mewn tlodi, er mai dim ond 7% o aelwydydd yng Nghymru sy'n cynrychioli teuluoedd unig rieni. Mae'r risg o dlodi ymhlith teuluoedd unig rieni yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf: yn 2009/10 roedd y gyfradd tlodi ar gyfer teuluoedd unig rieni yng Nghymru yn 54%, deg pwynt canran yn uwch nag yn 2017/18 (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Teuluoedd unig rieni sydd fwyaf tebygol o fod yn aelwydydd sy'n cael eu harwain gan fenywod.


Mae teuluoedd unig rieni mewn mwy o berygl o dlodi oherwydd bod eu hadnoddau'n o dan y straen mwyaf. Y rheswm am hyn yw, drwy ddiffiniad, mai dim ond un incwm posibl sydd gan y teuluoedd unig rieni hyn, ac mae'n cynnwys o leiaf un plentyn dibynnol. Mae unig rieni hefyd yn wynebu rhwystrau penodol i waith, gan fod argaeledd gofal plant (neu ddiffyg gofal plant) yn aml yn golygu eu bod yn cael eu cyfyngu o ran y math o waith y gallant ei wneud, neu o ran pa mor bell y gallant deithio i'r gwaith. Mae llawer o unig rieni wedi'u cyfyngu i gymryd rolau rhan-amser neu leol er mwyn cyd-fynd â'u cyfrifoldebau gofal plant.

Mae 23 y cant o gyplau â phlant yng Nghymru yn byw mewn tlodi – ffigur sydd wedi aros yn sefydlog am y deng mlynedd diwethaf – i lawr o 25% ar ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae cyplau â phlant yn cyfrif am 34.1% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.

Mae cyfraddau tlodi ymhlith aelwydydd â phlant yng Nghymru wedi bod yn gyson uwch na'r rhai ar gyfer cyplau heb blant. Yn 2018/19 y gyfradd tlodi ymhlith cyplau â phlant oedd 22.9%, tra roedd y gyfradd ar gyfer cyplau heb blant yn 15.1%. O ran cyfansoddiad tlodi, mae cyplau heb blant yn cyfrif am 13% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).


Ar gyfer pobl sengl heb blant, mae'r gyfradd tlodi wedi bod rhwng 25 a 30% yn gyson am yr 20 mlynedd diwethaf (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Yn 2018/19 y gyfradd tlodi ymhlith pobl sengl heb blant oedd 28% (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae'r grŵp hwn yn cyfrif am 20.9% o bobl mewn tlodi yng Nghymru.

## Ffigur 8: Cyfradd tlodi ymhlith pensiynwyr yng ngwledydd y DU, 2000-2020




Ffynhonnell: StatsCymru, 2020g

## Ffigur 9: Cyfraddau tlodi pensiynwyr yng Nghymru yn ôl math o aelwyd, 2018-19




Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a

## 3.9 – Math o ddeiliadaeth tai

Mae cyfraddau tlodi yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol fathau o ddeiliadaeth tai yng Nghymru. Aelwydydd sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol sydd â'r gyfradd uchaf o dlodi – sef 48.8% yn 2018/19. O'r bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, mae 34.6% mewn aelwydydd rhent cymdeithasol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae rhenti cymdeithasol yng Nghymru wedi cael cynyddu. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd yng nghyfran y tenantiaid cymdeithasol sydd mewn tlodi mewn gwaith o 29% yn 2012/15 i 39% yn 2016/19 – sy'n cyfateb i 25,000 o bobl ychwanegol sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).


Dyma rai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y risg uwch o dlodi a brofir gan rentwyr cymdeithasol:

- cynnydd mewn rhent a chost rhent/tai yn codi mwy na naill ai cyflog neu gymorth nawdd cymdeithasol;
- diffyg tai cymdeithasol ar gael, gan arwain at renti uwch y bwriedir eu defnyddio i ariannu datblygiadau newydd; a
- y nifer sy'n gymwys i gael Budd-dal Tai/ Credyd Cynhwysol ddim yn ei hawlio (Sefydliad Joseph Rowntree, 2015).

Mae'r gyfradd tlodi ymhlith aelwydydd rhent preifat yn gymharol uchel hefyd. Yn 2018/19 roedd y gyfradd tlodi ymhlith aelwydydd rhent preifat yn 41.4%. Mae'r aelwydydd hyn yn cynnwys 27.2% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Mae lefelau tlodi ymhlith perchnogion tai yn llawer is. Ar gyfer aelwydydd sy'n berchen ar eu cartref eu hunain ond sy'n dal i dalu tuag at forgais, mae'r gyfradd tlodi yn 10.5%. Mae'r aelwydydd hyn yn cyfrif am 16.5% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Ar gyfer aelwydydd sy'n berchen ar eu cartref yn llwyr, mae'r gyfradd tlodi yn 15.1%. Mae pobl sy'n berchen ar eu tai yn llwyr yn cynrychioli 21.7% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a) (Ffigur 10).

**Ffigur 10: Cyfran y bobl mewn tlodi yng Nghymru yn ôl math o ddeiliadaeth tai, 2016-19**




Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a

## 3.10 – Rhywedd

O ran rhywedd, ledled y DU, mae menywod ychydig yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na dynion. Yn 2017/18, roedd 19% o ddynion yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 21% o fenywod. Er nad yw data ar gyfer y cyfraddau hyn ar gyfer Cymru yn unig ar gael, mae Chwarae Teg a Sefydliad Bevan yn amcangyfrif bod 52.4% o bobl mewn tlodi yng Nghymru yn fenywod. Mae hyn ychydig yn is na'r 56.6% ddegawd yn ôl yn 2009/10 (Sefydliad Chwarae Teg a Bevan, 2019).

Mae gan fenywod sengl yng Nghymru heb blant risg uwch o dlodi na dynion sengl heb blant. Y gyfradd tlodi ymhlith y menywod hyn yw 32%, a 28% yw'r gyfradd gyfatebol ymhlith dynion. Mae gan fenywod hefyd siawns llawer uwch na dynion o fod yn unig riant – grŵp sydd, yng Nghymru, â chyfradd tlodi o 44% (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019).

Y tu hwnt i risg tlodi a ddiffinnir gan incwm, mae Chwarae Teg a Sefydliad Bevan yn nodi bod menywod yn aml yn wynebu risgiau uwch o amddifadedd materol, digartrefedd ac ansicrwydd bwyd (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Yn gyffredinol, mae gan fenywod fwy o ddyled a llai o asedau, a all gynyddu eu risg o syrthio i dlodi.

Dyma rai o'r ffactorau eraill sy'n cyfrannu at risg uwch menywod o dlodi:

- mae menywod yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser;
- costau ac argaeledd gofal plant fel rhwystr i waith;
- mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi ar gontractau dim oriau;
- dim digon o gefnogaeth gan y system nawdd cymdeithasol; ac
- mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn sectorau sy'n gysylltiedig â chyfraddau tlodi uchel, fel manwerthu a lletygarwch. (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019)

## 3.11 – Anabledd

Roedd y gyfradd tlodi ymhlith teuluoedd a oedd yn cynnwys o leiaf un person ag anabledd yng Nghymru yn 27.2% yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â chyfradd tlodi o 20% ymhlith teuluoedd lle nad oes gan unrhyw un anabledd. Mae gan fwy na 46% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru anabledd, neu rywun ar eu haelwyd ag anabledd (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae'r gyfradd tlodi ymhlith pobl anabl yng Nghymru yn uwch na chyfradd holl wledydd eraill y DU.

Dyma rai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y risg uwch o dlodi a wynebir gan bobl ag anabledd/cyflwr iechyd hirdymor:

- rhwystrau i gyflogaeth a'r farchnad lafur;
- dim digon o gymorth nawdd cymdeithasol;
- llai o wasanaethau cymorth anabledd oherwydd cyni; a
- chostau uwch sy'n gysylltiedig ag afiechyd a/neu anabledd (Anabledd Cymru, 2018).

Mae pobl anabl yng Nghymru, ac mewn mannau eraill, hefyd yn wynebu rhwystrau penodol sy'n gysylltiedig â mynediad at wasanaethau, trafnidiaeth, tai, chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol. Gall tlodi waethygu (a chyfrannu at) pob un ohonynt.

## 3.12 – Ethnigrwydd

Mae'r gyfradd tlodi ymhlith y boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn uwch na chyfradd tlodi y boblogaeth pobl Wyn. Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree, mae 24.5% o aelwydydd â phen teulu nad yw'n Wyn mewn tlodi yng Nghymru, o'i gymharu â 22.7% o aelwydydd â phen teulu Gwyn[4] (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – yn arbennig pobl Dduon Caribïaidd, Bangladeshaidd a Phacistanaidd – mewn mwy o berygl o dlodi mewn gwaith yng Nghymru (Sefydliad Bevan, 2020a). Fodd bynnag, er gwaethaf y risg uchel o dlodi yn y boblogaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, mae'n gyfran gymharol fach o'r holl bobl mewn tlodi, ac yn cynrychioli 2.3% o'r holl bobl mewn tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Un ffactor allweddol sy'n cyfrannu at y risg uwch o dlodi o'i gymharu â'r boblogaeth Wyn yw cyflog isel. Mae pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau sy'n talu cyflog isel, fel lletygarwch a gofal cymdeithasol (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae cyfraddau cyflogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd yn is na'r boblogaeth Wyn (Sefydliad Bevan, 2020a). Y gyfradd gyflogaeth ymhlith y boblogaeth Ddu yng Nghymru yw 56%, tra bod cyfradd y boblogaeth Asiaidd ychydig yn uwch ar 62%. Mae hyn yn cymharu â 74% ymhlith y boblogaeth Wyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

## 3.13 – Dosbarthiad daearyddol

Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o brif ganfyddiadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALlC) (Llywodraeth Cymru, 2019d) i roi trosolwg o ddosbarthiad daearyddol tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Wrth ddefnyddio tystiolaeth MALlC, mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn cael eu disgrifio o ran amddifadedd lluosog, sy'n cael ei fesur ar lefel 'ardal fach' Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)[5] (StatsCymru, 2020c).


Mae MALlC cyffredinol 2019 yn dangos bod ardaloedd dwys o amddifadedd lluosog cymharol uchel yn Ne Cymru – a hynny yn y dinasoedd a'r cymoedd. Roedd rhai pocedi o amddifadedd uchel hefyd mewn trefi arfordirol ac ar y gororau yng Ngogledd Cymru. Casnewydd oedd â'r gyfran uchaf (24.2%) o'r ardaloedd bach a oedd yn cael eu dosbarthu fel y rhai mwyaf difreintiedig ym MALlC 2019. Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, a dim ond un ardal o'r fath oedd gan Bowys. Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd a oedd yn cael eu dosbarthu fel rhai yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd 85.1% o ardaloedd bach ym Mlaenau Gwent yn cyd-fynd â'r categori hwn (Llywodraeth Cymru, 2019d) (Ffigur 11).

Ceir rhywfaint o amrywiaeth yn y patrymau daearyddol o amddifadedd yng Nghymru ar gyfer pob un o'r elfennau amddifadedd sy'n ffurfio MALlC. (Sef incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol, a'r amgylchedd ffisegol).

4 Dylid nodi bod y data hyn yn seiliedig ar faint sampl bach ac felly dylid eu trin yn ofalus.

5 Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn ddosbarthiad ardal ddaearyddol a ddefnyddir i 'wella'r gwaith o adrodd ar ystadegau ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr' (GIG, 2021) . Mae gan bob cod post yng Nghymru a Lloegr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is cyfatebol.

## Ffigur 11: Map yn dangos MALlC cyffredinol 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019d

**Mae'r maes** incwm yn MALlC 2019 yn dangos patrwm daearyddol tebyg i un y MALlC cyffredinol (Llywodraeth Cymru, 2019d). Sir Fynwy oedd yr unig awdurdod lleol heb unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Casnewydd, Merthyr Tudful a Chaerdydd oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd a oedd yn cael eu dosbarthu fel rhai yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer incwm. Roedd yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer incwm yn y Rhyl yn Sir Ddinbych.

**Roedd amddifadedd cyflogaeth** yng Nghymru fwyaf dwys yn y cymoedd a'r dinasoedd mawr yn Ne Cymru, gyda rhai pocedi o amddifadedd cyflogaeth hefyd yn nhrefi arfordirol Gogledd Cymru. Unwaith eto Sir Fynwy oedd yr unig awdurdod lleol heb unrhyw ardaloedd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig. Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd a oedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, gyda 23.4% o'r ardaloedd yn ardal yr awdurdod lleol hwn yn cael eu dosbarthu felly. Merthyr Tudful oedd â'r gyfran ail uchaf, sef 22.2% o'r ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Roedd yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer cyflogaeth yn y Rhyl. Roedd hyn yn wir ar gyfer incwm hefyd (Ffigur 12).


Ar gyfer **iechyd**, mae patrwm daearyddol cyffredinol amddifadedd yn cyd-fynd â'r patrwm MALlC 2019 yn gyffredinol. Mae amddifadedd uchel yn ddwys yng nghymoedd a dinasoedd mawr De Cymru ac yn nhrefi arfordirol ac ar y gororau yng Ngogledd Cymru. Ar gyfer y maes iechyd, nid oedd gan dri awdurdod lleol unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig – Sir Fynwy, Ynys Môn a Cheredigion. Yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer iechyd oedd Caerau ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Llywodraeth Cymru, 2019).

Roedd dosbarthiad daearyddol **amddifadedd addysgol** yn debyg i ddosbarthiad nifer o feysydd eraill. Roedd pocedi o amddifadedd addysgol uchel yng nghymoedd De Cymru ac mewn rhai trefi arfordirol yng Ngogledd Cymru. Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd a oedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Fel gyda'r maes iechyd, nid oedd gan Sir Fynwy, Ynys Môn na Cheredigion unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Roedd yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes addysg yng Nghymuned Parc Caia yn Wrecsam (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae'n ddiddorol nodi bod gan faes **amddifadedd mynediad at wasanaethau** MALlC 2019 batrwm o ddosbarthiad daearyddol sy'n wahanol iawn i'r meysydd eraill. Roedd amddifadedd dwys o ran mynediad at wasanaethau yn gyffredin ar draws ardaloedd gwledig yng Nghymru. Yn ogystal, roedd rhai pocedi bach o amddifadedd hefyd yn agos at ardaloedd trefol, mwy. Powys a Cheredigion oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Yn wahanol i'r meysydd eraill, nid oedd gan nifer o awdurdodau lleol yn Ne Cymru unrhyw ardaloedd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig. Y rhain oedd Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd. Yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad at wasanaethau oedd Cynwyl Gaeo yn Sir Gaerfyrddin (Llywodraeth Cymru, 2019d) (Ffigur 13).


Ar gyfer y **maes tai** yn MALlC 2019, roedd clystyrau o amddifadedd uchel yng Ngorllewin Cymru, Gogledd Cymru a dinasoedd a chymoedd De Cymru. Ceredigion oedd yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ardaloedd a oedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yn y maes tai. Roedd 86.1% o'r ardaloedd ym Merthyr Tudful yn yr hanner mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru o ran tai. Nid oedd unrhyw ardaloedd yn Nhorfaen ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig. Yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer tai oedd Grangetown yng Nghaerdydd (Llywodraeth Cymru, 2019).

## Ffigur 12: Map yn dangos maes cyflogaeth MALIC 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019d

## Ffigur 13: Map yn dangos maes mynediad at wasanaethau MALIC 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019d

Ar gyfer y **maes diogelwch cymunedol,** mae patrwm daearyddol cyffredinol amddifadedd yn cyd-fynd â phatrwm cyffredinol MALlC 2019, gydag amddifadedd uchel yn ddwys yng nghymoedd a dinasoedd mawr De Cymru ac yn nhrefi arfordirol a gororau Gogledd Cymru. Sir Fynwy oedd â'r gyfran leiaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Casnewydd oedd â'r crynodiad uchaf o ardaloedd a oedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (35.8%) ar gyfer diogelwch cymunedol. Roedd gan Flaenau Gwent hefyd gyfran uchel o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, sef tua 27.7%. Yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer diogelwch cymunedol oedd Cathays yng Nghaerdydd (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae patrwm daearyddol amddifadedd ym **maes amgylchedd ffisegol** MALlC 2019 yn wahanol i bob maes arall ac i batrwm cyffredinol MALlC. Yn y maes hwn, roedd amddifadedd yn fwyaf dwys o amgylch dinasoedd mawr De-ddwyrain Cymru, gyda rhywfaint o amddifadedd uchel hefyd yng nghymoedd De Cymru. Casnewydd (43.2%) a Chaerdydd (43.0%) oedd â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Nid oedd gan bum awdurdod lleol – Blaenau Gwent, Wrecsam, Ynys Môn, Sir Benfro a Chonwy – unrhyw ardaloedd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig. Roedd yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ym maes yr amgylchedd ffisegol ym Mhenylan yng Nghaerdydd (Llywodraeth Cymru, 2019) (Ffigur 14).

## 3.14 – Cymunedau gwledig

Mae ymchwil gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru erbyn hyn) yn tynnu sylw at y ffaith bod tlodi gwledig yn aml yn dod i'r amlwg yn yr un modd â thlodi trefol, ond bod yr hyn sy'n ei achosi a'i raddfa yn aml yn wahanol. Gall tlodi mewn ardaloedd gwledig gael ei guddio gan ddiwylliannau hirsefydlog o hunanddibyniaeth yn yr ardaloedd hyn a chyfoeth cymharol cymunedau gwledig (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mae cymunedau gwledig yn wynebu rhwystrau penodol o ran mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau, sy'n ffactorau allweddol sy'n sbarduno tlodi.

Ffactorau allweddol eraill sy'n cyfrannu at dlodi gwledig yw'r diffyg mynediad at ofal plant, cysylltiadau rhyngrwyd cyfyngedig ac o ansawdd gwael, cyflogaeth ac economïau bregus, diffyg tai fforddiadwy, a mynediad gwael at gyfleoedd hyfforddi a gwaith (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016). Hefyd, mae gwaith ansicr gyda sgiliau isel a chyflog isel yn nodweddiadol o economïau gwledig yng Nghymru yn aml. Mae hyn yn sbarduno tlodi mewn gwaith mewn cymunedau gwledig ac yn arwain at weithwyr medrus yn allfudo. Gall natur ynysig ardaloedd gwledig ei gwneud yn anodd i bobl yn yr ardaloedd hyn sicrhau gwaith y tu allan i'w hardal leol gan fod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac yn aml yn ddrud – rhwystrau sylweddol i waith i'r rhai heb fynediad at gerbydau modur preifat.

Mae cymunedau gwledig hefyd yn ddarostyngedig i'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'premiwm gwledig' ar nwyddau allweddol, gan gynnwys bwyd a thanwydd. Dyma rywbeth arall sy'n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016).


## 3.15 – Tlodi parhaus

Mae tlodi parhaus hefyd yn fater allweddol yng Nghymru. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn diffinio tlodi parhaus fel rhywbeth sy'n digwydd pan fydd unigolyn wedi bod yn profi tlodi incwm cymharol am o leiaf dair allan o bedair blynedd yn olynol (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2021).

Rhwng 2015 a 2019, roedd y risg o dlodi parhaus i unigolion yng Nghymru yn 12%, yn seiliedig ar incwm a fesurwyd ar ôl didynnu costau tai (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2021). Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfradd y DU, sef 7.8% yn 2017 (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019b).

Rhwng 2015 a 2019, roedd y risg o dlodi parhaus yn uwch i blant yng Nghymru, sef 15% (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2021).

## Ffigur 14: Map yn dangos maes amgylchedd ffisegol MALlC 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019d

# 4. Sbardunau tlodi

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn tynnu sylw at sgiliau oedolion, budd-daliadau oedran gweithio, bod heb waith/cyflogaeth, ansawdd gwaith a chostau byw fel penderfynyddion allweddol tlodi oedran gweithio (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Mae sgiliau ac addysg oedolion yn rhwystr allweddol/ffactor galluogi ar gyfer mynediad i'r farchnad lafur. Gall gwelliannau mewn sgiliau oedolion helpu pobl i gael mynediad i'r farchnad lafur, cael gwaith a/neu, mewn achosion lle mae arddangos neu ddatblygu sgiliau yn gysylltiedig â chyfleoedd gwell, cynyddu eu hincwm.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi gweld gwelliannau mewn cyfraddau cyflogaeth, sgiliau oedolion a bod heb waith. Fodd bynnag, mae costau byw cynyddol – yn enwedig costau sy'n gysylltiedig â thai, gostyngiad yng ngwerth budd-daliadau oedran gweithio a gwaith o ansawdd gwael – wedi gwrthbwyso'r enillion a wnaed mewn meysydd eraill (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018) (Ffigur 15).

**Ffigur 15: Rhyngweithio rhwng sbardunau allweddol tlodi oedran gweithio yng Nghymru**




Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree, 2018

# 5. Allgáu cymdeithasol a thlodi yng Nghymru

Mae allgáu cymdeithasol yn broses gymhleth ac amlddimenswn lle mae unigolion neu grwpiau'n cael eu heithrio o gymryd rhan economaidd, gymdeithasol, wleidyddol a diwylliannol mewn cymdeithas. Mae'n cael ei gynnwys yn aml mewn diffiniadau o dlodi, gan gynnwys cysyniad y Cenhedloedd Unedig (1995) o 'dlodi cyffredinol' sy'n tynnu sylw at allgáu cymdeithasol fel rhan allweddol o fod mewn tlodi. Fel y nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, er bod tlodi ac allgáu cymdeithasol yn gysyniadau gwahanol, maent wedi'u cydgysylltu'n ddwfn.

Rydym eisoes wedi dweud bod Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) yn un sy'n cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer edrych ar 'dlodi cyffredinol' (y Cenhedloedd Unedig, 1995) (gweler Adran 2.4 a Thabl 1). Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro o amgylch tri 'maes' eang: yr **adnoddau** materol ac anfaterol sydd ar gael i unigolion, eu gallu i **gymryd rhan** mewn ystod eang o feysydd, ac **ansawdd eu bywyd** yn gyffredinol; a'r deg 'is-faes' cysylltiedig.

Mae'r adran hon yn defnyddio meysydd y fframwaith B-SEM i archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

## 5.1 – Adnoddau

### Allgáu cymdeithasol ac adnoddau: Y prif negeseuon

#### Adnoddau materol / economaidd

- Mae incwm isel yn parhau i fod yn fater allweddol yng Nghymru. Mae un o bob pedwar o bobl yng Nghymru mewn tlodi, pan ddiffinnir hyn fel byw ar lai na 60% yr incwm canolrifol.
- Yn 2019-20, roedd 13% o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn amddifadedd materol ac felly nid oeddent yn meddu ar yr holl bethau angenrheidiol ar gyfer cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.
- Mae perchentyaeth yn lleihau risg pobl o allgáu cymdeithasol a thlodi. Aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi sydd â'r gyfradd isaf o dlodi ac allgáu cymdeithasol ymhlith pob math o ddeiliadaeth yng Nghymru.
- Mae meddu ar gynilion ac asedau eraill yn cynyddu'r gallu i wrthsefyll sioc ac yn lleihau risg pobl o syrthio i allgáu cymdeithasol a thlodi.
  Yng Nghymru, nid oes gan 9% o bobl unrhyw gynilion ac mae gan 15% lai na £100 mewn cynilion.
- Mae dyled yn achosi allgáu cymdeithasol a thlodi ac mae'n gallu digwydd o ganlyniad iddynt hefyd. Amcangyfrifir bod gan 8% o oedolion yng Nghymru broblemau dyled difrifol yn 2019.

## Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat

- Gall allgáu cymdeithasol gyfyngu ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol, gan gynnwys addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a nawdd cymdeithasol, a all waethygu allgáu cymdeithasol a thlodi ei hun.

- Mae Cymru'n darparu gwasanaethau addysg ac iechyd cyffredinol am ddim, sy'n arwain at lawer yn cael mynediad atynt ac yn eu defnyddio ar y cyfan, er bod rhai grwpiau y gellid gwella mynediad iddynt. Mae anghysondeb o ran lefelau ansawdd, darpariaeth a chanlyniadau addysgol.

- Mae'r gallu i dalu am gyfleustodau yn fater allweddol i bobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Yn 2018, roedd 12% o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd.

- Rydym yn gwybod bod materion yn ymwneud â thrafnidiaeth yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol a thlodi. Yn 2019-20, nid oedd gan 13% o aelwydydd yng Nghymru fynediad at gerbyd preifat, nid oedd gan 3% o bobl unrhyw wasanaethau bws yn eu hardal leol, a dywedodd 7% nad oedd ganddynt unrhyw wasanaethau trên yn eu hardal leol.

- Mae ardaloedd mawr o gefn gwlad Cymru yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig iawn o ran mynediad at wasanaethau preifat a chyhoeddus.

- Mae cynhwysiant ariannol yn bwysig i atal allgáu cymdeithasol a thlodi. Nid oes gan tua 2% o aelwydydd yng Nghymru unrhyw fath o gyfrif banc.

## Adnoddau cymdeithasol

- Gall sefydliadu a theuluoedd yn gwahanu gyfrannu at allgáu cymdeithasol. Mae sefydliadu yng Nghymru yn gallu digwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys gofal preswyl, plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a sefydliadu mewn carchardai neu sefydliadau troseddwyr ifanc.

- Bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc wedi'u sefydliadu mewn lleoliadau Tîm Troseddau Ieuenctid, tra bod nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol wedi cynyddu'n sylweddol.

- Mae cael cymorth cymdeithasol digonol yn bwysig iawn i les meddyliol a chorfforol pobl. Yn 2019-20, teimlai 10% o bobl yng Nghymru nad oedd ganddynt ddigon o bobl i ddibynnu arnynt ac roedd 30% yn teimlo'n 'unig yn gymdeithasol'.

- Mae'r maes adnoddau yn cynnwys y tri is-faes adnoddau materol ac economaidd, mynediad at wasanaethau, ac adnoddau cymdeithasol.

## 5.1.1 – Adnoddau materol/economaidd

Er mai incwm isel efallai yw'r mesur a ddyfynnir amlaf o ddiffyg adnoddau materol ac economaidd, mae mathau eraill o ddiffyg mynediad at fynediad materol ac economaidd, sy'n ymwneud ag allgáu cymdeithasol a thlodi. Yn ogystal ag incwm, mae'r drafodaeth isod yn ymdrin â'r ffactorau hyn, sy'n cynnwys: meddu ar y pethau angenrheidiol, perchentyaeth, cynilion ac asedau eraill, a dyled.

### *Incwm*

Gan fod incwm yn ddangosydd allweddol ar gyfer adnoddau materol ac economaidd, mae tlodi'n cael ei ddisgrifio'n amlaf o ran incwm isel a diffyg adnoddau ariannol. Mae Adran 3 o'r adroddiad wedi dangos yn fanwl, os yw tlodi'n cael ei ddiffinio fel byw ar lai na 60% o incwm canolrifol, mae bron i un o bob pedwar o bobl yng Nghymru mewn tlodi. Mae incwm isel hefyd yn gysylltiedig ag allgáu cymdeithasol, fel y nodwyd yn adroddiad B-SEM, sy'n nodi bod 'aelwydydd ag incwm cymharol isel yn fwy tebygol nag eraill o gael eu hallgáu'n gymdeithasol ar bob dimensiwn ac eithrio ynysu a diffyg cymorth' (Bradshaw et al. , 2004, t. 14, yn Levitas, et al., 2007).

### *Meddu ar y pethau angenrheidiol*

Mae meddu ar y pethau angenrheidiol allweddol, neu ddiffyg hynny, yn agwedd allweddol ar dlodi ac allgáu cymdeithasol, y mae mesurau amddifadedd materol yn ceisio'i chyfleu (gyda rhai'n fwy llwyddiannus na'i gilydd).
Diffinnir amddifadedd materol fel 'a yw aelwyd yn gallu fforddio pethau fel cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn' (StatsCymru, 2019b), yn ogystal â'r trothwy incwm isel.

Cesglir data ar amddifadedd materol yng Nghymru drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn ôl arolwg 2019-20, roedd 13% o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn amddifadedd materol. Roedd y risg o fod mewn amddifadedd materol yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith pobl 25-44 oed (19%), er bod y risg hefyd yn uchel i bobl yn y grwpiau oedran 16-24 a 45-64 – 13% yr un (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Mae'r risg o amddifadedd materol yn gostwng gyda chyrhaeddiad addysgol uwch. Roedd 22% o bobl yng Nghymru â chymwysterau islaw lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn byw mewn amddifadedd materol yn 2019-20. Dim ond 8% o'r rhai â'r lefel uchaf o gymhwyster (lefelau 4-8 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol) oedd yn byw mewn amddifadedd materol yn yr un cyfnod (Llywodraeth Cymru, 2021a). Roedd amddifadedd materol yn uwch mewn ardaloedd trefol (14%) nag mewn ardaloedd gwledig (10%) yn 2019-20.

Mae'r risg o fyw mewn amddifadedd materol yng Nghymru hefyd yn amrywio yn ôl y math o ddeiliadaeth tai. Yn 2019-20, roedd 41% o aelwydydd mewn tai cymdeithasol yn byw mewn amddifadedd materol o'i gymharu â 23% o aelwydydd rhent preifat a 5% o aelwydydd mewn llety yn eiddo i berchen-feddianwyr.

Mae afiechyd ac anabledd hefyd yn gysylltiedig â risg uwch o amddifadedd materol. Yn 2019-20, roedd 21% o aelwydydd yng Nghymru â rhywun â salwch, anabledd neu wendid cyfyngus tymor hir yn byw mewn amddifadedd materol o'i gymharu â 9% o aelwydydd lle nad oedd gan unrhyw un gyflwr o'r fath. Mae data o 2018-19 yn dangos bod amddifadedd materol yng Nghymru yn uwch ymhlith menywod (15%) na dynion (12%) (Llywodraeth Cymru, 2020f).

Mae bwyd yn angenrheidiol ac yn adnodd materol. Tlodi bwyd neu ansicrwydd bwyd yw 'yr anallu i fforddio neu gael gafael ar fwydydd sy'n cyfrannu at ddeiet iach sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol' (Cynghrair Tlodi Bwyd Cymru, 2017)[6]. Yn ôl arolwg yr Asiantaeth Safonau Bwyd, roedd gan 74% o aelwydydd yng Nghymru gyflenwad bwyd diogel iawn, roedd gan 17% rywfaint o gyflenwad bwyd ac roedd 9% yn byw ar aelwydydd sicrwydd isel neu isel iawn o ran cyflenwad bwyd yn 2017 (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2017). O'r rhai yn y cwintel incwm isaf, mae 28% yn byw ar aelwydydd sy'n ansicr o ran bwyd, o'i gymharu â dim ond 6% yn y cwintel incwm uchaf. Mae statws gwaith hefyd yn effeithio ar fynediad at gyflenwad bwyd. Canfu arolwg yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod 34% o bobl â 'statws gwaith arall', sy'n cynnwys pobl economaidd anweithgar (er enghraifft, gofalwyr neu fyfyrwyr llawn amser), yn poeni am redeg allan o fwyd, o'i gymharu ag 20% o bobl mewn gwaith a dim ond 6% o'r ymatebwyr sydd wedi ymddeol (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, 2017).

Mae'r risg o fyw mewn ansicrwydd bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau a ddiffinnir yn ôl oedran a rhywedd. Dim ond 5% o ddynion sy'n byw ar aelwydydd sy'n ansicr o ran bwyd o'i gymharu â 13% o fenywod. Mae mynediad at gyflenwad bwyd hefyd yn amrywio yn ôl oedran. O'r rhai 16-24 oed, mae tua 10% yn byw ar aelwydydd sy'n ansicr o ran bwyd, o'i gymharu â 18% o'r rhai 25-34 oed, a dim ond 2-3% o'r rhai dros 65 oed (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, 2017).

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 fod 3% o aelwydydd yng Nghymru wedi defnyddio banc bwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gynnydd o ddau bwynt canran o 2016-17 (Ystadegau Cymru, 2019b)[7]. Canfu'r arolwg hefyd fod 9% o oedolion yng Nghymru, yn 2018-19, wedi colli pryd sylweddol o fwyd yn y pythefnos blaenorol oherwydd diffyg adnoddau ariannol.

## *Perchentyaeth*

Mae'r B-SEM hefyd yn tynnu sylw at berchentyaeth fel adnodd materol ac economaidd pwysig, sy'n effeithio ar risg pobl o allgáu cymdeithasol. Trafodir amrywiadau mewn cyfraddau tlodi rhwng perchnogion tai a thenantiaid preifat a chymdeithasol yn yr adran Tlodi yng Nghymru uchod.

Yn 2019-20, perchnogion tai oedd â'r gyfradd isaf o amddifadedd materol, sef 5%. Roedd cyfradd amddifadedd materol ymhlith aelwydydd rhent cymdeithasol yn 41%. Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyfradd aelwydydd rhent preifat, sef 23%.

6 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn mesur tlodi bwyd neu ansicrwydd bwyd drwy ofyn cyfres o gwestiynau am anghenion bwyd a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â diwallu'r anghenion hyn. Rhoddir sgôr i'r ymatebion a roddir i'r cwestiynau hyn ac mae aelwydydd wedyn yn cael eu categoreiddio'n un o bedwar categori yn seiliedig ar eu hymatebion.

Dyma'r categorïau (Asiantaeth Safonau Bwyd, 2017):

1. Cyflenwad bwyd diogel iawn: Aelwydydd heb unrhyw broblemau na phryderon ynghylch cael gafael ar fwyd.

2. Cyflenwad bwyd ffiniol: Aelwydydd sydd weithiau'n cael problemau neu'n pryderu ynghylch cael gafael ar fwydydd ond nad ydynt yn profi gostyngiadau sylweddol yn ansawdd, amrywiaeth na faint o fwydydd maent yn eu cael.

3. Cyflenwad bwyd anniogel: Aelwydydd sydd wedi lleihau ansawdd, amrywiaeth a pha mor ddymunol yw eu deiet ond nad ydynt yn profi gostyngiad sylweddol yn faint o fwyd maent yn ei gael ac nad oes effaith sylweddol ar eu patrymau bwyta.

4. Cyflenwad bwyd anniogel iawn: Aelwydydd lle ceir tarfu ar batrymau bwyta o leiaf un aelod o'r aelwyd a bod llai o fwyd yn cael ei fwyta yn ystod y flwyddyn am nad oedd gan yr aelwyd ddigon o adnoddau i gael bwyd.

7 Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y gellir priodoli'r cynnydd hwn i newid yn y cwestiwn a ofynnwyd. Ni ddarparwyd manylion am y newid hwn.

## *Cynilion ac asedau eraill*

Gall mathau eraill o asedau materol ac economaidd, fel cynilion, effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi a/neu'r rhai sydd mewn perygl o dlodi a gallant hwythau effeithio arnynt hwy. Yn ôl arolwg o 2,000 o ddefnyddwyr yn 2019, roedd cyfanswm cyfartalog y cynilion yng Nghymru tua £9,600 (raisin., 2020). Canfu'r un arolwg nad oes gan 9% o bobl yng Nghymru unrhyw gynilion, mae gan 15% lai na £100 mewn cynilion ac mae gan 28% lai na £1,000 mewn cynilion (raisin., 2020). Ar lefel y DU, canfu'r Arolwg Adnoddau Teulu ar gyfer 2018/19 fod gan 11% o aelwydydd lai na £1,500 mewn cynilion (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2020a). Mae cael hyd yn oed ychydig o arbedion yn cynyddu gallu pobl i ddelio â sioc economaidd a digwyddiadau annisgwyl mewn bywyd, ac felly'n lleihau'r risg o syrthio i dlodi (Pande, et al., 2012). Fodd bynnag, gall cynilo arian fod yn anodd iawn i'r rhai sydd ar incwm isel. Mae hyn yn gwneud pobl sydd eisoes mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi, yn enwedig o agored i gynlluniau benthyca cost uchel, benthycwyr arian didrwydded a gwasanaethau ariannol drud eraill a all eu rhoi mewn perygl pellach o dlodi yn y dyfodol, oherwydd telerau ad-dalu a chyfraddau llog uchel (Llywodraeth Cymru, 2016).


Gall cael digon o gynilion i dalu am rwymedigaethau ariannol ac anghenion materol eraill yn wyneb costau annisgwyl a/neu ostyngiadau mewn incwm helpu i atal pobl rhag syrthio i dlodi. Mae data o Arolwg Cyfoeth ac Asedau 2016-18 yn dangos mai dim ond 56% o'r rhai yn y cwintel incwm cyflogaeth isaf yng Nghymru oedd â digon o asedau ariannol ffurfiol yn y cyfnod hwn i ymdopi â gostyngiad o 20% mewn incwm cyflogaeth yr aelwyd am gyfnod o dri mis (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b). Roedd hyn yn gostwng i 35% o'r rhai yn y cwintel incwm isaf am ostyngiad o 80% am dri mis mewn incwm ac i 31% am golli 100% o incwm am yr un cyfnod.

Aelwydydd yn y cwintel incwm cyflogaeth uchaf oedd fwyaf tebygol o fod â digon o asedau ariannol ffurfiol i ymdopi â gostyngiad mewn incwm. Roedd gan 81% o'r aelwydydd hyn ddigon o asedau i ymdopi â gostyngiad o 20% am dri mis. Roedd gan 75% ddigon o asedau i allu rheoli gostyngiad o 80% mewn incwm cyflogaeth a byddai 72% yn gallu ymdopi a gostyngiad o 100% mewn incwm cyflogaeth (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b) (Ffigur 16). (Dylid nodi mai dim ond ar gyfer aelwydydd lle mae'r pen teulu yn gweithio y mae'r data hyn yn berthnasol ac felly nid yw'n cynrychioli cydnerthedd ariannol aelwydydd di-waith.)

Gall ffactorau ariannol eraill hefyd fod yn sbardunau a/neu fod yn ganlyniadau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn ogystal â diffyg cynilion, mae Sefydliad Joseph Rowntree yn tynnu sylw at y diffyg pensiynau digonol fel sbardun posibl i dlodi yng Nghymru yn y dyfodol. Yn 2018 dim ond 58% o oedolion oedran gweithio cyflogedig yng Nghymru oedd yn cymryd rhan weithredol mewn cynllun pensiwn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol yn y gyfradd hon rhwng y cwintel tlotaf yng Nghymru. Dim ond 26% ohonynt oedd yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn o'i gymharu â 72% o'r rhai yn y cwintel cyfoethocaf (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno cofrestru awtomatig[8] yn llwyr ym mis Chwefror 2018, dylai fod gan bob gweithiwr yng Nghymru bensiwn (Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau, 2020).

8 'Mae cofrestru awtomatig yn ei gwneud yn orfodol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr cymwys yn awtomatig ar gynllun pensiwn. Rhaid i'r cyflogwr hefyd dalu arian i'r cynllun.' (Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau, 2020)

**Ffigur 16: Cyfran yr aelwydydd sy'n gallu ymdopi â lefelau penodol o incwm yn gostwng yn ôl cwintel, 2016-18**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b

### *Dyled*

Mae dyled yn ganlyniad allweddol i dlodi a gall hefyd atal pobl rhag dianc rhag tlodi ac allgáu cymdeithasol. Wrth drafod tlodi a dyled, ystyrir dyled yn aml fel 'dyled broblemus'. Mae dyled broblemus yn digwydd pan 'nad yw aelwydydd yn gallu talu taliadau cytundebol ar gredyd defnyddwyr neu filiau'r cartref (gan gynnwys costau tai)' (Hartfree a Collard, 2014, t. 5). Yn 2019, roedd yr elusen ddyled Step Change yn amcangyfrif bod gan 8% o oedolion yng Nghymru (tua 193,000 o bobl) broblemau dyled difrifol. Canfu'r un adroddiad fod 412,000 o bobl ychwanegol yng Nghymru mewn trallod ariannol (Step Change, 2019). Y math mwyaf cyffredin o ddyled ymhlith aelwydydd incwm isel yw ôl-ddyledion mewn biliau cartref, gan gynnwys y dreth gyngor a biliau cyfleustodau.

Mae nifer o nodweddion aelwydydd yn gysylltiedig â risg uwch o ddyled broblemus (Hartfree a Collard, 2014). Mae'r rhain yn cynnwys:

- byw mewn llety rhent;
- bod allan o waith (am amryw o resymau);
- bod mewn gwaith â chyflog isel neu ran-amser;
- bod o dan 30 oed;
- plant dibynnol;
- dim llawer o gynilion; a
- phroblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl.


Gostyngiad mewn incwm, yn hytrach nag incwm isel yn unig, yw prif achos dyled broblemus yn aml. Dangoswyd mai gostwng incwm o ganlyniad i ddileu swyddi, lleihau oriau gwaith, perthynas yn chwalu neu orfod rhoi'r gorau i weithio yw'r prif bethau sy'n achosi trafferthion ariannol mewn bron i hanner yr achosion (Hartfree a Collard, 2014). Fodd bynnag, canfuwyd mai incwm isel yn unig yw prif achos pobl sy'n profi trafferthion ariannol, mewn tua 15% o achosion ar gyfartaledd (Hartfree a Collard, 2014).

## 5.1.2 – Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat

Nid yw allgáu cymdeithasol wedi'i gyfyngu i ystyried adnoddau materol ac economaidd yn unig. Mae methu â chael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau yn ganlyniad i allgáu cymdeithasol ac yn ei achosi hefyd. Mae gallu cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn caniatáu i bobl gael mynediad at fathau eraill o adnoddau gan gynnwys addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a nawdd cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau preifat amrywiol. Gall allgáu cymdeithasol gyfyngu ar allu pobl i gael mynediad at y gwasanaethau hyn, a gall hynny yn ei dro waethygu tlodi ac allgáu. Y gwasanaethau allweddol a drafodir yn yr adran hon yw nawdd cymdeithasol, addysg, iechyd, cyfleustodau, trafnidiaeth a gwasanaethau ariannol. Rhoddir sylw manwl i dlodi tanwydd, mynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau gofal plant mewn mannau eraill yn adran 5.1.2 ac yn adran 5.2.1.

Mae maes 'mynediad at wasanaethau' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn cyfleu gallu aelwydydd i gael mynediad at wasanaethau allweddol – rhai cyhoeddus a phreifat. Mae'n asesu hygyrchedd o ran amser teithio cyfartalog i naw math o wasanaeth (siop fwyd, fferyllfa, swyddfa bost, gorsaf betrol, meddygfa, cyfleuster chwaraeon, llyfrgell gyhoeddus, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd) yn ogystal â mynediad at fand eang (Ffigur 17). Yn 2019, roedd MALlC yn dosbarthu ardaloedd mawr o gefn gwlad Cymru fel rhai difreintiedig iawn o ran mynediad at wasanaethau. Roedd rhai ardaloedd ag amddifadedd uchel ger ardaloedd trefol mawr hefyd.

## Ffigur 17: Map yn dangos safleoedd MALIC yn y 'maes mynediad at wasanaethau', 2019



yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is

| Safle | Uchaf | |
|---|---|---|
| 1 - 191 | | 10% mwyaf difreintiedig |
| 192 - 382 | | 10-20% mwyaf difreintiedig |
| 383 - 573 | | 20-30% mwyaf difreintiedig |
| 574 - 955 | | 30-50% mwyaf difreintiedig |
| 956 - 1909 | | 50% lleiaf difreintiedig |
| | Isaf | |

Ffin yr Awdurdod Lleol

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2019d

## *Nawdd cymdeithasol*

Mae nawdd cymdeithasol yn wasanaeth cyhoeddus sy'n benderfynydd allweddol o ran adnoddau materol ac economaidd i lawer o'r bobl dlotaf mewn cymdeithas. Tynnodd Sefydliad Joseph Rowntree sylw at y ffaith fod diffyg nawdd cymdeithasol yn sbardun allweddol i dlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Ychydig o bŵer sydd gan Lywodraeth Cymru dros nawdd cymdeithasol gan mae Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu nifer fach o grantiau a lwfansau sy'n cyfateb i tua £400 miliwn y flwyddyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae'r cynlluniau datganoledig hyn yn cynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), darparu Prydau Ysgol am Ddim (FSM) a'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF).

Cyn pandemig y Coronafeirws, roedd mwy na dau o bob deg o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm. Roedd 45% o'r rhai a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn byw mewn tlodi. Mae hyn 30 pwynt canran yn uwch na'r rhai nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae hyn yn awgrymu nad yw nawdd cymdeithasol yn darparu digon o gymorth ariannol i gadw pobl allan o dlodi na'u codi allan ohono. Mae dau brif reswm am hyn.

Yn gyntaf, cafodd gwir werth budd-daliadau oedran gweithio ei ostwng yn sylweddol ledled y DU yn ystod y llywodraeth Glymblaid ar ddechrau'r 2010au a'r llywodraeth Geidwadol o 2015 ymlaen. Roedd newidiadau a wnaed i fudd-daliadau oedran gweithio gan lywodraeth y DU yn lleihau'r hawl i fudd-daliadau a chredyd treth i deuluoedd o oedran gweithio, a oedd yn atal incwm i'r rhai a oedd yn derbyn budd-daliadau (y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2019).

Canfu dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod pedwar newid a wnaed gan Lywodraeth y DU, yng Nghymru a Lloegr, wedi cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd ar yr incwm isaf: toriadau i lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol, dileu'r 'dreth ystafell wely' ar gyfer y cymhorthdal ystafell sbâr, y terfyn dau blentyn ar Fudd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol, a'r rhewi uwchraddio taliadau trosglwyddo.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dadlau y gall y gostyngiad mewn budd-daliadau oedran gweithio ers 2010/11 gyfrif am bron pob un o'r cynnydd mewn tlodi cymharol mewn gwaith yn ystod y deng mlynedd diwethaf (cyn pandemig y Coronafeirws). Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw'r gostyngiad mewn budd-daliadau oedran gweithio yn gyffredinol wedi arwain at gynnydd mewn tlodi absoliwt mewn gwaith oherwydd y cynnydd cydamserol yn y lwfans personol (y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, 2019). Er hynny, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi'r gostyngiad mewn budd-daliadau oedran gweithio fel sbardun allweddol yn y cynnydd mewn tlodi cymharol yn ystod y degawd diwethaf (y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, 2019).

Dyled yw'r ail ffactor. Gall dyled fod yn rhwystr i bobl sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau nawdd cymdeithasol ac yn ei dro, arwain at fwy o allgáu cymdeithasol. Mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at ddyled i gyrff cyhoeddus fel rhwystr allweddol i bobl sy'n cael gafael ar y cymorth nawdd cymdeithasol sydd ei angen arnynt (Sefydliad Bevan, 2020b). Gall cyrff cyhoeddus godi ffioedd am ddarparu gwasanaethau gan gynnwys y dreth gyngor, rhent a phrydau ysgol. Gall bod yn ddyledus i'r gwasanaethau hyn, er enghraifft drwy fod ag ôl-ddyledion ar daliadau'r dreth gyngor, atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau eraill, a all, yn eu tro, waethygu allgáu cymdeithasol. Mae angen talu neu dalu ymlaen llaw am nifer cynyddol o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy ddebyd uniongyrchol. Gall hyn greu a gwaethygu anawsterau ariannol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi neu'r rhai sy'n agos at fyw mewn tlodi (Sefydliad Bevan, 2020b).

## Addysg

Mae addysg yn wasanaeth cyhoeddus allweddol sy'n dylanwadu'n sylweddol ar botensial pobl i ennill cyflog. Felly, mae diffyg mynediad i addysg o ansawdd da yn peri risgiau o ran tlodi ac allgáu cymdeithasol. Er bod addysg orfodol yng Nghymru yn rhad ac am ddim pan ddefnyddir y gwasanaeth hwn, mae llawer o rwystrau i fynediad addysg i'r rhai sy'n profi allgáu cymdeithasol, ar wahân i (ac yn cynnwys) cost. Mae'r rhain yn cynnwys: pellter i'r ysgol a diffyg opsiynau trafnidiaeth addas (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig); rhwystrau corfforol a sefydliadol i ddysgwyr anabl; ansawdd gwael amgylchedd ac addysgu'r ysgol; rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr; a diffyg adnoddau i gefnogi dysgu gartref (e.e. diffyg offer TG i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith cartref, a oedd yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod clo). Gall ffactorau ariannol eraill, fel cost offer, trafnidiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion hefyd fod yn rhwystrau i fynediad llawn i addysg. Gall yr holl ffactorau hyn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol (a drafodir yn fanylach yn adran 5.2.3) y gellir eu cysylltu â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn ddiweddarach mewn bywyd.

Archwilir rhwystrau eraill i gael mynediad i addysg yn adran 5.2.3 ar gymryd rhan mewn addysg.

## Gofal Iechyd

Mae gofal iechyd yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol arall a all ddylanwadu ar allu pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas. Gall iechyd gwael – corfforol a meddyliol – fod yn ffactor sy'n cyfrannu at allgáu cymdeithasol a thlodi. Gall iechyd gwael fod yn rhwystr i gael gwaith, ac i gael gafael ar wasanaethau ac ymgysylltu â chymdeithas, a all arwain at dlodi ac allgáu.

Yn ogystal â hyn, mae pobl sy'n byw mewn tlodi ac sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau eraill, a all arwain at ganlyniadau iechyd gwael.

Mae gofal iechyd yng Nghymru ar gael fel gwasanaeth am ddim pan ddefnyddir y gwasanaeth hwnnw, o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), er nad yw hyn o reidrwydd yn sicrhau mynediad hawdd ym mhob achos. Gall pobl sydd â digon o adnoddau dalu am ofal iechyd preifat y tu allan i system y GIG.

Nod GIG Cymru yw bod 95% o gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu neu ymarferwyr meddygol eraill yn dechrau eu triniaeth o fewn 26 wythnos i gael eu hatgyfeirio. Mae GIG Cymru hefyd yn anelu at sicrhau bod pob claf nad yw'n gallu cael gofal o fewn 26 wythnos (e.e. triniaethau cymhleth, cleifion sydd wedi penderfynu aros am driniaeth) yn cael triniaeth ddiffiniol[9] o fewn 36 wythnos (GIG 111 Cymru, 2020). Yn 2019, cafodd 1,412,040 o atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau diagnostig ysbytai Cymru. O'r rhain roedd 90.5% (1,277,413) yn aros am lai nag 8 wythnos, ac felly'n bodloni targed y GIG. Dim ond 0.8% (10,797) o atgyfeiriadau oedd yn gorfod aros am dros 24 wythnos (StatsCymru, 2021f). Nid oes data ar gael ar gyfer yr amserlen 26 wythnos a nodir gan GIG Cymru. Er mai dim ond cyfran fach o achosion oedd yn gorfod aros dros 24 wythnos, mae hyn yn cyfateb i dros 10,000 o bobl. Mae amseroedd aros mor hir yn debygol o arwain at anfodlonrwydd cleifion a gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig ynghylch gwasanaethau gofal iechyd. Yn 2019, ar gyfartaledd treuliodd 97.3% o gleifion a oedd yn dod i gyfleusterau gofal brys yng Nghymru lai na'r amser targed o bedair awr mewn adran frys (StatsCymru, 2021g).

9 'Triniaeth Ddiffiniol Gyntaf yw'r ymyriad clinigol cyntaf a fwriedir i reoli clefyd, cyflwr neu anaf claf ac osgoi ymyriadau clinigol pellach. Mae'r hyn sy'n gyfystyr â Thriniaeth Ddiffiniol Gyntaf yn fater o farn glinigol mewn ymgynghoriad ag eraill, lle bo'n briodol, gan gynnwys y claf. (GIG, 2021)

Un rhwystr allweddol i fynediad at wasanaethau iechyd yw lleoliad pobl o'i gymharu â'r gwasanaeth iechyd agosaf, ynghyd â'u dewisiadau o ran trafnidiaeth. Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i ymatebwyr pa mor hawdd neu anodd oedd hi iddynt deithio i'w meddygfa rhwng 2012 a 2015. Dros y tair blynedd, roedd 64-68% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn 'hawdd iawn' cyrraedd eu meddygfa; roedd 26-28% yn ei chael yn 'hawdd', roedd 4-6% yn ei chael yn 'weddol anodd' a 2% yn ei chael yn 'anodd iawn' (Llywodraeth Cymru, 2021a). Nid oes dadansoddiad ar gael ar gyfer cwintel incwm na statws amddifadedd yn y data hwn. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn holi pobl am eu barn gyffredinol am wasanaethau iechyd yng Nghymru, gyda sgôr o un i ddeg, a deg yw'r mwyaf cadarnhaol. Mae dadansoddiad o'r data hyn ar gael, gyda dadansoddiad yn ôl statws amddifadedd. Fodd bynnag, nid oes fawr o wahaniaeth yn y sgôr rhwng cwintelau MALIC, sy'n awgrymu bod pobl fwy difreintiedig yn tueddu i fod mor fodlon â gwasanaethau iechyd â phobl lai difreintiedig. Ar draws pob cwintel a phob blwyddyn y gofynnwyd y cwestiwn hwn ar ei gyfer rhwng 2012 a 2019, roedd y sgorau'n gyson rhwng 6.2 a 6.4 (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn casglu gwybodaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol. Rhwng 2014 a 2019, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn eu hardal, a chafodd ymatebion eu dadansoddi yn ôl y cwintel amddifadedd. Yn yr arolwg diweddaraf lle gofynnwyd y cwestiwn hwn (2018-19), y pumed mwyaf difreintiedig o ymatebwyr oedd fwyaf tebygol o 'gytuno'n gryf' (22%) bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da yn eu hardal.

Ymdrinnir â materion eraill sy'n ymwneud ag iechyd yn yr is-feysydd iechyd yn yr adran ansawdd bywyd isod.

## *Cyfleustodau*

Mae'r gallu i dalu biliau cyfleustodau yn fater allweddol i lawer o bobl sy'n byw mewn tlodi ac i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio aelwyd fel un sydd mewn tlodi tanwydd os ydynt yn gwario 10% neu fwy o incwm eu haelwydydd ar gostau ynni. Mae tlodi tanwydd yn cael ei ystyried yn ddifrifol os yw gwariant ar ynni'r cartref yn 20% neu fwy o incwm yr aelwyd (Llywodraeth Cymru, 2019c). Yn 2018, roedd 155,000 (12%) o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 15% o aelwydydd yn Lloegr yn yr un flwyddyn[10]. Roedd 50% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2018 yn aelwydydd un person heb blant (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Mae'r risg o dlodi tanwydd yn amrywio yn ôl y math o ddeiliadaeth, nodweddion eiddo, oedran eiddo, inswleiddio, gwres canolog, ac effeithlonrwydd ynni (Llywodraeth Cymru, 2019c):

- Roedd tlodi tanwydd yn 2018 ar ei waethaf yn y sector rhentu preifat, lle'r oedd 20% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd.
- Mae tlodi tanwydd yn uwch ymhlith aelwydydd sy'n byw mewn eiddo hŷn. Yn 2018, roedd 20% o aelwydydd a oedd yn byw mewn eiddo a adeiladwyd cyn 1919 yn byw mewn tlodi tanwydd.
- Yn 2018, roedd gan dai â waliau heb eu hinswleiddio gyfraddau tlodi tanwydd o 21% ac roedd gan dai heb wres canolog gyfraddau tlodi tanwydd o 39%.

10 Mae'n bwysig nodi bod tlodi tanwydd yn Lloegr yn cael ei fesur gan ddefnyddio metrig incwm gweddilliol, sy'n wahanol i'r mesur a ddefnyddir yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion am fetrigau incwm gweddilliol yn y troednodyn isod.

Mae nifer o randdeiliaid wedi nodi bod y diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn broblem. Nid yw'r diffiniad presennol yn eithrio pobl *nad ydynt* fel arall yn byw mewn tlodi sy'n dewis gwario mwy na 10% o'u hincwm ar wresogi cartrefi aneffeithlon sy'n rhy fawr (er enghraifft, pobl ar incwm uchel sy'n dewis byw mewn cartrefi mawr sy'n defnyddio 10% o'u hincwm ar wresogi ond sy'n gallu fforddio'r gost hon). Mae rhai wedi dadlau y byddai model incwm gweddilliol [11], fel yr un a ddefnyddir yn yr Alban a Lloegr, yn fesur gwell o dlodi tanwydd yng Nghymru (Sefydliad Bevan, 2020e).

## *Mynediad i'r rhyngrwyd*

Gall mynediad i'r rhyngrwyd roi amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gael mynediad at wasanaethau, addysg, cyflogaeth a gwneud cysylltiadau cymdeithasol. Gall diffyg mynediad i'r rhyngrwyd neu wasanaethau digidol addas fod yn symptom o dlodi ac allgáu cymdeithasol, a gall waethygu hyn. Nid oes gan tua 13% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd. Yn 2018-19, cyfran yr aelwydydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (fel y'u mesurwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[12]) gyda mynediad i'r rhyngrwyd oedd 83% (Ystadegau Cymru, 2019a).

Roedd mynediad i'r rhyngrwyd yng Nghymru hefyd yn amrywio yn ôl math o dai. Roedd gan dri chwarter (75%) yr aelwydydd sy'n byw mewn tai cymdeithasol fynediad i'r rhyngrwyd, o'i gymharu â 90% mewn tai rhent preifat ac 89% sy'n eiddo i berchen-feddianwyr (Ystadegau Cymru, 2019a). Roedd lefelau mynediad i'r rhyngrwyd hefyd yn is ymhlith pobl a oedd yn economaidd anweithgar (78%) ac yn ddi-waith (84%), o'i gymharu â'r 96% o bobl gyflogedig a oedd â mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref (Ystadegau Cymru, 2019a).

## *Trafnidiaeth*

Rydym yn gwybod bod diffyg mynediad at drafnidiaeth am resymau logistaidd neu oherwydd costau gormodol yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol a thlodi, gan achosi ynysu cymdeithasol, cyfyngu ar gyfleoedd gwaith, a bod fel rhwystr i ddefnyddio gwasanaethau (Gates, et al., 2019). Canfu adolygiad gan Campaign for Better Transport fod problemau trafnidiaeth yn cyfrannu at dlodi ac allgáu cymdeithasol mewn nifer o ffyrdd. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y cyfuniad o drafnidiaeth wael a chynllunio defnydd tir sy'n ffafrio trafnidiaeth breifat mewn ceir, yn ffactor penodol sy'n cyfrannu. (Campaign for Better Transport, 2012). Yn 2019-20, nid oedd gan 13% o aelwydydd yng Nghymru fynediad at gar neu fan, ac felly roeddent yn dibynnu ar fathau eraill o drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n gyfyngedig mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ardaloedd gwledig. Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20, dywedodd 3% o bobl nad oedd unrhyw wasanaethau bws yn eu hardal leol a dywedodd 7% nad oedd unrhyw wasanaethau trên yn eu hardal leol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

11 O dan fodel incwm gweddilliol Costau Uchel Incwm Isel Lloegr (LIHC), ystyrir bod aelwydydd mewn tlodi tanwydd os yw eu costau tanwydd yn uwch na'r cyfartaledd ac os yw'r 'incwm gweddilliol' sydd ganddynt ar ôl talu am danwydd yn eu gosod islaw llinell dlodi a ddiffiniwyd yn swyddogol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 2020). Ar gyfer yr ystadegau diweddaraf (2019) mae Lloegr wedi cyflwyno mesur newydd Effeithlonrwydd Ynni Isel Incwm Isel (LILEE), sy'n ddull incwm gweddilliol arall. Mae LILEE yn diffinio aelwyd fel un sydd mewn tlodi tanwydd os oes yw'r incwm gweddilliol islaw'r llinell dlodi a bod y preswylwyr hefyd yn byw mewn cartref sydd â sgôr effeithlonrwydd ynni is na Band C (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 2021).

12 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn fesur o dlodi amlddimensiwn sy'n benodol i Gymru (StatsCymru, 2020). Mae MALlC yn mesur lefel gymharol yr amddifadedd mewn ardaloedd bach o Gymru drwy archwilio dwyster mathau gwahanol o amddifadedd ym mhob ardal. Caiff MALlC ei ddiweddaru bob pedair i bum mlynedd a chyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf yn 2019 (StatsCymru, 2020).

## *Mynediad at wasanaethau ariannol*

Mae'r gallu i gael mynediad at wasanaethau ariannol yn bwysig o ran atal allgáu cymdeithasol a thlodi. Mae mynediad at wasanaethau ariannol hefyd yn cael ei alw'n gynhwysiant ariannol. Mae mynediad at wasanaethau ariannol yn cynnwys cyfrifon banc, cyfrifon cynilo, benthyciadau a morgeisi, sy'n gallu darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd-gymdeithasol i bobl a allai fod yn profi neu sydd mewn perygl o dlodi ac allgáu cymdeithasol (Omar ac Inaba, 2020). Yn y flwyddyn ariannol 2018-19, roedd gan 98% o aelwydydd yng Nghymru ryw fath o gyfrif cynilo neu fuddsoddi. O'r rhain, roedd gan 95% gyfrif cyfredol ac roedd gan 33% gyfrif cynilo unigol (ISA), yn unol â chyfartaledd y DU (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2020a). Fodd bynnag, mae'r 2% o aelwydydd heb unrhyw fath o gyfrif banc yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cymryd rhan a mynediad at adnoddau. Mae effeithiau hyn yn arwain at eithrio, yn enwedig wrth ystyried y duedd tuag at economi ddi-arian (Lupo-Pasini, 2020).

## 5.1.3 – Adnoddau cymdeithasol

## *Sefydliadau / gwahanu oddi wrth y teulu*


Gall sefydliadu a gwahanu oddi wrth y teulu gyfyngu ar allu unigolyn i gael gafael ar gymorth cymdeithasol gan ei deulu a'i rwydweithiau cymdeithasol. Gall hyn waethygu ynysu cymdeithasol a bod yn niweidiol i lesiant (Levitas et al 2007; Sonuga-Barke, 2020). Gall sefydliadu a gwahanu oddi wrth y teulu ddigwydd am amrywiaeth o resymau a digwydd ar sawl ffurf. Mae'r rhain yn cynnwys: gofal preswyl, plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a sefydliadu mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc. Mae'n bwysig nodi, er y gellir gwahanu plant (ac oedolion) oddi wrth eu teuluoedd am resymau angenrheidiol a chyfiawn, ac nad oes rhaid i sefydliadu olygu diwedd cyswllt cymdeithasol â ffrindiau a theulu, ac na ddylai olygu hynny, mae'n digwydd yn aml.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa ieuenctid (mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant) sydd o dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol ers 2015-16. Yn 2015-16, 43 o blant oedd poblogaeth gyfartalog ieuenctid diogel Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, gydag uchafswm o 54 ym mis Tachwedd 2015 – y nifer uchaf a gofnodwyd yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae poblogaeth gyfartalog yr ieuenctid diogel yng Nghymru wedi gostwng yn weddol gyson, gan gyrraedd lefel isel o 19 (ar gyfartaledd) yn 2020-21 (Llywodraeth y DU, 2021b). Mae poblogaeth yr ieuenctid diogel yn cynnwys pobl ifanc mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, a chartrefi diogel i blant.


Mae plentyn sy'n derbyn gofal yn unigolyn o dan 18 oed sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol am dros 24 awr (NSPCC, 2020). Gall trefniadau byw plant sy'n derbyn gofal fod yn amrywiol iawn, ond mae'r rhan fwyaf naill ai'n byw gyda rhieni maeth, yn byw mewn cartref i blant neu'n byw mewn lleoliad preswyl arall (er enghraifft, mewn ysgol breswyl neu uned ddiogel) (NSPCC, 2020). Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Yn 2003 roedd 4,195 o blant yng ngofal awdurdodau lleol; cynyddodd y nifer i dros 7,000 yn 2020 (StatsCymru, 2021a).

## Ffigur 18: Y boblogaeth ddiogel ar gyfartaledd yn ardal Tîm Troseddau Ieuenctid Cymru, 2015-2021




Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, 2021b

## Ffigur 19: Nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru 2003-2020




Ffynhonnell: StatsCymru, 2021a

Roedd dros 125,000 o oedolion dros 18 oed yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn 2018-19 (StatsCymru, 2020j). Roedd tua 24,000 o'r rhain mewn rhyw fath o ofal preswyl [13]. Rydym yn gwybod bod oedolion mewn gofal preswyl yn profi allgáu cymdeithasol drwy gael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu, diffyg cyfleoedd i feithrin perthnasoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, a'r diffyg rheolaeth dros eu gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'w lleoliad gofal preswyl (SCIE, 2012).

Roedd y gyfran uchaf o'r oedolion hyn mewn cartrefi gofal i oedolion heb ofal nyrsio, gyda 12,406 o oedolion yng Nghymru yn byw yn y cyfleusterau hyn yn 2018-19 (StatsCymru, 2020j). Mae hyn yn fwy na dwbl y nifer mewn cartrefi gofal i oedolion sydd â gofal nyrsio, sef y grŵp mwyaf nesaf. Lleoliadau oedolion – lle darperir llety i hyd at dri o oedolion drwy gytundeb cynllun lleoli oedolion – oedd y gyfran leiaf o ofal preswyl i oedolion, gyda dim ond 536 o oedolion mewn lleoliadau o'r fath yn 2018-19 (StatsCymru, 2020j) (Ffigur 20).

Mae Ffigur 21 yn dangos nifer y bobl ym mhob grŵp oedran ym mhob math o ofal preswyl yng Nghymru yn 2018-19. Y grŵp oedran gyda'r nifer fwyaf o bobl mewn gofal preswyl yng Nghymru yn 2018-19 oedd y rhai dros 85 oed, gyda 10,168. Mae hyn bron yn ddwbl nifer y bobl 75–84 oed mewn gofal preswyl, sef y grŵp mwyaf nesaf (StatsCymru, 2020j).

Er mai'r grŵp oedran 85+ sydd â'r boblogaeth fwyaf mewn gofal preswyl, nid dyma'r boblogaeth fwyaf ym mhob math o ofal preswyl. Y grŵp oedran 25–64 oed sydd â'r boblogaeth fwyaf mewn llety â chymorth a lleoliadau oedolion (Ffigur 21).

## *Cefnogaeth gymdeithasol ac unigrwydd*


Mae cael digon o gefnogaeth gymdeithasol yn eithriadol o bwysig i les meddyliol a chorfforol pobl, sydd yn ei dro yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol a thlodi. Gall cymorth cymdeithasol wella gwytnwch pobl pan fyddant yn wynebu straen, digwyddiadau annisgwyl mewn bywyd a gwendidau eraill (Ozbay, et al., 2007).

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn 2019-20 roedd 10% o bobl yn teimlo nad oedd ganddynt 'ddigon o bobl i ddibynnu arnynt' ac ymatebodd 21% arall o bobl fod ganddynt ddigon o bobl 'fwy neu lai' i ddibynnu arnynt. Mae profiadau o unigrwydd yn fwy cyffredin. Yn 2019-20, dywedodd 30% o bobl a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn teimlo'n 'unig yn gymdeithasol'. Nid yw'r lefel hon wedi newid llawer ers 2017-18, pan oedd y gyfradd yn 29%.

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 gofynnwyd i ymatebwyr am nifer y ffrindiau a'r teulu agos a oedd ganddynt. Dywedodd bron i chwarter yr ymatebwyr fod ganddynt fwy na deg o ffrindiau a theulu agos, dywedodd 30% fod ganddynt chwech i ddeg o ffrindiau a theulu agos, roedd gan 32% rhwng tri a phump, roedd gan 12% un neu ddau a dywedodd 1% o bobl nad oedd ganddynt ffrindiau neu deulu agos (Llywodraeth Cymru, 2021a). Nid yw'r cwestiwn hwn wedi cael ei ofyn yn Arolygon Cenedlaethol Cymru ar ôl hynny.


13 Cyfrifwyd nifer yr oedolion mewn gofal preswyl o'r nifer ym mhob un o'r categorïau canlynol (cartref gofal i oedolion heb ofal nyrsio, cartref gofal i oedolion gyda gofal nyrsio, llety â chymorth, llety gwarchod a lleoliad oedolion) fel y'u gwelir yn set ddata StatsCymru 'Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran'. Barnwyd bod y categorïau hyn yn berthnasol yn seiliedig ar y ddogfen ganllawiau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ar gyfer y set ddata hon (Llywodraeth Cymru, 2020e).

## Ffigur 20: Cyfran yr oedolion yng Nghymru mewn gofal preswyl yn ôl math, 2018-19




Ffynhonnell: StatsWales, 2020j

## Ffigur 21: Nifer yr oedolion yng Nghymru mewn gofal preswyl yn ôl math ac oedran, 2018-19




Ffynhonnell: StatsWales, 2020j

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-13 gofynnwyd i ymatebwyr pa mor fodlon oeddent yn gyffredinol â pherthnasoedd personol. Gofynnwyd iddynt roi sgôr ar gyfer eu bodlonrwydd allan o ddeg gyda deg yn 'gwbl fodlon' a sero 'ddim yn fodlon o gwbl' (Llywodraeth Cymru, 2012). Ychydig iawn oedd lefelau bodlonrwydd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau oedran. Roedd cyfartaledd yr ymatebion ar gyfer pob grŵp oedran rhwng 8.6 ac 8.9. Y rhai dros 75 oed oedd â'r lefel uchaf o fodlonrwydd, sef 8.9 tra bod gan bobl 25–44 oed y lefel isaf, sef 8.6 (Llywodraeth Cymru, 2021a). Nid yw'r cwestiwn hwn wedi cael ei ofyn yn Arolygon Cenedlaethol Cymru ar ôl hynny.

Mae'r data hyn yn awgrymu nad oes lleiafrif ansylweddol o bobl yng Nghymru sy'n teimlo naill ai'n unig a/neu'n anfodlon â'u rhwydweithiau cymorth cymdeithasol. Mae hyn yn cyfeirio at adnoddau cymdeithasol annigonol a'r profiad o allgáu cymdeithasol.




## 5.2 – Cymryd rhan

### Cymryd rhan ac allgáu cymdeithasol: Y prif negeseuon

### Cymryd rhan yn yr economi

- Mae lefelau uwch o gyflogaeth a gostyngiad yn y nifer heb waith wedi bod yn sbardunau allweddol i welliannau graddol mewn lefelau tlodi yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn sbardun allweddol i dlodi mewn gwaith yng Nghymru. Gall gorfod darparu mathau eraill o ofal di-dâl, fel gofalu am aelodau anabl, sâl neu oedrannus o'r teulu, hefyd arwain at allgáu cymdeithasol a thlodi.
- Gall cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol leihau allgáu cymdeithasol drwy adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol. Mae tua 26% o bobl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol.
- Gall natur bywyd gwaith, gan gynnwys y math o gontract, y math o waith, ac a oes absenoldeb â thâl ddylanwadu ar dueddiad pobl i allgáu cymdeithasol.
- Mae ansawdd gwaith yn fater allweddol yng Nghymru. Mae cyfran y bobl mewn gwaith â chyflog isel ac o ansawdd isel yng Nghymru yn uchel, ac roedd eisoes yn cynyddu cyn y pandemig.

### Cymryd rhan mewn cymdeithas

- Gall diffyg adnoddau gyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin, gan arwain at allgáu cymdeithasol.

## Diwylliant, addysg, a sgiliau

- Mae cymwysterau a sgiliau yn benderfynyddion allweddol o ran cyflogadwyedd ac incwm pobl. Gostyngodd cyfran y bobl o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau i 8.4% yn 2019 o tua 15% yn 2008.
- Gall y 'bwlch cyrhaeddiad' rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion gyfrannu at dlodi ac allgáu cymdeithasol yn ddiweddarach mewn bywyd. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4 (CA4) mae plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yng Nghymru 50% yn llai tebygol o gael pump neu fwy o gymwysterau TGAU 'da' na'u cyfoedion.
- Gall mynediad at ddysgu gydol oes helpu pobl i wella eu sgiliau, a all helpu pobl i symud allan o allgáu cymdeithasol a thlodi. Mae cymryd rhan mewn addysg yn gostwng gydag oedran. Yn 2019, dim ond 11.2% o bobl 25-30 oed yng Nghymru oedd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o addysg.
- Mae'r anallu i gael mynediad at weithgareddau hamdden diwylliannol a chymryd rhan ynddynt yn fath o allgáu cymdeithasol ac yn cyfyngu ar allu pobl i gronni cyfalaf diwylliannol. Dim ond un o bob pump o bobl yng Nghymru a gymerodd ran mewn gweithgareddau celfyddydol yn 2018-19.
- Gall diffyg mynediad i'r rhyngrwyd neu wasanaethau digidol addas fod yn symptom o dlodi ac allgáu cymdeithasol, a gall waethygu hyn. Nid oes gan tua 13% o aelwydydd yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd.

## Cymryd rhan wleidyddol a dinesig

- Gall statws dinasyddiaeth effeithio ar allu pobl i gymryd rhan lawn mewn bywyd gwleidyddol a dinesig, sydd yn ei dro yn effeithio ar lefel yr allgáu cymdeithasol y maent yn ei brofi. Mae mwy na 93% o bobl sy'n byw yng Nghymru yn ddinasyddion y DU.
- Mae rhyddfreinio hefyd yn elfen allweddol o gymryd rhan mewn cymdeithas. Yn 2016, dim ond 45.5% o bleidleiswyr cofrestredig a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad.
- Ymhlith y rhwystrau allweddol i gymryd rhan ddinesig yng Nghymru mae dadrithiad, credu bod gwleidyddiaeth yn ddryslyd neu ddim yn atyniadol, a diffyg gwybodaeth am gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.
- Roedd bron i 50% o bobl yng Nghymru a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru rhwng 2012 a 2019 yn teimlo nad oeddent yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Mae'r maes cymryd rhan yn cynnwys y pedwar is-faes - cymryd rhan yn yr economi; cymryd rhan mewn cymdeithas; cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, addysgol ac adeiladu sgiliau; a chymryd rhan wleidyddol a dinesig.



## 5.2.1 - Cymryd rhan yn yr economi gwaith am dâl


Mae lefelau uwch o gyflogaeth a gostyngiad yn y nifer heb waith wedi bod yn sbardunau allweddol i welliannau mewn lefelau tlodi yng Nghymru. Mae gan aelwydydd lle mae o leiaf un person mewn cyflogaeth am dâl risg sylweddol is o dlodi nag aelwydydd di-waith. Fodd bynnag, dylid nodi, er y gall bod mewn cyflogaeth am dâl leihau'r risg o dlodi ac allgáu cymdeithasol drwy wella gallu pobl i gael gafael ar adnoddau, nad yw hyn yn wir ym mhob achos (Levitas et al., 2007). Mae tlodi mewn gwaith, cyflogau isel a gwaith o ansawdd isel yn faterion allweddol yng Nghymru ac mae pob un yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol a thlodi.

Mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf, o 72% ym mis Mehefin 2000 i 76% ym mis Mehefin 2020, er bod rhai gostyngiadau bychan tymor byr yn ystod y cyfnod hwn (StatsCymru, 2020d).

Mae'r 'bwlch cyflogaeth' rhwng Cymru a gweddill y DU wedi gwella'n sylweddol ers datganoli. Mae bellach ar hanner y lefel yr oedd yn y 1990au, wedi gostwng o 4-5 pwynt canran i 2 bwynt canran yn 2020 (Resolution Foundation, 2020a). Mae'r Resolution Foundation yn amcangyfrif pe bai'r bwlch yn cael ei gau a bod Cymru'n cyflawni'r un gyfradd gyflogaeth â gweddill y DU, byddai 45,000 o bobl ychwanegol yng Nghymru mewn gwaith (Resolution Foundation, 2020a). Mae bylchau cyflogaeth yng Nghymru (rhwng gwahanol awdurdodau lleol) hefyd wedi gwella yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, wrth i gyfraddau cyflogaeth gynyddu (Ffigur 22).

Mae prif sbardun tlodi mewn gwaith yn gysylltiedig â nifer aelodau o aelwyd sydd mewn gwaith a faint o waith sy'n cael ei wneud gan yr aelodau hynny o'r aelwyd. Yn gyffredinol, aelwydydd gyda dau enillydd sydd wedi dod yn norm, ac mae prisiau wedi codi'n unol â hynny, gan arwain at aelwydydd un enillydd yn profi risg sylweddol uwch o dlodi mewn gwaith.

### Ffigur 22: Cyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU, 2005-2020




Ffynhonnell: StatsWales, 2020j

Mae aelwydydd un enillydd yn cyfrif am bron i 60% o bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith yn y DU, sy'n fwy na dwbl eu cyfran o'r boblogaeth (Hick a Lanau, 2017).

Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth a'r berthynas rhwng cyflog isel a thlodi mewn gwaith: mae cysylltiad rhyngddynt, ond nid ydynt yr un fath. Mae gan ychydig o dan 50% o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith aelod o'r cartref sy'n gwneud gwaith â chyflog isel (Hick a Lanau, 2017). Fodd bynnag, mae llawer o weithwyr ar gyflog isel yn byw ar aelwyd gydag enillwyr ychwanegol, sy'n caniatáu i'r aelwyd, ac felly'r gweithiwr cyflog isel, osgoi tlodi mewn gwaith drwy rannu costau ac adnoddau. Penderfynydd allweddol tlodi mewn gwaith ar gyfer gweithwyr â chyflog isel felly yw presenoldeb neu ddiffyg enillwyr eraill ar yr aelwyd yn hytrach na'r cyflog isel ei hun (Hick a Lanau, 2017). Serch hynny, mae cyflogau isel yn parhau i fod yn ffactor pwysig sy'n sbarduno tlodi mewn gwaith yng Nghymru.

Mae nifer o ffactorau ychwanegol hefyd yn cyfrannu at dlodi mewn gwaith, gan gynnwys budd-daliadau annigonol mewn gwaith, oriau byr a than-gyflogaeth. Mae tangyflogaeth yn digwydd pan fydd pobl yn gweithio llai o oriau nag yr hoffent. Mae hyn, yn ogystal â chyflog isel, yn sbarduno tlodi mewn gwaith ac yn ei gwneud yn anodd i bobl ddianc rhag tlodi. Roedd gan Gymru gyfradd debyg o dangyflogaeth i wledydd eraill y DU cyn pandemig y Coronafeirws, sef tua 10% (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

## *Darparu gofal di-dâl*

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn tynnu sylw at ddiffyg dewisiadau gofal plant fforddiadwy fel sbardun i dlodi mewn gwaith i lawer o deuluoedd (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Gall yr angen i gael cydbwysedd rhwng gofal plant a gwaith arwain at dangyflogaeth os nad oes gofal addas ar gael am yr oriau penodol sydd eu hangen, yn enwedig lle mae rhieni'n gweithio oriau annodweddiadol. Yn yr un modd, gall fforddiadwyedd gofal plant fod yn rhwystr i waith i lawer o deuluoedd incwm isel. Gall gofal plant gymryd cyfrannau sylweddol o adnoddau economaidd aelwydydd, ac yn aml mae'n ddarostyngedig i'r un materion a brofir ynghylch mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid ar gyfer 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i blant tair a phedair oed i rieni sy'n gweithio 16 awr yr wythnos (am o leiaf yr isafswm cyflog), dim ond 23% o awdurdodau lleol sy'n gallu darparu digon o ofal plant i dalu am yr hawl hon (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae'r hawl hon hefyd yn gyfyngedig. Nid yw'n helpu teuluoedd sy'n gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos (sydd â hawl i ddim ond deg awr yr wythnos o ofal plant am ddim); y rhai sy'n astudio ac yn gweithio neu yn hytrach na gweithio ac felly nad ydynt yn bodloni'r gofyn o fod yn gweithio 16 awr; a'r rhai sydd â phlant o dan dair oed (Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019). Mae'r ddarpariaeth gofal plant ar wahân i'r cynnig hwn yn anghyson ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys adnoddau awdurdodau lleol, ardal breswyl, oedran y plentyn, a statws gwaith y rhieni (Tabl 2).

## Tabl 2: Crynodeb o'r ddarpariaeth Gofal Plant

| Oedran y plentyn | Darpariaeth am ddim | Ar gael | Statws gwaith rhieni |
|---|---|---|---|
| **0-9 mis** | Dim | Gofal preifat yn unig | Absenoldeb mamolaeth statudol |
| **10-23 mis** | Dim | Gofal preifat yn unig | Unrhyw |
| **2 flynedd** | 12.5 awr yr wythnos am 39 wythnos | Ardaloedd Dechrau'n Deg[14] | Unrhyw |
| **3 a 4 blynedd** | 10 awr yr wythnos o addysg cyfnod sylfaen (12.5 awr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg) am 39 wythnos y flwyddyn | Unrhyw | Unrhyw |
| **3 a 4 blynedd** | 30 awr yr wythnos o ofal plant am 48 wythnos y flwyddyn (Gellir ei gyfuno ag addysg cyfnod sylfaen, ond efallai na fydd y ddarpariaeth yn yr un lleoliad) | Pob awdurdod lleol o fis Ebrill 2019 ond efallai na chaiff ei weithredu'n llawn ym mhob awdurdod. Does dim lle wedi'i warantu. | Incwm o £111 yr wythnos o weithio 16 awr ar gyfartaledd ar isafswm cyflog. Mae cymhwysedd rhieni sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant yn cael ei adolygu. |
| **Oedran ysgol gynradd** | Brecwast am ddim cyn dechrau'r diwrnod ysgol yn ystod y tymor | Ysgolion sy'n cymryd rhan | Unrhyw |
| **Oedran ysgolion cynradd ac uwchradd** | SHEP[15]– 12 diwrnod o ofal dros wyliau'r haf | Ysgolion sy'n cymryd rhan gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd o blant yn cael prydau ysgol am ddim | Unrhyw |

Ffynhonnell: Atgynhyrchwyd gan Chwarae Teg a Sefydliad Bevan, 2019, t. 26

14 'Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys: gofal plant rhan-amser i blant 2 i 3 oed, gwasanaeth ychwanegol gan Ymwelwyr Iechyd, mynediad at raglenni magu plant, a chymorth i blant ddysgu siarad a chyfathrebu' (Llywodraeth Cymru, 2021c).

15 Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP) – 'Mae SHEP yn rhaglen addysg mewn ysgolion sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Bwyd a Hwyl yw'r brand a ddefnyddir yn lleol i hyrwyddo'r cynlluniau i blant a theuluoedd.' (CLILC, 2021)

Y tu allan i ofal plant, mae gan Gymru lawer o ofalwyr di-dâl hefyd, sy'n darparu cymorth i oedolion. Amcangyfrifwyd bod gofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy'n gofalu am ffrindiau ac aelodau o'r teulu sy'n anabl, yn sâl neu'n oedrannus, wedi gwneud gwerth £8.1 biliwn o waith yn 2015. Mae hyn bron i ddwywaith gwerth gwaith y gofal di-dâl a wnaed yn 2001, sef £4.5 biliwn (Gofalwyr Cymru, 2015). Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl sy'n darparu gofal di-dâl nag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae yna tua 370,000 o ofalwyr yng Nghymru. Mae 103,594 o'r rhain yn gwneud dros 50 awr o waith gofal di-dâl yr wythnos (Cydffederasiwn GIG Cymru , 2018). Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y gofalwyr yng Nghymru yn cynyddu. Mae'n amcangyfrif y bydd dros 500,000 o bobl yng Nghymru yn gofalu erbyn 2037, sy'n gynnydd o 40% ar y ffigurau cyfredol (Cydffederasiwn GIG Cymru , 2018).

## *Gwneud gwaith di-dâl/ gwirfoddoli*

Er y gallai gyfyngu ar botensial pobl i ennill cyflog, gall gwneud â gwaith di-dâl neu wirfoddoli helpu i leihau allgáu cymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd i bobl adeiladu eu rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth ynghylch a yw pobl yn gwirfoddoli, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn 2016-17 a 2017-18, roedd 28% o'r ymatebwyr yn gwneud gwaith gwirfoddol. Gostyngodd hyn ychydig i 26% yn 2019-20 (Llywodraeth Cymru, 2021a). Ar draws holl flynyddoedd yr Arolwg Cenedlaethol, y grŵp oedran 65-74 oed oedd â'r gyfran uchaf o wirfoddolwyr (30-35%) (Llywodraeth Cymru, 2021a). Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar gael ar statws braced incwm neu amddifadedd y rhai sy'n gwirfoddoli a'r rhai nad ydynt yn gwirfoddoli.

## *Natur bywyd gwaith*

Gall natur bywyd gwaith unigolyn effeithio ar hyd a lled ei gynhwysiant cymdeithasol neu allgáu cymdeithasol.

Ymhlith y ffactorau dylanwadol mae lefelau ansicrwydd y swydd, yr alwedigaeth neu'r sector penodol, a'r math o gontract. Gellir disgrifio pobl sydd mewn gwaith ond sy'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol neu sydd mewn perygl o hynny fel rhai sydd mewn 'cyflogaeth waharddol' (Bailey, 2017). Mae'r cysyniad hwn, sy'n adeiladu'n benodol ar y fframwaith B-SEM, yn amlinellu sut gall pobl fod mewn cyflogaeth ond heb brofi'r cynhwysiant y credir yn gyffredinol ei fod yn cyd-fynd â gwaith am dâl. Mae cyflogaeth waharddol yn digwydd lle mae gan swydd o leiaf un o'r nodweddion canlynol (Bailey, 2017):

- Lefel uchel o ansicrwydd swydd, fel bod y gweithiwr mewn perygl o golli ei swydd yn fuan;
- Cyflog sydd mor isel fel bod y gweithiwr yn parhau i fod mewn tlodi neu mewn perygl uchel o dlodi;
- Gwaith nad yw'n cario'r un 'manteision cynhwysiant' â gwaith o ansawdd da neu sy'n niweidiol yn uniongyrchol i iechyd a lles gweithwyr.

Gall y math o gontract cyflogaeth neu weithwyr trefniant (hynny yw, hunangyflogaeth, cyflogaeth amser llawn a chyflogaeth ran-amser) hefyd effeithio ar lefel eu cynhwysiant cymdeithasol neu allgáu cymdeithasol.

Canran y rhai mewn cyflogaeth yng Nghymru a oedd yn hunangyflogedig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020 oedd 13.8%, sef tua 200,300 o bobl. Mae cyfradd hunangyflogaeth yng Nghymru ychydig yn is na lefel y DU, sef 14.5% yn 2020.

Mae gan Gymru gyfran ychydig yn uwch o weithwyr mewn swyddi rhan-amser na'r DU gyfan. Yn 2020, roedd 26.6% o weithwyr yng Nghymru mewn gwaith rhan-amser o'i gymharu â 25.7% o weithwyr yn y DU gyfan (StatsCymru, 2021c). Mae Ffigur 23 yn rhoi trosolwg o gyfansoddiad gweithlu Cymru yn ôl galwedigaeth (StatsCymru, 2021d).

### *Ansawdd gwaith a bywyd gwaith*

Mae ansawdd gwaith yn fater allweddol yng Nghymru. Mae'r OECD wedi datblygu cyfres o feini prawf i asesu ansawdd swyddi neu waith. O dan y fframwaith hwn, archwilir ansawdd enillion, diogelwch y farchnad lafur ac ansawdd yr amgylchedd gwaith i bennu ansawdd swydd (OECD, 2016). Un o nodweddion swyddi o ansawdd gwael yw cyflog isel sy'n golygu bod lefel eu hincwm, lefelau uchel o ansicrwydd swyddi a risg uchel o ddiweithdra ac amgylchedd gwaith o ansawdd gwael (yn aml lle mae gofynion swyddi uchel ond ychydig o adnoddau i fodloni'r gofynion hyn) yn peryglu lles gweithwyr. Gellir ystyried bod y cysyniad hwn o waith o ansawdd isel yn cyd-fynd yn agos â'r cysyniad o 'gyflogaeth waharddol' fel yr amlinellir yn yr adran flaenorol (Bailey, 2017). Mae gwaith o ansawdd isel yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol yn yr un modd â chyflogaeth waharddol gan nad yw gweithwyr yn cael yr un manteision gwaith allgáu cymdeithasol oherwydd ansawdd isel eu swydd.

Mae cyfran y bobl mewn gwaith â chyflog isel yng Nghymru yn uchel, ac roedd yn cynyddu cyn y pandemig. Pan lansiwyd y Cyflog Byw[16] yn 2012, roedd 23.5% o weithwyr yng Nghymru yn ennill llai na'r ffigur hwn. Roedd hyn wedi codi i 26% yn 2018-2019. Mae'r mater hwn yn waeth ymhlith gweithwyr rhan-amser. Mae 48% ohonynt yn ennill llai na'r Cyflog Byw go iawn, o'i gymharu â 17% o weithwyr llawn amser (Ystadegau Cymru, 2019b).

Mae gan Gymru hefyd nifer is o swyddi sy'n talu'n uchel o'i gymharu â gweddill y DU. Mae llai na 13% o weithwyr yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn y ddau sector sy'n talu uchaf[17], tra bod y cyfartaledd ar gyfer gweddill y DU yn 17% (Resolution Foundation, 2020a) (Ffigur 24).

Cyflogir cyfran fawr o weithwyr yng Nghymru (tua thraean) mewn sectorau â chyflog isel. O blith y gweithwyr hyn ar gyflogau isel, cyflogir dros hanner mewn sectorau fel manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth, sy'n adnabyddus am eu harferion cyflogaeth o ran nifer cyfyngedig o oriau a chontractau ansicr yn ogystal â chyflog isel (Webb et al., 2018). Mae cysylltiad mawr rhwng y math hwn o waith o ansawdd isel a lefelau uchel o dlodi mewn gwaith.

## 5.2.2 – Cymryd rhan mewn cymdeithas

### *Cymryd rhan a rolau cymdeithasol*


Gall diffyg adnoddau gyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin a chyflawni rolau ac ymddygiadau cymdeithasol penodol/disgwyliedig, gan arwain at deimladau o allgáu cymdeithasol (Levitas, et al., 2007). Er enghraifft, gellir ystyried bod rhieni neu neiniau a theidiau ddim yn gallu prynu anrhegion pen-blwydd i'r plant yn eu teulu oherwydd diffyg adnoddau economaidd yn analluIi i gyflawni disgwyliadau normadol y rôl gymdeithasol hon. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar y mathau hyn o allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Darperir gwybodaeth am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol allweddol yn adrannau 5.3.1 (chwaraeon), 5.2.4 (gweithgareddau crefyddol) a 5.2.1 (gwirfoddoli).

16 'Mae Cyflog Byw Cenedlaethol y DU, sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Cyflog Byw, yn gyfradd gyflog fesul awr, a'r bwriad yw sicrhau bod y rhai sy'n ei derbyn yn cael safon byw dda.' (Heery, et al., 2015, t. 4) Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar angen gweithwyr ac mae'n uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol. Cyflog Byw Cenedlaethol y DU ar gyfer 2020/21 yw £9.50, yr isafswm cyflog cenedlaethol yw £8.72 (Llywodraeth y DU, 2021a).

17 Mae'r Resolution Foundation yn nodi'r sectorau hyn fel 'proffesiynol a gwyddonol' a 'TGCh, cyllid ac eiddo' (Resolution Foundation, 2020a, t. 24)


## Ffigur 23: Cyfran gweithlu Cymru a gyflogir yn ôl galwedigaeth, 2020




Ffynhonnell: StatsCymru, 2021d

## Ffigur 24: Cyfran y gyflogaeth yn ôl sector yng Nghymru a'r DU, 2019-20

Cyfran y gyflogaeth (ochr chwith) a chyflog canolrifol (ochr dde), yn ôl sector: Wales a Phrydain Fawr/y DU, 2019 a 2019/20




Nodiadau: Mae data cyflog yn cynnwys gweithwyr yn unig, ac yn cael ei gyfrifo fel cyfartaledd wedi'i bwysoli o ganolrifau'r sectorau yn y categorïau hynny sy'n cyfuno sectorau lluosog. Mae data cyflogaeth ar gyfer y DU ac mae data cyflog canolrifol ar gyfer Prydain Fawr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad RF o ONS, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; ONS, Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

Ffynhonnell: Resolution Foundation, 2020, t. 24

## 5.2.3 – Diwylliant, addysg a sgiliau

### *Sgiliau sylfaenol*

Mae cymwysterau a sgiliau yn benderfynyddion allweddol o ran cyflogadwyedd ac incwm pobl. Maent yn rhwystr i waith ac i gamu ymlaen mewn gyrfa ac yn hwyluso hynny hefyd. Er nad yw cymwysterau a sgiliau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â thlodi, maent yn ffactor allweddol wrth bennu mynediad pobl at waith o ansawdd da, ac maent yn ymwneud yn uniongyrchol ag allgáu cymdeithasol fel y nodir yn y B-SEM.

Yn hanesyddol, roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yng Nghymru yn llawer uwch na'r gyfran yn Lloegr a'r Alban (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Mae cyfran y bobl o oedran gweithio heb gymwysterau bellach wedi gostwng i 8.4%, o tua 15% yn 2008 (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf mae cyfran y bobl yng Nghymru sydd â gradd neu gymhwyster addysg uwch arall (AU) wedi dyblu. Yn 2018 roedd 37.8% o oedolion o oedran gweithio wedi ennill cymhwyster addysg uwch NQF lefel (Ystadegau Cymru, 2019b). Er gwaethaf y cynnydd yn y maes hwn, mae buddsoddi mewn addysg bellach (AB) ac AU o ansawdd uchel a sicrhau mynediad atynt yn parhau i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer cynyddu cyflogadwyedd ac incwm, a lleihau tlodi. Er y bu gwelliant sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol oedolion ar gyfer y ddau ryw, mae menywod yn fwy tebygol o gyflawni cymhwyster NQF lefel 4 ym mhob grŵp oedran gweithio.

### *Cyrhaeddiad addysgol*

Gall y 'bwlch cyrhaeddiad' rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion gyfrannu at dlodi yn ddiweddarach mewn bywyd i blant sy'n byw mewn tlodi. Felly, mae modd ystyried cyrhaeddiad addysgol yn sbardun anuniongyrchol allweddol i dlodi. Mae'r bwlch hwn i'w weld ar draws pob oedran ac nid yw wedi'i gyfyngu i blant o deuluoedd incwm isel; mae hefyd yn effeithio ar blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu gymhleth (Sefydliad Bevan, 2020b).

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf bu cynnydd yng nghyfran y plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel2[18], gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) – o 22% yn 2011 i 29.5% yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2019). Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn wedi methu â chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr tlawd a'u cyfoedion, yn enwedig yn ystod camau addysg diweddarach. Erbyn diwedd CA4 mae plant sy'n cael prydau ysgol am ddim 50% yn llai tebygol o gael pump neu fwy o gymwysterau TGAU 'da' na'u cyfoedion (Sefydliad Bevan, 2020b).

Bu llai o gynnydd hefyd o ran cau'r bwlch ar gyfer plant iau. O 2019 ymlaen, dim ond 63.8% o blant blwyddyn saith sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig o gyrhaeddiad addysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen[19] eu haddysg. Mae hyn yn ostyngiad o 66.2% yn 2012 a 67.9% yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae dogfen Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019 Llywodraeth Cymru yn awgrymu y 'dylid ystyried y gostyngiad hwn yng ngoleuni newidiadau polisi diweddar sy'n newid ffocws asesiadau athrawon i ganolbwyntio unwaith eto ar ddysgwyr unigol, yn hytrach na dwyn ysgolion i gyfrif'.

18 Trothwy Lefel 2 – nifer y cymwysterau Lefel 2 sy'n cyfateb i nifer y pum TGAU gradd A*-C. (Llywodraeth Cymru, 2017a, t. 2)

19 Cwricwlwm statudol ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru

## Cymryd rhan mewn addysg

### Plant a gwahardd o ysgolion

Gall gwahardd unigolyn o'r ysgol gael effaith sylweddol ar fynediad plentyn at addysg, a all gael effaith hirdymor ar blant sydd wedi'u gwahardd o ran allgáu cymdeithasol a'u risg o brofi tlodi (Samariaid Cymru, 2018). Un enghraifft allweddol o effaith hirdymor gwahardd ysgolion yw'r 'llwybr o'r ysgol i'r carchar', cysyniad sy'n tynnu sylw at sut gall gwaharddiad parhaol o'r ysgol arwain at garchar yn ddiweddarach mewn bywyd, sy'n cyfrannu at allgáu cymdeithasol hirdymor. Canfu adroddiad gan y Sefydliad Cysylltiadau Hiliol fod 89% o blant yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr wedi'u gwahardd o'r ysgol (Perera, 2020).

Mae nifer o wahanol ffyrdd y gellir gwahardd plant o'r ysgol. Mae gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodol yn golygu symud plentyn o'r ysgol am nifer penodol o ddiwrnodau, tra bod gwahardd yn barhaol yn golygu tynnu enw'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol sy'n golygu na all ddychwelyd i'r ysgol benodol honno (Llywodraeth Cymru, 2020h). Er mai dyma'r prif fathau o waharddiadau y cesglir data ar eu cyfer yng Nghymru, mae mathau eraill o waharddiad yn cynnwys gwahardd amser cinio, symudiadau a reolir, eithrio gwirfoddol neu addysg ddewisol yn y cartref (Samariaid Cymru, 2018).

Yn 2018/19 yng Nghymru, roedd:

- 39.1 gwaharddiad cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai fesul 1,000 o ddisgyblion
- 1.7 gwaharddiad cyfnod penodol a oedd yn para mwy na phum niwrnod fesul 1,000 o ddisgyblion
- 0.5 gwaharddiad parhaol fesul 1,000 o ddisgyblion

Yn gyffredinol, mae cyfraddau gwahardd o'r ysgol wedi bod yn cynyddu yng Nghymru ers 2013/14 (Llywodraeth Cymru, 2020i). Ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai, mae'r gyfradd wedi cynyddu'n gyson o 26.7 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2013/14 i 39.1 fesul 1,000 yn 2018/19. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod wedi cynyddu o 1.6 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2013/14 i 1.7 fesul 1,000 yn 2018/19. Er hynny, cyrhaeddwyd lefel uchel o 1.9 fesul 1,000 yn 2016/17. Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol wedi cynyddu'n gyson ers 2013/14 o 0.2 fesul 1,000 i 0.5 fesul 1,000 yn 2018/19 (Llywodraeth Cymru, 2020i).

Mae gwahardd o'r ysgol yn gysylltiedig â nifer o anghydraddoldebau. Mae cysylltiad hysbys rhwng allgáu ysgolion ac ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, a all arwain at ganlyniadau iechyd meddwl a chorfforol gwael. Mae'r risg o wahardd ysgolion yn uwch ar gyfer plant sydd eisoes yn profi anfanteision gan gynnwys amddifadedd economaidd-gymdeithasol, iechyd gwael (plentyn a rhiant) ac anghenion dysgu ychwanegol (Samariaid Cymru, 2018). Mae hefyd yn anghymesur o uwch i blant Du.

## *Oedolion a chymryd rhan mewn addysg*

Yng Nghymru yn 2019, roedd 64.2% o bobl ifanc 16–18 oed mewn addysg amser llawn, gyda 7.3% arall mewn addysg ran-amser a 6.4% yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith (StatsCymru, 2020h). Roedd canran llawer llai o bobl ifanc 19-24 oed mewn addysg yn 2019. Roedd 29.3% o bobl yng Nghymru yn y grŵp oedran hwn mewn addysg amser llawn, roedd 4.4% mewn addysg ran-amser ac roedd 3.6% yn ymwneud â dysgu seiliedig ar waith. Dim ond cyfran fach o bobl 25–30 oed oedd mewn addysg yng Nghymru yn 2019 – roedd 4.2% mewn addysg amser llawn, roedd 4.7% mewn addysg ran-amser ac roedd 2.3% yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith (StatsCymru, 2020h).

Mae gwasanaethau dysgu gydol oes yn darparu llwybr i bobl ddychwelyd i addysg y tu hwnt i oedran addysg orfodol. Gall mynediad at ddysgu gydol oes helpu pobl i wella eu sgiliau a all helpu pobl i symud allan o dlodi drwy eu gwneud yn fwy cyflogadwy a chynnig ffordd allan o waith o ansawdd isel a thlodi mewn gwaith. Er bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at ddysgu oedolion fel rhan bwysig o'i rhaglen lywodraethu Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, prin yw'r data sydd ar gael ar y nifer sy'n darparu ac yn defnyddio dysgu oedolion y tu allan i'r grŵp 16-30 oed (Llywodraeth Cymru, 2017c) (Ffigur 25).

## *Gweithgareddau hamdden diwylliannol*

Mae'r analluu i gael mynediad at weithgareddau hamdden diwylliannol a chymryd rhan ynddynt yn fath o allgáu cymdeithasol ac yn cyfyngu ar allu pobl i gronni cyfalaf diwylliannol. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, dim ond 29% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydol yn y 12 mis blaenorol. Gostyngodd hyn i 22% yn 2017-18 ac 20% yn 2018-19 (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn 2019-20 gofynnwyd cwestiwn manylach yn yr Arolwg Cenedlaethol, a oedd yn caniatáu i ymatebwyr nodi pa weithgareddau celfyddydol yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn y 12 mis blaenorol. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd cerddoriaeth a chrefftau a chelfyddydau gweledol - roedd 7% ac 8% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd llai na 5% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan yn yr holl weithgareddau eraill yn y flwyddyn flaenorol. Yn gyffredinol, nid oedd 81% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau celfyddydol penodol yn y 12 mis blaenorol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 i ymatebwyr am eu hagwedd at y celfyddydau yng Nghymru – yn benodol, a yw 'Celfyddydau a gweithgarwch diwylliannol yn helpu i gyfoethogi ansawdd fy mywyd'. Roedd tua 60% o'r ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'tueddu i gytuno' â'r datganiad. (Llywodraeth Cymru, 2021a). Nid oedd dadansoddiad data ar gael ar gyfer tlodi nac allgáu cymdeithasol.

## 5.2.4 - Cymryd rhan wleidyddol a dinesig

### *Statws dinasyddiaeth*

Gall statws dinasyddiaeth effeithio ar allu pobl i gymryd rhan lawn mewn bywyd gwleidyddol a dinesig, a dylanwadu ar dueddiad i allgáu cymdeithasol a thlodi. Mewn rhai amgylchiadau, gall statws dinasyddiaeth hefyd effeithio ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau allweddol, fel cael mynediad at ofal iechyd drwy'r GIG, ac a fydd y gwasanaethau hyn am ddim neu'n costio.

Nid yw data ar statws dinasyddiaeth yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae data ar gael ar gyfer man geni poblogaeth Cymru (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b) (Tabl 3). Er nad yw man geni yn ymwneud yn uniongyrchol â hawliau a statws dinasyddiaeth, mae'r data hyn yn dangos bod y mwyafrif llethol o bobl sy'n byw yng Nghymru yn 2019-20 wedi'u geni yn y DU ac felly'n debygol o fod â hawl i'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth y DU. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw peidio â chael eu geni yn y DU neu'r UE yn golygu nad yw pobl yn ddinasyddion y DU oherwydd y gall llawer o bobl a aned mewn mannau eraill ddod yn ddinasyddion, ac maent yn dod yn ddinasyddion.

Nid yw data swyddogol ar nifer y mewnfudwyr 'anghyfreithlon' neu afreolaidd sy'n byw yn y DU wedi'u diweddaru ers 2005, pan oedd 430,000 o bobl yn byw yn y DU heb hawl gyfreithiol i aros (BBC, 2020). Er bod nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru fel 'mewnfudwyr anghyfreithlon' yn fach iawn, mae'r bobl hyn bron bob amser yn wynebu allgáu cymdeithasol difrifol. Yn gyffredinol, nid yw mudwyr afreolaidd yn gallu cael mynediad at nawdd cymdeithasol, gofal iechyd am ddim na gwasanaethau tai cymdeithasol (Yr Arsyllfa Ymfudo, 2020).

### *Rhyddfreinio*


Nid yw data ar nifer y bobl o Gymru sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio ar gael yn rhwydd. Ym mis Mawrth 2020, roedd 2,385,070 o bobl wedi cofrestru yng Nghymru ar y gofrestr etholiadol, gan roi'r hawl iddynt bleidleisio mewn etholiadau lleol a chenedlaethol (StatsCymru, 2021b).

Yn etholiad diwethaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, daeth 45.5% o bleidleiswyr cofrestredig i bleidleisio yng Nghymru (Y Comisiwn Etholiadol, 2019a). Roedd rhywfaint o amrywiaeth rhanbarthol yn nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd yng Nghymru yn ystod etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei huchaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru lle roedd 50.6% o'r rhai a oedd yn gymwys wedi pleidleisio. Dilynwyd hyn gan 46.7% yng Nghanol De Cymru a thua 43% yng Ngorllewin De Cymru a Gogledd Cymru. Roedd nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd ar eu hisaf yn Nwyrain De Cymru lle mai dim ond 41.8% o'r rhai cymwys a bleidleisiodd (Y Comisiwn Etholiadol, 2019a) (Ffigur 26).


Roedd nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd yng Nghymru ar gyfer etholiad Cyffredinol y DU 2017 yn sylweddol uwch nag ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y flwyddyn flaenorol. Daeth ychydig o dan 68% o bleidleiswyr cofrestredig i bleidleisio yn yr etholiad Cyffredinol yn 2017, a dim ond 45.5% bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad yn 2016 (Y Comisiwn Etholiadol, 2019b). Yn y naill achos neu'r llall, mae nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn etholiadau cyffredinol.

O 2021 ymlaen, mae gan bobl ifanc 16-17 oed hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata'n awgrymu nad yw llawer o'r bobl ifanc hynny sydd newydd ddod yn gymwys i bleidleisio wedi cofrestru i wneud hynny (BBC, 2021).

**Ffigur 25: Pobl 16-30 oed sy'n cymryd rhan mewn addysg yn ôl dull yng Nghymru, 2019**




**Ffigur 26: Y ganran a bleidleisiodd yn y bocs pleidleisio (gan gynnwys pleidleisiau a wrthodwyd wrth gyfrif) yn ôl rhanbarth (%) Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**




Ffynhonnell: Y Comisiwn Etholiadol, 2019a

## Cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

Canfu ymchwil archwiliadol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu democrataidd a chymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru fod y rhwystrau allweddol i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth o ran pleidleisio mewn etholiadau yr un fath ar draws pob grŵp a bod y rhwystrau hyn yn berthnasol i bob etholiad gan gynnwys etholiadau lleol, y Cynulliad a'r DU (Llywodraeth Cymru, 2020j). Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys dadrithiad, cael eu drysu gan wleidyddiaeth, gwleidyddiaeth ddim yn ddeniadol iddynt a diffyg gwybodaeth am gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Canfu'r un ymchwil hefyd fod gan bobl ifanc (14-17 oed) a gwladolion tramor fwy o ddiddordeb mewn etholiadau lleol na dinasyddion sy'n oedolion sydd wedi ymddieithrio. Mae gwladolion tramor hefyd yn wynebu'r rhwystr penodol o ansicrwydd ynghylch eu hawliau pleidleisio ar gyfer y gwahanol fathau o etholiadau sy'n digwydd yng Nghymru a'r DU (Llywodraeth Cymru, 2020j).

Canfu'r ymchwil hon hefyd, er bod pobl yn poeni am eu cymunedau lleol a bod ganddynt faterion penodol roeddent yn teimlo y dylid eu codi, fod rhwystrau i bobl rhag cysylltu â llywodraeth leol (Llywodraeth Cymru, 2020j). Tynnodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth sylw at y ffaith nad oeddent yn aml yn gwybod sut i fynd ati i gysylltu â llywodraeth leol er mwyn codi materion neu greu newid. Teimlai llawer na fyddai unrhyw un yn gwrando arnynt pe baent yn codi mater ac roedd cynnwys y gymuned yn cael ei ystyried yn ddibwrpas os nad oedd yn arwain at newid ar unwaith i'r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, 2020j).

Tynnodd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr astudiaeth sylw at faterion tebyg o ymddieithrio gwleidyddol. Amlygodd yr adroddiad y gallai rhwydweithiau cymunedol mwy gweladwy a hygyrch a gwleidyddol helpu i wella ymwneud pobl â gwleidyddiaeth a'u hannog i gymryd rhan yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020j).

## Effeithiolrwydd dinesig

Gall i ba raddau y mae pobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y maes gwleidyddol gynrychioli teimladau goddrychol o allgáu cymdeithasol (neu ddiffyg hynny) (Levitas, et al., 2007). Ers 2012-13, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi bod yn gofyn i ymatebwyr a ydynt yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Tabl 4)[20]. Mae cyfran y bobl sy'n 'anghytuno'n gryf' y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol wedi cynyddu o 21% i 34% o 2012/13 i 2018/19.



20 Mae'r cwestiwn yn gofyn: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno... Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol. (dangosydd FG)'.

## Tabl 3: Man geni poblogaeth Cymru (miloedd), 2020

| Man geni | Canran y boblogaeth |
|---|---|
| Y DU | 93.3 |
| Yr Undeb Ewropeaidd | 2.7 |
| Ewrop Arall | 0.2 |
| Y Dwyrain Canol a Chanol Asia | 0.5 |
| Dwyrain Asia | 0.2 |
| De Asia | 1.0 |
| De-ddwyrain Asia | 0.5 |
| Affrica Is-Sahara | 0.9 |
| Gogledd Affrica | 0.1 |
| Gogledd America | 0.2 |
| Canolbarth a De America | 0.2 |
| Ynysoedd y De | 0.2 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b

## Tabl 4: Ymatebion yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer dylanwad penderfyniadau ardal leol, 2012-19

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2016-17 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 4% | 4% | 3% | 3% | 3% |
| Tueddu i gytuno | 20% | 21% | 18% | 17% | 15% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 20% | 17% | 20% | 21% | 19% |
| Tueddu i anghytuno | 36% | 36% | 35% | 34% | 28% |
| Anghytuno’n gryf | 21% | 22% | 24% | 25% | 34% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021a

## 5.3 - Ansawdd bywyd

### Ansawdd bywyd ac allgáu cymdeithasol: Y prif negeseuon

#### Iechyd a lles

- Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael fel achos a chanlyniad tlodi ac allgáu cymdeithasol yn destun dadl barhaus.
- Mae'r risg o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn uwch i bobl anabl, pobl â salwch cronig a'u teuluoedd nag i weddill poblogaeth Cymru.
- Roedd gan ychydig o dan chwarter (24%) y bobl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol yng Nghymru yn 2017-18 anhwylder iechyd meddwl, a dim ond 6% o bobl nad ydynt yn byw mewn amddifadedd materol sydd ag unrhyw anhwylder o'r fath.
- Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf ymhlith pobl anabl o holl wledydd y DU. Yn 2018 roedd 39% o bobl anabl yng Nghymru yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 22% o bobl nad oeddent yn anabl.
- Mae pobl nad ydynt mewn amddifadedd materol yng Nghymru wedi adrodd yn gyson am fodlonrwydd uwch mewn bywyd na'r rhai mewn amddifadedd materol.
- Gall hunan-barch isel a diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygu'n bersonol achosi allgáu cymdeithasol a bod yn ganlyniad i hynny. Yn aml, mae gan y rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol rwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig a llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a all gyfrannu at eu datblygiad personol a rhoi hwb i'w hunan-barch.
- Gall stigma fod yn ffactor sy'n cyfrannu at allgáu cymdeithasol gan fod pobl sy'n teimlo stigma yn aml yn wynebu gwahaniaethu ac allgáu.
- Mae cysylltiadau rhwng tlodi ac allgáu cymdeithasol, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd fel ysmygu, gordewdra ac anweithgarwch, sy'n cael eu hategu gan ffactorau strwythurol ac ymddygiadol.

#### Amgylchedd byw

- Costau tai yw un o'r costau mwyaf i lawer o aelwydydd yng Nghymru ac maent yn sbardun allweddol i dlodi.
- Mae tlodi yn achosi digartrefedd ac yn ganlyniad iddo. Er nad yw digartrefedd bob amser o ganlyniad i dlodi, mae profiadau'r rhan fwyaf o bobl o ddigartrefedd neu ansicrwydd difrifol o ran tai yn cael eu sbarduno gan dlodi. Yn 2019-20, gwnaeth 31,320 o aelwydydd gais am gymorth digartrefedd yng Nghymru. Yn 2016-17, roedd 60% o ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru ar aelwydydd mewn amddifadedd materol yn teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac yn teithio. Mae hyn yn cymharu â 75% o'r rhai heb fod mewn amddifadedd materol.
- Mae 75-76% o bobl sy'n byw mewn amddifadedd materol yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon ar eu hardal leol o'i gymharu ag 87% o'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol.
- Rydym yn gwybod bod cael mynediad i fannau agored a gwyrdd yn effeithio ar les pobl. Dywedodd dros 50% o ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn fodlon iawn ar ansawdd mannau gwyrdd lleol yn 2018-19. Roedd mwy na 70% yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' cerdded i fannau gwyrdd.

## Troseddu, niwed a throseddoleiddio

- Roedd 14.4% o oedolion yng Nghymru wedi dioddef trosedd o leiaf unwaith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn codi i 16% ymhlith oedolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Mae pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn nodi'r lefelau uchaf o bryder am droseddu.
- Mae bwlio ac aflonyddu yn gallu achosi allgáu cymdeithasol ac maent yn gallu digwydd o ganlyniad i hynny hefyd. Nododd y rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol yng Nghymru lefelau uwch o fwlio yn y gweithle (17%) o gymharu â'u cymheiriaid nad ydynt yn ddifreintiedig (11%) yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gyson wedi cofnodi'n lefelau uwch o wahaniaethu a brofir gan bobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Yn ôl amcangyfrifon Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, roedd 38% o bobl yng Nghymru wedi profi neu fod yn dyst i ryw fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol yn 2019.
- Yn 2019, roedd 149 o garcharorion Cymreig am bob 100,000 o boblogaeth Cymru. Gyda'i gilydd, Cymru a Lloegr sydd â'r 8fed gyfradd uchaf o garcharu yn yr UE.
- Mae’r maes ansawdd bywyd yn cynnwys is-feysydd iechyd a lles; yr amgylchedd byw; a throseddu, niwed a throseddoleiddio.

## 5.3.1 - Iechyd a lles

### *Iechyd corfforol ac ymarfer corff*

Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael fel achos a chanlyniad tlodi ac allgáu cymdeithasol yn destun dadl barhaus. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ni fu fawr o newid yn sgorau iechyd cyfartalog poblogaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r risg o dlodi i bobl anabl, pobl â salwch cronig a'u teuluoedd yng Nghymru yn parhau'n uwch nag ar gyfer gweddill y boblogaeth.


Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru, sydd wedi cael ei ddefnyddio i gasglu data iechyd yng Nghymru ers diwedd Cyfrifiad Iechyd Cymru yn 2015, yn gofyn i ymatebwyr am eu hiechyd cyffredinol. Prin fu'r newid yn y duedd gyffredinol mewn ymatebion ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn 2013-14. Fodd bynnag, 2019-20 oedd y tro cyntaf i'r gyfran fwyaf o ymatebwyr labelu eu hiechyd cyffredinol yn 'dda' yn hytrach na 'da iawn'.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 yn darparu gwybodaeth am lefel yr ymarfer corff a wnaed yn ystod yr wythnos flaenorol gan oedolion, wedi’u dadansoddi yn ôl cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Dangosir cyfran yr oedolion ym mhob cwintel a wnaeth 150 munud o weithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol yn Ffigur 27.  Roedd lefelau gweithgarwch corfforol yn gostwng wrth i amddifadedd gynyddu.

Caiff gweithgarwch corfforol ymhlith plant yng Nghymru ei fesur ar wahân gan Arolwg Cenedlaethol Cymru.


Yn 2016-17, dim ond 51% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod eu plentyn, 3-17 oed, yn actif am awr (neu fwy) bob dydd. Pan rannwyd ymatebwyr yn gategorïau 'mewn amddifadedd materol' ac 'ddim mewn amddifadedd materol', canfu'r arolwg fod 50% o blant 3-17 oed nad oeddent yn byw mewn amddifadedd materol yn actif am awr neu fwy bob dydd.

**Ffigur 27: Dangosir cyfran yr oedolion ym mhob cwintel a wnaeth 150 munud o weithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol yn ôl cwintelau MALIC, 2018-19**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021a

**Ffigur 28: Canran y plant sy'n actif am awr neu fwy (3-17 oed) yn ôl nifer y diwrnodau actif mewn wythnos a statws amddifadedd materol, 2016-17**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021a

Cynyddodd hyn i 53% ar gyfer plant mewn amddifadedd materol. Pan ofynnwyd i aelwydydd sawl diwrnod yr wythnos roedd eu plentyn yn actif am awr neu fwy, roedd ychydig o amrywiad rhwng y rhai mewn amddifadedd materol neu beidio. Roedd cyfran uwch o blant mewn amddifadedd materol yn actif am bump i chwech neu saith diwrnod na'u cymheiriaid nad oeddent yn ddifreintiedig (Ffigur 28). Cofnodwyd patrwm tebyg o ymatebion pan ofynnwyd yr un cwestiwn am blant 3-7 oed yn 2017-18.

Mae oedolion sy'n wynebu amddifadedd materol yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gyda dim ond 45% yn dweud eu bod yn actif am 150 munud yr wythnos o'i gymharu â 54% o bobl nad ydynt yn ddifreintiedig. Mae gan 29% o bobl sy'n wynebu amddifadedd materol yng Nghymru BMI sydd yn y categori gordew (dros 30) tra bod y gyfradd ymhlith pobl nad ydynt yn ddifreintiedig yn 21% (StatsCymru, 2019b). Rydym yn gwybod bod lefelau isel o weithgarwch corfforol a gordewdra yn cyfrannu at iechyd gwael, a gellir ystyried gordewdra yn gyflwr iechyd ynddo'i hun yn ogystal â bod yn ffactor risg ar gyfer nifer o afiechydon eraill.

## Iechyd meddwl

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael sy'n ymwneud â'r cysylltiadau rhwng cyflyrau iechyd meddwl a thlodi yng Nghymru. Mae mesurau amddifadedd materol yn dangos bod gan 24% o bobl sy'n byw mewn amddifadedd materol yng Nghymru yn 2017-18 anhwylder iechyd meddwl, a dim ond 6% o bobl nad ydynt yn byw mewn amddifadedd materol sydd ag unrhyw anhwylder o'r fath (StatsCymru, 2019b).

Canfu adroddiad gan y Samariaid ar hunanladdiad ac anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru fod pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o geisio cymorth ar gyfer materion iechyd meddwl (Samariaid, 2017). Canfu'r un adroddiad hefyd fod pobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd yn llai tebygol o gael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol ar ôl iddynt hunan-niweidio.

## Anabledd

Mae llawer mwy o ddata ar gael ar y cysylltiadau rhwng tlodi ac afiechyd corfforol ac anabledd, o'i gymharu â'r rhai sydd ar gael ar gyfer iechyd meddwl. Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf ymhlith pobl anabl o holl wledydd y DU. Yn 2018 roedd 39% o bobl anabl yng Nghymru yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 22% o bobl nad oeddent yn anabl. Mae'r gyfradd tlodi hefyd yn uwch i deuluoedd ag o leiaf un unigolyn anabl (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Mae 29 y cant o deuluoedd Cymru sydd ag o leiaf un aelod anabl yn byw mewn tlodi, sydd saith pwynt canran yn uwch na'r gyfradd gyffredinol.

Gwelir cyfraddau tebyg lle caiff amddifadedd materol ei fesur ochr yn ochr â thlodi incwm. Mae gan chwarter (25%) o bobl o dan amddifadedd materol yng Nghymru salwch neu anabledd hirdymor o'i gymharu â 12% o bobl nad ydynt yn cael eu o dan amddifadedd materol (StatsCymru, 2019b). Mae gan bron i chwarter (23%) y bobl sydd o dan amddifadedd materol yng Nghymru, nad ydynt yn sâl neu'n anabl eu hunain, aelod o'r aelwyd sydd â salwch neu anabledd hirdymor o'i gymharu ag 11% o bobl nad ydynt o dan amddifadedd (StatsCymru, 2019b).

Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau penodol i waith ac mae diffygion y system nawdd cymdeithasol yn effeithio'n arbennig arnynt – mae'r ddau ohonynt yn cyfrannu at y risg uwch o dlodi ac allgáu cymdeithasol a wynebir gan y grŵp hwn.

## Bodlonrwydd ar fywyd

Ers 2014-15 mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi casglu data ar fodlonrwydd ar fywyd y rhai mewn amddifadedd materol yng Nghymru a'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon oeddent ar eu bywydau (ar raddfa o un i ddeg). Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu mai ychydig o newid a fu mewn bodlonrwydd ar fywyd yng Nghymru ar gyfer pobl mewn amddifadedd materol a'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol dros y pum mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, dylid nodi bod bodlonrwydd ar fywyd ymhlith ymatebwyr a oedd mewn amddifadedd materol wedi gostwng ychydig o sgôr o 6.8 yn 2014-15 i 6.5 yn 2019-20. Mae pobl nad ydynt mewn amddifadedd materol yng Nghymru wedi adrodd yn gyson am fodlonrwydd uwch ar fywyd na'r rhai mewn amddifadedd materol. Nid yw'r sgorau bodlonrwydd cyfartalog ar fywyd a roddwyd gan y rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol wedi gostwng o dan 8 ar unrhyw adeg ers gofyn y cwestiwn am y tro cyntaf, tra bod y sgorau a roddwyd gan y rhai mewn amddifadedd materol yn parhau o dan 7 (Ffigur 29).

## *Datblygiad personol / Hunan-barch*

Gall hunan-barch isel a diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygu'n bersonol achosi arwahanwydd cymdeithasol ac yn ei dro gall arwahanrwydd arwain at hunan-bach isel a diffyg cyfleoedd. Yn aml, ychydig iawn o rwydweithiau cymdeithasol sydd gan y rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, a llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a all gyfrannu at eu datblygiad personol a rhoi hwb i'w hunan-barch. Gall y rhai sydd â hunan-barch isel ei chael yn anodd cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, gan eu gadael mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol.

Ychydig o ddata sydd ar gael ar hunan-barch yng Nghymru, ac nid oes data ar hunan-barch sy'n gysylltiedig â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

## *Bod yn agored i stigma*

Gall stigma fod yn ffactor sy'n cyfrannu at allgáu cymdeithasol gan fod pobl sy'n teimlo stigma yn aml yn wynebu gwahaniaethu ac allgáu. Mae'r B-SEM yn tynnu sylw at dderbyn budd-daliadau prawf modd yn y tymor hir fel un achos posibl o stigma sy'n aml yn gysylltiedig â thlodi ac allgáu economaidd. Fodd bynnag, mae llawer o fathau eraill o stigma a all waethygu allgáu cymdeithasol y mae pobl yn agored iddo. Fodd bynnag, ychydig iawn i ddim data sy'n cael ei gasglu ar stigma ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

## *Hunan-niweidio a chamddefnyddio sylweddau*


Mae cysylltiadau rhwng tlodi a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd fel ysmygu, gordewdra ac anweithgarwch, sy'n cael eu hategu gan ffactorau strwythurol yn ogystal ag ymddygiadol (Short a Mollborn, 2016). Mae cyfraddau ysmygu a gordewdra yn uwch ymhlith pobl sydd mewn amddifadedd materol yng Nghymru, tra bod cyfraddau gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn is. Yn 2017-18, roedd 38% o bobl mewn amddifadedd materol yn ysmygu, o'i gymharu ag 16% o bobl heb fod mewn amddifadedd (StatsCymru, 2019b).

Ychydig o ddata sydd ar gael ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae data chwarterol ar gael ar nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asiantaethau cyffuriau ac alcohol a nifer yr asesiadau a gynhelir gan yr asiantaethau hyn, nifer y triniaethau a ddechreuwyd, yr achosion a gaewyd, ac achosion sy'n parhau ar agor i'r chwarter nesaf. Mae'r graff canlynol yn dangos nifer yr atgyfeiriadau, yr asesiadau a'r triniaethau a ddechreuwyd rhwng 2015 a 2020. Mae'r data'n dangos bod lefelau defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi aros yn weddol gyson dros y cyfnod hwn (StatsCymru, 2021e) (Ffigur 30).

Er bod cysylltiadau rhwng tlodi, amddifadedd, allgáu cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, mae'n bwysig nodi bod y cysylltiadau hyn yn gymhleth. Ymhlith y ffactorau sy'n ymwneud â thlodi ac allgáu cymdeithasol a all hefyd gyfrannu at risg camddefnyddio sylweddau mae 'bondiau teuluol bregus, anghysur seicolegol, dim llawer o gyfleoedd gwaith ac ychydig o adnoddau cymunedol' (Fforwm Cyffuriau'r Alban, 2007, t. 3).


Ychydig o ddata sydd ar gael ar lefelau hunan-niweidio yng Nghymru. Cofnododd Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, a gynhyrchwyd gan y GIG, 10,346 o gyfnodau a oedd we4di dod i ben ag ymgynghorwyr ar gyfer hunan-niweidio bwriadol yn ysbytai Cymru yn ystod 2020. O'r rhain, arweiniodd 9,958 o gyfnodau at dderbyniad i'r ysbyty (GIG Cymru, 2021).

## Ffigur 29: Bodlonrwydd ar fywyd yn ôl statws amddifadedd materol aelwyd, 2014-20




Ffynhonnell: StatsCymru, 2021a

## Ffigur 30: Atgyfeiriadau, asesiadau a thriniaethau camddefnyddio sylweddau a ddechreuodd yng Nghymru fesul chwarter, 2015-20




Ffynhonnell: StatsCymru, 2021e

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cofnodi nifer y marwolaethau a gofnodir fel hunanladdiadau bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Ers 2002, mae nifer yr hunanladdiadau bob blwyddyn yng Nghymru wedi amrywio. Fodd bynnag, gan fod yr ystadegyn hwn yn cael ei ddarparu fel nifer absoliwt yn hytrach nag fel cyfran o farwolaethau neu yn berthynol i gyfanswm y boblogaeth, nid yw'n bosibl dirnad sut mae cyfradd hunanladdiad yng Nghymru wedi newid dros amser (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020c) (Ffigur 31).

Pobl sy'n byw mewn tlodi ac mewn cymunedau difreintiedig sydd â'r risg uchaf o ladd eu hunain. Canfu ymchwil gan y Samariaid fod amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â thlodi gan gynnwys incwm isel, dyled broblemus, tai o ansawdd gwael ac amodau byw gwael, a diweithdra yn cyfrannu at y risg uwch o hunanladdiad ymhlith pobl ddifreintiedig (Samariaid, 2017).

## 5.3.2 - Amgylchedd byw

### *Ansawdd tai*

Costau tai yw un o'r costau mwyaf i lawer o aelwydydd yng Nghymru. Nododd Sefydliad Joseph Rowntree mai costau tai cynyddol oedd un o sbardunau tlodi yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Yn 2018 roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a oedd yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar gostau tai yn 13%. Ymhlith y pumed tlotaf o oedolion o oedran gweithio, roedd 42% yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar dai. Mae hyn wedi cynyddu o 36% yn 1994-97 (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018).


Yn hanesyddol, mae gan Gymru lefelau uwch na'r cyfartaledd o berchentyaeth o gymharu â gweddill y DU, sydd wedi cadw costau tai cyfartalog yn gymharol isel (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Fodd bynnag, ers 1998, mae cyfran y bobl sy'n rhentu gan gymdeithasau tai a'r sector preifat wedi cynyddu tra bod perchentyaeth a rhentu gan awdurdodau lleol wedi gostwng (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018).

Priodolwyd y newid hwn i ddiffyg tai cymdeithasol a phrisiau tai yn codi – tuedd a welwyd ledled y DU (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Dylid nodi, fodd bynnag, fod y sector rhentu preifat yn parhau i fod yn llai na'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae cyfran y tai rhent cymdeithasol wedi gostwng o 20% ym 1997 i 16% o 2006 ymlaen. Mae perchen-feddiannaeth hefyd wedi gostwng o 75% i 69% o'r stoc dai. I'r gwrthwyneb, mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu o 8% i 15% o eiddo yng Nghymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Er gwaethaf twf cyson y sector rhentu preifat yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae cynnydd mewn rhent preifat wedi gostwng yn gyson yn is na chwyddiant. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 2% mewn costau tai mewn termau real i'r tenantiaid hyn rhwng 2009-12 a 2016-19 (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Mae rhenti cymdeithasol, ar y llaw arall, wedi codi ar gyfraddau uwch na chwyddiant am ran helaeth o'r pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae rhenti preifat yn parhau'n uchel o'u cymharu â rhenti cymdeithasol. O ganlyniad i renti uchel parhaus, mae cost tai yn parhau i fod yn sbardun allweddol i dlodi yng Nghymru, er bod costau tai yn gostwng 2% mewn termau real rhwng 2009-12 a 2016-19 (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).


Er gwaethaf newidiadau yn y cymysgedd tai, mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi canfod bod y risg o dlodi wedi gostwng i bobl ar draws pob math o dai dros yr 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ceir amrywiad yn y risg o dlodi rhwng gwahanol fathau o dai. Yn 2018, roedd 13% o berchen-feddianwyr yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 44% o denantiaid preifat a 46% o denantiaid cymdeithasol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018) (Ffigur 32).

**Ffigur 31: Nifer y marwolaethau a gofnodwyd fel hunanladdiadau yng Nghymru, 2002-2019**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020c

**Ffigur 32: Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn ôl math o ddeiliadaeth, 2017-18**




Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree, 2018

Mater allweddol arall sy'n ymwneud â thai cymdeithasol ar gyfer aelwydydd incwm isel yw ansawdd. Yn 2002 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) fel ffordd o sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru o ansawdd da. Yn 2013, roedd 40% o'r stoc tai cymdeithasol yn bodloni SATC: mae hyn wedi cynyddu i 90% yn 2018 (er bod ffigur 2018 yn cynnwys 'methiannau derbyniol') (Ystadegau Cymru, 2018). Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i'r holl dai cymdeithasol fodloni SATC erbyn 2020.

Defnyddir y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) i fesur ansawdd tai yng Nghymru. O dan y dosbarthiad hwn, caiff peryglon eu graddio ac mae tai sydd â pherygl categori 1 (gan sgorio mwy na 1,000 yn yr HHSRS) yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n is na'r safon dderbyniol ofynnol (Watson, et al., 2019).

Yn ôl Arolwg Amodau Tai Cymru 2017-18, roedd gan aelwydydd mewn amddifadedd materol gyfradd ychydig yn uwch o beryglon categori 1 a gofnodwyd ar 19% na'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol, a oedd ar 17% (Llywodraeth Cymru, 2018b). Roedd cyfran y cartrefi â pheryglon categori 1 hefyd yn amrywio yn ôl math o ddeiliadaeth. Tai rhent preifat oedd â'r gyfran uchaf o beryglon categori 1, sef 24%, ac yna 19% o dai perchen-feddianwyr â thai cymdeithasol oedd â'r gyfran isaf, sef 7% (Llywodraeth Cymru, 2018b).

Nid yw data diweddar ar orlenwi ar gael ar gyfer tai yng Nghymru. Fodd bynnag, canfu cyfrifiad 2011 y gellid dosbarthu 26.3% o aelwydydd rhent cymdeithasol â phlant dibynnol fel rhai gorlawn. Roedd hyn yn cymharu ag 11.5% o aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi neu aelwydydd mewn rhanberchnogaeth gyda phlant a 18.2% o aelwydydd rhent preifat gyda phlant (Watson, et al., 2019).

## *Digartrefedd*

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn achosi digartrefedd ac yn gallu digwydd o ganlyniad iddo hefyd. Mae bod mewn tlodi neu gael eu hallgáu'n gymdeithasol yn cyfyngu'n ddifrifol ar adnoddau pobl a'u gallu i ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ganddynt i osgoi neu ddatrys argyfwng tai. Er nad yw digartrefedd bob amser o ganlyniad i dlodi, mae profiadau'r rhan fwyaf o bobl o ddigartrefedd neu ansicrwydd difrifol o ran tai yn cael eu sbarduno gan dlodi. (Johnsen a Watts, 2014). Canfu Monitor Digartrefedd y DU fod digartrefedd, yn y DU, yn fwy dwys ymhlith y grwpiau tlotaf o fewn cymdeithas. Y grŵp hwn o bobl sydd â'r nifer isaf o adnoddau i'w defnyddio mewn argyfyngau ac felly hefyd y lleiaf abl i osgoi digartrefedd o ganlyniad i argyfwng. Arhosodd y cysylltiad hwn hyd yn oed yn ystod dirwasgiad 2008 pan oedd llawer o aelwydydd mwy cefnog hefyd yn wynebu sefyllfaoedd argyfyngus (Johnsen a Watts, 2014).

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol hefyd yn ganlyniad i ddigartrefedd. Mae bod yn ddigartref yn cyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac felly mae pobl ddigartref yn profi cyfnodau estynedig o incwm isel. Mae pobl ddigartref hefyd yn aml yn dibynnu ar fudd-daliadau y tu allan i'r gwaith, nad ydynt yn ddigonol i gefnogi isafswm cost yr eitemau sy'n angenrheidiol i allu cymryd rhan mewn cymdeithas a chael safon byw dderbyniol sylfaenol yn ôl y Safon Isafswm Incwm (Johnsen a Watts, 2014).

Mae pobl ddigartref yn wynebu amrywiaeth o rwystrau i gyflogaeth gan gynnwys diffyg tai sefydlog, gwahaniaethu, dim llawer o brofiad gwaith, hunan-barch gwael ac anghenion cymhleth eraill sy'n deillio o anabledd/cyflyrau iechyd, diffyg cyrhaeddiad addysgol a gwendidau eraill. Gall bod yn ddigartref yn y gorffennol hefyd arwain at anfanteision i bobl sydd wedi sicrhau tai ers hynny.

Mae llawer o bobl a oedd yn arfer bod yn ddigartref yn dal i gael incwm isel hyd yn oed ar ôl iddynt sicrhau tai a chyflogaeth. Mae astudiaethau wedi dangos bod pobl ddigartref sydd wedi cael eu hailgartrefu yn aml yn profi tlodi ariannol mwy sefydledig o ganlyniad i ddyledion sy'n weddill, costau tai a chostau cyffredinol rhedeg cartref gan gynnwys biliau ynni, dŵr a bwyd (Johnsen a Watts, 2014).

Yn 2019-20, gwnaeth 31,320 o aelwydydd gais am gymorth digartrefedd yng Nghymru. Mae hyn wedi cynyddu o 28,881 yn 2017-18 a 22,260 yn 2015-16 (StatsCymru, 2020e). Ceir amrywiad daearyddol sylweddol o ran dosbarthiad y ceisiadau am gymorth digartrefedd yng Nghymru. Yn 2019-20, cynyddodd ceisiadau am gymorth digartrefedd 29% ym Merthyr Tudful, 18% yn Abertawe, 13% yn Sir Gaerfyrddin ac 11% yng Nghasnewydd, Rhondda Cynon Taf a Phowys o'i gymharu â 2018-19.


Fodd bynnag, yn yr un cyfnod gostyngodd nifer y ceisiadau 38% yn Nhorfaen, 24% yn Sir Fynwy, 14% yng Nghaerffili, 11% yn Ynys Môn a 10% yn Sir y Fflint (Canolfan Effaith Digartrefedd, 2020).

Canfu'r Ganolfan Effaith Ddigartrefedd fod mwy o debygolrwydd yn 2019-20 bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhoi cymorth i aelwydydd a oedd eisoes yn profi digartrefedd yn hytrach nag i'r rhai a oedd mewn perygl, ac y gellid eu hatal rhag dod yn ddigartref (Canolfan Effaith Digartrefedd, 2020).

Cofnodwyd bod 176 o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru yn 2019-20, er bod amcangyfrifon yn awgrymu bod 405 o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn (StatsCymru, 2020f)[21].

21 StatsCymru wnaeth baratoi'r wybodaeth am nifer y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd a'r amcangyfrifon o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd

## Ffigur 33: Nifer yr aelwydydd a wnaeth gais am gymorth digartrefedd yng Nghymru, 2015-20




Ffynhonnell: Stats Cymru, 2020e

Cynyddodd hyn o 158 a gyfrifwyd, a 347 a amcangyfrifwyd o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn 2018-19 (StatsCymru, 2020f). Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru ers 2015-16, pan oedd 82 o bobl wedi'u cofnodi a 240 o bobl wedi'u hamcangyfrif a oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru (StatsCymru, 2020f).

Mae digartrefedd cudd – a brofir gan bobl sy'n ddigartref ond nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn ystadegau swyddogol fel syrffwyr soffa a phobl mewn llety dros dro – hefyd yn broblem allweddol yng Nghymru, ac mae'n debygol o effeithio ar fwy o bobl na digartrefedd a gofnodwyd neu achosion o gysgu ar y stryd (Crisis UK, 2017).

## *Diogelwch y gymdogaeth*

Mae'r B-SEM yn tynnu sylw at y ffaith bod diogelwch cymdogaeth yn gysylltiedig ag anfantais. Gall teimlo'n anniogel yn yr ardal leol arwain at bobl yn treulio llai o amser allan yn y gymuned yn meithrin perthnasoedd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gall teimlo'n anniogel gartref ac yn yr ardal leol hefyd gynyddu straen a chael effaith ar les pobl.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu data ar deimladau o ddiogelwch cymdogaeth yn ôl statws amddifadedd materol y cartref. Yn 2016-17, roedd 60% o'r ymatebwyr mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol yn teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac yn teithio. Mae hyn yn cymharu â 75% o'r rhai heb fod mewn amddifadedd materol. Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth ar gyfer y rhai mewn amddifadedd materol, i 57%, a'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol, i 73% (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn casglu data ar ba mor ddiogel y mae pobl yn teimlo ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos yn ôl statws amddifadedd materol.

Yn 2016-17 a 2018-19, dywedodd 30% o'r ymatebwyr mewn amddifadedd materol eu bod yn teimlo naill ai'n 'anniogel iawn' neu 'ychydig yn anniogel' ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu tra roedd llai nag 20% o ymatebwyr nad oeddent mewn amddifadedd materol yn teimlo'n anniogel (Llywodraeth Cymru, 2021a).

## *Bodlonrwydd ar y gymdogaeth*

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn casglu data ar ba mor fodlon yw pobl ar eu hardal leol fel lle i fyw. Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2016-17 a 2018-19 ac mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn ôl statws amddifadedd materol.

Prin oedd y newid yn y lefelau bodlonrwydd a adroddwyd ar draws y ddwy flynedd pan ofynnwyd y cwestiwn (Llywodraeth Cymru, 2021a). Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol yn y lefelau bodlonrwydd a adroddwyd gan y rhai mewn amddifadedd materol a'u cyfoedion nad oeddent mewn amddifadedd. Dywedodd rhwng 75% a 76% o'r bobl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol eu bod yn fodlon ar eu hardal leol o'i gymharu ag 87% o'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Mae lefelau llygredd yn cael effaith sylweddol ar fodlonrwydd trigolion ar eu cymdogaeth. Gall llygredd hefyd gael effaith andwyol sylweddol ar iechyd a lles pobl, a gall hyn yn ei dro effeithio ar risg o allgáu cymdeithasol (fel yr amlinellir mewn trafodaeth ar iechyd). Canfu data a gasglwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 fod 15% o'r ymatebwyr naill ai'n 'anfodlon iawn' neu'n 'eithaf anfodlon' oherwydd lefel y sŵn traffig yn yr ardal leol, a bod 12% naill ai'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon ar lefel y llygredd aer yn eu hardal leol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

### *Mynediad at fannau agored*

Rydym yn gwybod bod cael mynediad at fannau agored a gwyrdd yn effeithio ar les pobl. Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 amrywiaeth o gwestiynau am fannau gwyrdd. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad yn ôl statws amddifadedd materol ar gael. Dywedodd mwy na 50% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon iawn ar ansawdd mannau gwyrdd lleol a bod 31% yn eithaf bodlon (Llywodraeth Cymru, 2021a). Roedd mwy na 70% o'r ymatebwyr yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' cerdded i fannau gwyrdd, er bod 4% yn dweud nad oedd mannau gwyrdd ar gael iddynt (Llywodraeth Cymru, 2021a).

## 5.3.3 - Troseddu, niwed a throseddoleiddio

### *Erledigaeth / diogelwch gwrthrychol*

Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), roedd 14.4% o oedolion yng Nghymru wedi dioddef trosedd o leiaf unwaith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Cymru oedd yr ardal a ddangosodd yr ail gyfran isaf o'r boblogaeth oedolion i gael eu herlid ar draws pob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Y Gogledd-ddwyrain oedd yr unig ranbarth gyda chyfran is o ddioddefwyr, sef 12.9% o'r boblogaeth oedolion.

Mae data ar erledigaeth hefyd ar gael yn ôl statws amddifadedd. Dangosodd CSEW fod cyfran yr oedolion a ddioddefodd drosedd wedi cynyddu wrth i amddifadedd gynyddu. Cafodd tua 16% o oedolion mewn ardaloedd a oedd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig eu herlid yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2020. Roedd hyn o'i gymharu â 13.6% yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig ac 14.2% yn y tri chwintel amddifadedd canol (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).

Cymru oedd â'r gyfran uchaf o blant 10-15 oed a ddioddefodd drosedd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 o holl ranbarthau Cymru a Lloegr. Cafodd 11% o blant yng Nghymru yn y grŵp oedran hwn eu herlid; y nesaf oedd 9.8% o blant yn Ne-ddwyrain Lloegr. (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Nid oedd data ar erledigaeth yn ôl statws amddifadedd ar gael ar gyfer plant yng Nghymru.

Yn ôl CSEW, roedd 6.9% o oedolion 16-74 oed yng Nghymru yn dioddef cam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Mae gwahaniaeth sylweddol yng nghyfran y dynion a'r menywod a ddioddefodd gam-drin domestig yng Nghymru – roedd 4.9% o ddynion yn dioddef cam-drin domestig o'i gymharu ag 8.5% o fenywod. Roedd rhywfaint o amrywiaeth hefyd yng nghyfran y bobl a ddioddefodd gam-drin domestig yn ôl statws amddifadedd – roedd 6.4% o oedolion yn yr 20% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn dioddef cam-drin domestig, o'i gymharu â 6.7% o oedolion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).

Yn ôl CSEW, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, cyfran yr oedolion a brofodd unrhyw fath o gam-drin cyn iddynt fod yn 16 oed yng Nghymru oedd 21.8% (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). O'r deg rhanbarth yng Nghymru a Lloegr sy'n cael sylw yn y CSEW, Cymru sydd â'r gyfran bumed uchaf o bobl a gafodd eu cam-drin pan oeddent yn blant. Mae cyfran y bobl a gafodd eu cam-drin pan oeddent yn blant ar ei huchaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, roedd 22.7% o bobl wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant. Mae hyn yn cymharu ag 20.1% o'r rhai yn yr 20% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).


## *Diogelwch goddrychol*

Mae lefelau pryder ynghylch troseddu ac erledigaeth yng Nghymru yn amrywio rhwng pobl mewn ardaloedd sy'n profi lefelau gwahanol o amddifadedd. Dengys data o CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 fod lefelau pryder ar draws pedwar math allweddol o droseddu yn uwch yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru nag yng Nghymru gyfan ar gyfer tri o'r pedwar math o drosedd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).

Yr unig fath o drosedd yr oedd pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai pryderus yn ei gylch na'u cyfoedion oedd troseddau ceir, a allai fod yn deillio o'r lefelau isel o berchnogaeth ceir a mynediad sy'n gysylltiedig â thlodi ac allgáu cymdeithasol (Ffigur 34).

Pobl yng Nghymru sydd â'r ail lefel isaf o hyder yn yr heddlu lleol o holl ranbarthau Cymru a Lloegr, yn ôl CSEW. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, roedd 72% o bobl Cymru yn 'cytuno' bod ganddynt hyder cyffredinol yn yr heddlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Dim ond Gorllewin Canolbarth Lloegr a nododd lefel is o hyder yn yr heddlu, sef 69%. Roedd hyder yn yr heddlu lleol yng Nghymru yn is ymhlith y rhai yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda dim ond 68% o bobl yn yr ardaloedd hyn yn dweud bod ganddynt hyder cyffredinol yn yr heddlu lleol. Mae hyn yn cymharu â 73% o weddill poblogaeth Cymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).

**Ffigur 34: Canran yr aelwydydd sy'n bryderus iawn am wahanol fathau o droseddau, Cymru 2019-20**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021a

## *Dod i gysylltiad â bwlio ac aflonyddu*

Mae bwlio ac aflonyddu yn gallu achosi allgáu cymdeithasol ac maent yn gallu digwydd o ganlyniad i hynny hefyd. Gall pobl sy'n cael eu bwlio encilio o gymdeithas a chael eu hallgáu'n gymdeithasol tra gall y rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol wynebu bwlio neu aflonyddu o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi'u hallgáu. Ychydig o ddata sydd ar gael ar fwlio ac aflonyddu yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag allgáu cymdeithasol a thlodi.

Yn y DU, canfu Arolwg Bwlio Blynyddol Ditch the Label 2020, sy'n gofyn i bobl ifanc 12-18 oed am eu profiadau gyda bwlio, fod 25% o'r ymatebwyr wedi cael eu bwlio yn ystod y 12 mis diwethaf (Ditch the Label, 2020). Yn ogystal â hyn, mae 26% o'r ymatebwyr wedi gweld bwlio tra bod 3% wedi cyfaddef eu bod wedi bwlio eraill yn yr un cyfnod. Mae Ditch the Label (2020) yn nodi bod y lefel hon o fwlio yn gynnydd o 25% o flwyddyn i flwyddyn. O'r ymatebwyr hynny a wnaeth sôn am fwlio, dywedodd 89% fod hyn ar ffurf cael eu hallgáu'n gymdeithasol gan gyfoedion (Ditch the Label, 2020).

Yng Nghymru yn benodol, mae adroddiad atodol Llesiant Cymru ar les plant ar gyfer 2017-18 yn nodi bod un o bob deg disgybl ysgol uwchradd yng Nghymru yn cael ei fwlio bob wythnos (Llywodraeth Cymru, 2018a). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y lefel hon o fwlio yn gymharol uchel yn y DU. Yn 2017-18, roedd 35% o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi cael eu bwlio yn ystod y ddau fis diwethaf tra bod 19% wedi cael eu seiberfwlio yn yr un cyfnod. Cyfaddefodd 16% o ddisgyblion eu bod wedi bwlio eraill (Llywodraeth Cymru, 2018a). Mae rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran profiadau o fwlio yng Nghymru. Dywedodd cyfran uwch o fechgyn eu bod wedi bwlio rhywun (19% o fechgyn o'i gymharu â 13% o ferched) tra roedd cyfran uwch o ferched wedi dweud eu bod wedi cael eu bwlio (38% o ferched o'i gymharu â 33% o fechgyn) (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Yn 2019-20, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i ymatebwyr a oeddent wedi cael eu bwlio yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd lefelau bwlio a adroddwyd yn uwch ymhlith pobl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol, gyda 17% o ymatebwyr o'r fath wedi cael eu bwlio yn y gwaith o'i gymharu ag 11% o ymatebwyr nad oeddent mewn amddifadedd materol.



## Gwahaniaethu

Casglodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ddata ar wahaniaethu, aflonyddu a bwlio rhwng 2012-14 a 2019-20.

Yn 2012-13 a 2013-14, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi profi gwahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn y ddwy flynedd roedd lefelau gwahaniaethu yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn byw mewn amddifadedd materol. Yn 2012-13, roedd 13% o'r ymatebwyr a oedd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig yn ôl MALlC wedi profi gwahaniaethu o'i gymharu â 10% yn yr 11-49% mwyaf difreintiedig a 7% yn y 50% lleiaf difreintiedig (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn 2013-14, dywedodd 9% o'r ymatebwyr yn y cwintelau mwyaf a'r ail fwyaf difreintiedig eu bod wedi profi gwahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cymharu â dim ond 6% o'r ymatebwyr ym mhob un o'r tri chwintel arall (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Yn 2012-13 a 2013-14, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd beth oedd y prif reswm dros unrhyw wahaniaethu a brofwyd ganddynt. (Dangosir dosbarthiad yr ymatebion yn Ffigur 35.) Ar draws y ddwy flynedd, y man lle mae'r ymatebydd yn byw oedd un o'r rhesymau a nododd yr ymatebwyr amlaf pam eu bod yn credu bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn (Llywodraeth Cymru, 2021a). Nid oes dadansoddiad yn ôl statws amddifadedd ar gael ar gyfer y data hwn. Yn y data ar gyfer 2013-14 mae rhai bylchau (ethnigrwydd, rhyw a chred/ffydd grefyddol) gan fod y categorïau hyn wedi casglu llai na 30 o ymatebion. Felly nid yw'r canlyniadau'n cael eu dangos yn nangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Yn 2019-20, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru i ymatebwyr a oeddent wedi profi gwahaniaethu yn eu herbyn yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Unwaith eto, roedd lefelau gwahaniaethu a adroddwyd yn uwch ymhlith y rhai mewn amddifadedd materol – nododd 16% o'r ymatebwyr a oedd yn byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol wahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â dim ond 10% o'r rhai a oedd yn byw mewn cartrefi nad oeddent mewn amddifadedd materol (Llywodraeth Cymru, 2021a). Roedd cyfraddau gwahaniaethu hefyd yn uwch ymhlith menywod (11%), ymatebwyr â salwch, anabledd neu wendid tymor hir (17%), pobl LGBTQ+ (20%), a'r rhai sy'n ymarfer crefydd ar wahân i Gristnogaeth (24%) (Llywodraeth Cymru, 2021a) (Ffigur 35).

## Cofnod troseddol

Gall cael cofnod troseddol arwain at bobl yn agored i sawl math o allgáu cymdeithasol. Mae pobl sydd â chofnod troseddol yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan mewn bywyd economaidd oherwydd yr effaith niweidiol y mae cofnod troseddol yn ei chael ar eu rhagolygon gyrfa. Mae'r diffyg rhagolygon gyrfa i bobl sydd â chofnod troseddol yn cynyddu eu risg o dlodi ac amddifadedd yn ogystal â chynyddu'r tebygolrwydd o aildroseddu (Duque a McKnight, 2019). Gall y bobl hyn hefyd wynebu perthnasoedd cymdeithasol a theuluol yn chwalu o ganlyniad i'r stigma sy'n gysylltiedig â throseddu.

## Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/ Ymddygiad Troseddol a Gwaharddebau Sifil

Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO) oedd yn cael eu defnyddio fel y brif gosb droseddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru nes iddynt gael eu diddymu yn 2014. Disodlwyd yr ASBO gan waharddebau sifil, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (CBO) a Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned (CPN). Dim ond i berson sydd wedi'i gael yn euog o drosedd y gellir rhoi CBO. Nid yw hyn yn wir am waharddebau sifil a CPNs (Llywodraeth y DU, 2021c).

Nid oes llawer o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am nifer y bobl yng Nghymru sy'n destun CBOs, CPNs a gwaharddebau sifil ar hyn o bryd o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae amcangyfrifon o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos mai yn 2019, De Cymru o blith pedair ardal heddlu Cymru, oedd â'r lefel uchaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda 43% o'r ymatebwyr wedi profi neu weld ymddygiad o'r fath (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Roedd lefel uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Gwent hefyd gyda 40% o'r ymatebwyr wedi ei brofi neu ei weld. Roedd gan y ddwy ardal heddlu hyn lefel uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol na chyfartaledd Cymru a adroddwyd yn yr arolwg, sef 38%. Roedd canran y bobl a brofodd neu a welodd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardaloedd Dyfed-Powys a Gogledd Cymru yn gymharol isel ar 24% a 26% yn y drefn honno (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a) (Ffigur 36).


## Carcharu

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gall sefydliadu a gwahanu oddi wrth y teulu, er bod angen hynny weithiau, arwain at allgáu cymdeithasol ac ynysu. Hefyd, mae carcharu'n effeithio ar allu pobl i gael gwaith hirdymor o ansawdd uchel, sy'n gallu gwarantu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn 2019 roedd 173 o garcharorion i bob 100,000 o bobl yng Nghymru a Lloegr. Dyma'r wythfed gyfradd uchaf o garcharu yn yr UE (Tŷ'r Cyffredin, 2020a). Yn 2019, roedd 149 o garcharorion o Gymru fesul 100,000 o’r boblogaeth yng Nghymru tra bod y gyfradd gyfatebol yn Lloegr yn 136 fesul 100,000 o’r boblogaeth yn Lloegr (Jones, 2020). O 2017, cafodd tua 39% o garcharorion Cymru eu cadw yng ngharchardai Lloegr (Jones, 2018). Yn 2019, roedd gan Gymru gyfradd garcharu 'yn y wlad' o 151 o garcharorion fesul 100,000 o'i gymharu â chyfradd gyfatebol o 139 fesul 100,000 yn Lloegr (Jones, 2020).


Nid oes carchardai i fenywod yng Nghymru, felly mae menywod o Gymru yn cael eu hanfon i garchardai yn Lloegr. Mae hyn yn golygu bod carcharorion benywaidd yn aml yn llawer pellach oddi cartref na charcharorion gwrywaidd, sy’n gallu gwaethygu problemau ynysu cymdeithasol ac allgáu sy'n gysylltiedig â charcharu (Jones, 2018).

**Ffigur 35: Y rheswm ymddangosiadol dros wahaniaethu a brofwyd gan ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru, canran, 2012–14**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021a

**Ffigur 36: Canran y bobl yng Nghymru a brofodd neu a welodd unrhyw fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol yn ôl ardal heddlu, 2019**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a

# 6. Effaith pandemig y Coronafeirws

Mae pandemig y Coronafeirws yn cael effaith gymharol fwy ar bobl sy'n byw mewn tlodi ac ar y rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol. Mae dwy agwedd ar effaith y pandemig – effeithiau iechyd y feirws ei hun ac effaith y mesurau a gymerwyd i'w reoli.

O ran tlodi, mae pandemig y Coronafeirws wedi cael tair prif effaith yng Nghymru: yn gyntaf, mae wedi arwain at gynydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi; yn ail, mae wedi dwysáu tlodi i'r bobl hynny a oedd eisoes yn byw mewn tlodi; ac yn drydydd, mae wedi gwaethygu canlyniadau bod ar incwm isel.

Mae'r adran ganlynol yn archwilio effeithiau iechyd y feirws a'u perthynas â thlodi yng Nghymru i ddechrau. Yna mae'n archwilio effaith y pandemig a'r mesurau cysylltiedig ar dlodi yng Nghymru.

## Effaith pandemig y Coronafeirws: Y prif negeseuon

- Mae data iechyd y cyhoedd yn dangos bod pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddwywaith yn fwy tebygol o farw o Coronafeirws na’r bobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae'r risg uwch o farwolaethau o ganlyniad i’r coronafeirws mewn ardaloedd difreintiedig yn gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd y mae’r poblogaethau hyn eisoes yn eu profi.

- Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael dwy brif effaith ar waith ac incwm - gostyngiad mewn incwm a cholli swyddi.

- Mae tua 16% o weithlu Cymru yn gweithio mewn sectorau a gafodd eu cau'n llwyr yn ystod y cyfnod clo. Roedd pobl ag incwm isel neu a oedd eisoes yn debygol o fod yn byw yn y trothwy tlodi neu'n agos ato saith gwaith yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn un o'r sectorau hyn a oedd wedi gorfod cau.

- Cymru sydd â'r gyfran isaf o bobl yn y DU sy'n gallu gweithio gartref o ganlyniad i strwythur economi Cymru. Mae gweithwyr ar gyflogau isel yn llai abl i weithio gartref na'r rhai mewn rolau sy'n talu'n dda.
- Mae 24% o aelwydydd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad mewn incwm ers i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020, gydag 11% o aelwydydd wedi gweld eu hincwm yn gostwng 'llawer'.
- Nid yw effeithiau pandemig y Coronafeirws ar waith wedi bod yn gyfartal yng Nghymru. Mae rhai grwpiau ac ardaloedd daearyddol wedi cael eu taro'n galetach nag eraill.
- Mae amcanestyniadau'n awgrymu pe bai dim ond un o bob pedwar gweithiwr mewn sectorau a wnaeth gau yn ystod y pandemig yn colli eu swyddi, y byddai diweithdra yng Nghymru yn cyrraedd lefelau uwch na'r rhai a welwyd yn ystod y dirwasgiad diwethaf.
- Mae llawer o aelwydydd yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi o ran taliadau tai - rhent a morgeisi - o ganlyniad i'r Coronafeirws. O ddechrau'r pandemig hyd at fis Rhagfyr 2020, roedd dros 120,000 (9%) o aelwydydd yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi gydag o leiaf un bil.
- Mae'r materion presennol gydag ansawdd tai wedi dod o bwys newydd yn ystod y pandemig. Rydym yn gwybod bod pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fyw mewn tai sydd o ansawdd gwael a/neu sy'n orlawn.
- Mae 25% o bobl yng Nghymru wedi gwneud cais neu'n disgwyl y bydd yn rhaid iddynt wneud cais am fudd-daliadau o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.
- Bu cynnydd hefyd yn y galw am gynlluniau nawdd cymdeithasol datganoledig, gan gynnwys Prydau Ysgol am Ddim a'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod pandemig y Coronafeirws.
- Mae pandemig y Coronafeirws wedi cynyddu gwariant aelwydydd ar filiau cyfleustodau i lawer o aelwydydd yng Nghymru gan fod pobl yn treulio mwy o amser gartref. Mae tua 15% o bobl yng Nghymru wedi mynd ar ei hôl hi, neu'n disgwyl mynd ar ei hôl hi gyda'u biliau tanwydd ac mae 13% yn disgwyl i'r un peth ddigwydd gyda biliau dŵr.
- Erbyn mis Ebrill 2020, roedd mwy na 10% o bobl wedi mynd ar ei hôl hi neu'n disgwyl mynd ar ei hôl hi gyda'u bil rhyngrwyd neu ffôn symudol, ac felly mewn perygl o golli eu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Mae allgáu digidol wedi cael effaith sylweddol ar allu plant i barhau â'u haddysg gartref yn ystod y cyfnod clo. Plant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi profi'r pandemig yn torri ar draws eu haddysg, hyd yn oed pan oedd cyfleoedd dysgu o bell ar gael, oherwydd problemau allgáu digidol.

Mae'r adran hon yn edrych ar effaith y Coronafeirws mewn perthynas ag iechyd; gwaith ac incwm; tai a llety; nawdd cymdeithasol; biliau a dyled; allgáu digidol; ac addysg.

## 6.1 – Iechyd

O ran y risg o'r feirws ei hun, mae data iechyd y cyhoedd yn dangos bod risg sylweddol uwch o farwolaethau o ganlyniad i'r coronafeirws yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ac i bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddwywaith yn fwy tebygol o farw o Coronafeirws na'r bobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru (Ymchwil y Senedd, 2020). Rydym yn gwybod bod y tebygolrwydd o farw o ganlyniad i'r coronafeirws yn cynyddu os oes gan gleifion gyflyrau meddygol penodol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys cyflyrau'r ysgyfaint, diabetes, gordewdra a chlefyd cardiofasgwlaidd, ac mae gan bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru gyfraddau digwyddedd llawer uwch o'r cyflyrau hyn. Mae pobl mewn ardaloedd difreintiedig ddwywaith yn fwy tebygol o fod â diabetes, maent ddwywaith yn fwy tebygol o farw o glefyd cardiofasgwlaidd o dan 75 oed, ac mae bron ddwywaith cymaint o bobl yn ordew o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (Ymchwil y Senedd, 2020). Er nad yw pawb sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r un ffactorau risg iechyd, gan gynnwys mwy o risg o gyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes hefyd yn berthnasol i bobl sy'n byw mewn tlodi y tu allan i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae'r risg uwch o farwolaethau o ganlyniad i'r coronafeirws mewn ardaloedd difreintiedig yn gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol a brofir gan y poblogaethau hyn sydd eisoes yn profi bwlch disgwyliad oes o 9 mlynedd i ddynion a 7.4 mlynedd i fenywod, o'i gymharu ag ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020d).

## 6.2 – Gwaith ac incwm

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael dwy brif effaith ar waith ac incwm - gostyngiad mewn incwm a cholli swyddi.

### 6.2.1 – Gostyngiad mewn incwm

Mae cyfnodau clo pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar allu pobl i weithio, gydag effeithiau canlyniadol ar incwm a thlodi yng Nghymru. Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan wedi canfod bod tua 211,500 o bobl yng Nghymru yn gweithio mewn sectorau a gafodd eu cau'n gyfan gwbl yn ystod y cyfnod clo (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae hyn yn cyfateb i tua 16% o weithlu Cymru. Canfu Sefydliad Joseph Rowntree mai gwasanaethau llety a bwyd oedd â'r gyfran uchaf o weithwyr ar ffyrlo, sef 78%, ac yna'r celfyddydau, adloniant a hamdden ar 77% (Sefydliad Bevan, 2020a). Canfu dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod pobl ag incwm isel neu a oedd eisoes yn debygol o fod yn byw yn y trothwy tlodi neu'n agos ato saith gwaith yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn un o'r sectorau hyn a oedd wedi gorfod cau (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, 2020).

Mae polisi Llywodraeth Cymru o weithio gartref lle bynnag y bo modd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n gweithio o bell. Fodd bynnag, mae ymchwil gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru wedi canfod mai Cymru sydd â'r gyfran isaf o bobl yn y DU sy'n gallu gweithio gartref o ganlyniad i strwythur economi Cymru (Rodriguez ac Ifan, 2020).

Mae'r newid i weithio gartref wedi cael effeithiau gwahanol, yn dibynnu ar incwm. Ar gyfer gweithwyr sy'n ennill llai nag £20,000 y flwyddyn gellir cwblhau tua 30% o dasgau gwaith allweddol gartref, o'i gymharu â 55% o dasgau i'r rhai sy'n ennill dros £40,000 y flwyddyn (Ymchwil y Senedd, 2020). Gan fod gweithwyr sy'n cael cyflogau isel yn llai abl i weithio gartref, mae llawer wedi gorfod parhau i weithio y tu allan i'r cartref, sy'n cynyddu eu risg o gael y Coronafeirws. Hefyd, mae gweithwyr ar gyflogau isel nad ydynt mewn sectorau a oedd wedi gorfod cau hefyd wedi gweld eu horiau'n cael eu cwtogi, sydd wedi effeithio ymhellach ar eu hincwm.

Mae Sefydliad Bevan wedi canfod bod 24% o aelwydydd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad mewn incwm ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, gydag 11% o aelwydydd wedi gweld eu hincwm yn gostwng 'llawer' (Sefydliad Bevan, 2020d).

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Cynllun Cadw Swyddi (JRS) (a elwir hefyd yn gynllun ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) i gefnogi gweithwyr yn ystod y cyfnod clo. Yng Nghymru, roedd dros 400,000 o bobl wedi'u rhoi ar y Cynllun Cadw Swyddi erbyn 31 Gorffennaf 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020k). Mae hyn yn cynrychioli 31% o gyfanswm y gweithlu (Sefydliad Bevan, 2020a). Ar 28 Chwefror 2021, roedd 175,200 o weithwyr yng Nghymru ar y Cynllun Cadw Swyddi (Llywodraeth Cymru, 2021b).

Roedd 78% o'r rhai hynny a oedd yn gymwys yng Nghymru wedi defnyddio'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, sef 110,000 o hawlwyr erbyn diwedd Gorffennaf 2020 (Sefydliad Bevan, 2020a). Gweithwyr ar gyflogau isel oedd y rhai mwyaf tebygol o gael eu rhoi ar y Cynllun Cadw Swyddi, a'r rhain oedd y lleiaf tebygol o weld eu cyflog yn codi y tu hwnt i'r 80% a oedd yn cael ei dalu o dan y Cynllun hwn. Roedd y dadansoddiad o weithwyr ar ffyrlo a gafodd gyflog llawn ym mhob cwintel incwm fel a ganlyn (Sefydliad Bevan, 2020a):

- 23% yn y cwintel cyflog isaf
- 17% yn y cwintel ail gyflog isaf
- 25% yn y cwintel cyflog canol
- 31% yn y cwintel ail gyflog gorau

Mewn termau ariannol, collodd gweithwyr yn y cwintel cyflog isaf tua £50 yr wythnos ar gyfartaledd ar y Cynllun Cadw Swyddi, o'i gymharu ag incwm llawn. Roedd hyn yn codi i £77 yr wythnos yn y cwintel ail gyflog isaf, lle'r oedd gweithwyr yn lleiaf tebygol o dderbyn cyflog llawn (Sefydliad Bevan, 2020a). Ni fwriedir i'r Cynllun Cadw Swyddi dalu am gyflogau a gollwyd lle mae pobl wedi gweld eu horiau'n cael eu cwtogi neu eu cyflogau'n gostwng o ganlyniad i'r pandemig. Nid yw chwaith yn cynnwys gweithwyr sydd eisoes wedi colli eu swyddi, sy'n gallu gadael gweithwyr yn y sefyllfaoedd hyn heb gymorth.

Nid yw effeithiau'r Coronafeirws ar waith wedi cael eu profi'n gyfartal ar draws cymdeithas. Mae pobl ifanc o dan 25 oed wedi profi'r effeithiau gwaethaf o ran incwm gan mai nhw yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn gweithio mewn sector a oedd wedi gorfod cau ac a oedd yn cael cyfraddau is o ran budd-daliadau (Ymchwil y Senedd, 2020).

Roedd gweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod yn weithwyr allweddol a hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau y bu'n rhaid iddynt gau. Cynyddodd hyn eu risg o ddal y Coronafeirws a cholli cyflogaeth ac incwm (Ogbonna, 2020).

Hefyd, mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod naill ai'n weithwyr allweddol (gan gynyddu eu risg o ddod i gysylltiad â'r feirws) neu weithio mewn sector a oedd wedi gorfod cau. Felly, maent yn fwy agored i effeithiau'r pandemig o ran risg iechyd ac ansicrwydd incwm. Yn ystod y cyfnod clo, roedd menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn darparu gofal plant na dynion. Treuliodd menywod dair awr y dydd ar gyfartaledd yn gofalu am blant tra bod dynion yn treulio dwy awr ar gyfartaledd (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae'r bwlch yn cynyddu ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bump oed a rhieni sengl (mae 90% o rieni sengl yng Nghymru yn fenywod). Mae mamau unwaith a hanner yn fwy tebygol o fod wedi colli neu roi'r gorau i'w swyddi ers dechrau'r cyfnod clo, o'i gymharu â thadau. Canfu ymchwil gan Sefydliad Bevan fod nifer y menywod mewn gwaith yng Nghymru wedi gostwng 3,000 rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 (Sefydliad Bevan, 2020a).

Bu amrywiad daearyddol hefyd o ran effeithiau'r pandemig sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae Ffigur 37 yn dangos yr amrywiad yng nghanran y gweithwyr mewn diwydiannau sydd mewn perygl ar draws awdurdodau lleol Cymru, gyda Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf â'r lefel uchaf o risg oherwydd y crynodiad o ddiwydiannau mewn perygl yn yr ardaloedd hyn.

### 6.2.2 – Colli swyddi

Er bod y Cynllun Cadw Swyddi wedi helpu i gadw rhai pobl mewn cyflogaeth wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, mae'r pandemig hefyd wedi arwain at nifer sylweddol o bobl yng Nghymru yn colli eu swyddi. Ac mae pryder cyffredinol y bydd diweithdra yng Nghymru yn codi yn ar ôl i'r Cynllun Cadw Swyddi ddod i ben.

Nid yw pob gweithiwr wedi gallu cael mynediad at gynllun ffyrlo'r llywodraeth. Am amrywiaeth o resymau, gwrthodwyd ffyrlo i lawer o bobl, sydd wedi arwain at golli swyddi a chynnydd o 67% mewn yn y nifer sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru erbyn diwedd 2020 o'i gymharu â dechrau'r flwyddyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). Gwrthodwyd ffyrlo a Chredyd Cynhwysol i weithwyr eraill (Hick a Murphy, 2020).

Mae Cyngor ar Bopeth yn amcangyfrif bod 250,000 o bobl y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu gwaith wedi colli oriau neu eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig. Mae hyn tua 17% o'r gweithlu (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2020)

Pan oedd pandemig y Coronafeirws ar ei anterth yn 2020 roedd tua un o bob pum swydd yng Nghymru mewn sectorau a oedd wedi gorfod cau. Mae Sefydliad Bevan yn amcangyfrif bod hyn yn cyfateb i tua 211,500 o weithwyr (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae amcanestyniadau gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn awgrymu, os mai dim ond un o bob pedwar o'r bobl hyn sy'n colli eu swyddi, y byddai diweithdra yng Nghymru yn cyrraedd lefelau uwch na'r rhai a welwyd yn ystod y dirwasgiad diwethaf (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020).

Ni ddisgwylir i'r colledion hyn gael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws y gweithlu. Disgwylir mai pobl ifanc, menywod a'r rhai sydd â chymwysterau isel yw'r rhai yr effeithir arnynt waethaf.

Canfu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith fod pobl ifanc yn wynebu'r risg uchaf o golli eu swyddi o ganlyniad i'r argyfwng, gyda 61% o bobl ifanc 16-19 oed a 33% o bobl ifanc 20-24 oed mewn perygl, sy'n uwch na phob grŵp oedran arall (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020). Mae menywod mewn mwy o berygl o golli eu swydd ar draws pob grŵp oedran. Ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, mae 68% o fenywod mewn perygl o'i gymharu â 53% o ddynion. Ar gyfer pobl ifanc 20-24 oed, mae 44% o fenywod mewn perygl o'i gymharu â 23% o ddynion. Mae un o bob pedwar o bobl sydd â chymwysterau naill ai ar lefel 3 neu'n is na lefel 2 mewn perygl o golli eu swyddi, o'i gymharu â dim ond 11% o bobl â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020).

## 6.3 – Tai a llety

Costau tai oedd y gwariant mwyaf sylweddol yr aelwyd i lawer o bobl cyn y pandemig. Mae llawer o aelwydydd yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi o ran taliadau tai (ad-daliadau rhent a morgais) o ganlyniad i'r pandemig. O ddechrau'r pandemig hyd at fis Rhagfyr 2020, roedd dros 120,000 (9%) o aelwydydd yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi gydag o leiaf un bil (Sefydliad Bevan, 2020d).. Yn yr un cyfnod, roedd 9% o denantiaid cymdeithasol a 6% o denantiaid preifat ar ei hôl hi o ran taliadau rhent a 4% o ddeiliaid morgeisi (Sefydliad Bevan, 2020d). Mae hyn yn uwch na phob rhan arall o'r DU, ac eithrio Llundain.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu'r cymorth tai yn ystod y pandemig drwy newidiadau i Gredyd Cynhwysol a chyflwyno gwyliau ad-dalu ar forgeisi i aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd talu o ganlyniad i'r pandemig (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2020).

Ym mis Mai 2020, hawliodd un o bob pum aelwyd yng Nghymru fudd-daliadau tai. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif bod nifer yr hawliadau budd-dal tai yng Nghymru wedi cynyddu 9% rhwng mis Chwefror 2020 a mis Mai 2020. Roedd mwy nag un o bob deg deiliad morgais (11%) ar wyliau morgais ym mis Gorffennaf 2020 (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Er gwaethaf y cymorth ychwanegol hwn, mae ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Achub y Plant wedi canfod bod y pandemig wedi achosi i fwy na 50% o deuluoedd â phlant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ddisgyn ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent ledled y DU (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).


Mae'r Resolution Foundation a Sefydliad Joseph Rowntree wedi tynnu sylw at y ffaith bod teuluoedd sy'n wynebu caledi ariannol sydd â rhenti prisiau canolig (hynny yw, rhai sy'n uwch na 30 canradd rhenti) yn debygol o brofi diffyg mewn rhenti, gan nad yw'r budd-dal tai yn ddigon i wneud iawn am y bwlch (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Mae Shelter Cymru wedi dweud bod tua 15,000 o denantiaid wedi cael eu bygwth â chael eu troi allan ers dechrau'r cyfnod clo (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae hyn er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod landlordiaid yn rhoi digon o rybudd i denantiaid cyn eu troi allan yn ystod y pandemig.

## Ffigur 37: Map yn dangos canran y gweithwyr mewn diwydiannau sydd mewn perygl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol

% y gweithwyr mewn diwydiannau mewn perygl* yn ôl awdurdod lleol

- < 30%
- 30-35%
- 35-40%
- > 40%



Mae diwydiannau mewn perygl wedi'u diffinio fel y rhai sydd â'r gyfran uchaf o swyddi mewn perygl cyn dod o hyd i frechlyn. Y rhain yw'r sector Llety a bwyd, Masnach fanwerthu, a Gwasanaethau personol (fel trin gwallt).

Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth 2018, data OS © hawlfraint y Goron 2020.

Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a, t. 8

Roedd yn ofynnol i landlordiaid roi tri mis o rybudd rhwng 27 Mawrth a 23 Gorffennaf 2020, ac o 29 Medi 2020, roedd yn ofynnol iddynt roi chwe mis o rybudd, ac eithrio mewn achosion lle mae troi allan yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno £40 miliwn yn ychwanegol o gyllid ar gyfer atal digartrefedd hirdymor. Bwriedir i'r cyllid hwn adeiladu ar y llety brys a ddarperir yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau bod pawb a oedd yn derbyn y cymorth hwn yn gallu cael gafael ar dai parhaol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

Mae'r materion presennol gydag ansawdd tai wedi dod o bwys newydd yn ystod y pandemig. Rydym yn gwybod bod pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fyw mewn tai sydd o ansawdd gwael a/neu sy'n orlawn. Canfu arolwg yn 2011 fod gan fwy na 6% o aelwydydd yng Nghymru fwy nag 1.5 o bobl fesul ystafell wely – ffigur y credir ei fod wedi cynyddu yn dilyn y newidiadau i nawdd cymdeithasol yn 2012 (Ymchwil y Senedd, 2020). Yn ystod y pandemig, mae hyn wedi cyfyngu ar allu pobl i ddilyn cyngor iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â hunanynysu (Ymchwil y Senedd, 2020).

Mae'r gallu i gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu yn llai mewn lleoliadau fel llochesi i fenywod neu lety brys, lle mae grwpiau aelwydydd yn rhannu ystafelloedd fel mater o drefn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £10 miliwn o gyllid ar gyfer llochesi digartrefedd a chyfleusterau eraill i helpu i fynd i'r afael â hyn. Ond nid oes unrhyw arian ychwanegol ar gael i wasanaethau cam-drin trais yn y cartref sy'n wynebu'r un problemau (Ymchwil y Senedd, 2020). Mae'r Cyngor Ffoaduriaid hefyd wedi codi pryderon am lety i geiswyr lloches, sy'n aml yn orlawn ac sy'n arwain at y math yma o rannu o ystafell (Cyngor Ffoaduriaid, 2020).

Mae Sefydliad Bevan hefyd wedi tynnu sylw at y risg uwch y mae pobl sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ei hwynebu, gan nad oes gan 14% o aelwydydd yng Nghymru gar (Sefydliad Bevan, 2020a).

## 6.4 – Nawdd cymdeithasol

Mae ymchwil gan Gyngor ar Bopeth wedi canfod bod 25% o bobl yng Nghymru wedi gwneud cais neu'n disgwyl y bydd yn rhaid iddynt wneud cais am fudd-daliadau o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2020). Ym mis Mehefin 2020 roedd dros 105,000 o bobl ychwanegol yng Nghymru yn hawlio Credyd Cynhwysol, o'i gymharu â mis Mawrth 2020. Ym mis Mehefin 2020, amcangyfrifwyd bod 260,000 o bobl yng Nghymru yn derbyn Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn cynrychioli tua un o bob deg oedolyn, sy’n gynnydd o 67% o'i gymharu â dechrau'r flwyddyn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a). O'r rhai a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol, roedd un o bob wyth yn gyflogedig neu'n chwilio am waith. Nid oedd llawer o'r hawlwyr ychwanegol erioed wedi gwneud cais am fudd-daliadau o'r blaen, ac felly roedd angen cymorth ychwanegol arnynt i gael budd-daliadau. Mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at yr angen hwn am gymorth ychwanegol fel mater allweddol, yn enwedig o ran sgiliau iaith (i'r rhai nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf), gan mai prin iawn yw gallu sefydliadau cymorth i ddelio â chynnydd mor ddigynsail yn y galw (Sefydliad Bevan, 2020b).

Mewn ymateb i'r pandemig, gwnaeth Llywodraeth y DU rai newidiadau dros dro i Gredyd Cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys atal sancsiynau (dros dro), cynyddu'r lwfansau Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith sylfaenol £20 yr wythnos (hyd at fis Hydref 2021), a chynyddu cyfraddau Lwfans Tai Lleol i 30% o gyfradd y farchnad (Sefydliad Bevan, 2020a).

Er bod y mesurau hyn wedi cael effaith gadarnhaol, mae Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi methu â mynd i'r afael â materion a oedd yn bodoli eisoes gyda Chredyd Cynhwysol, fel y cyfnod aros o bum wythnos (Sefydliad Bevan, 2020b).

Bu cynnydd yn y galw hefyd am gynlluniau nawdd cymdeithasol datganoledig. Er enghraifft, bu cynnydd sylweddol yn y galw am Brydau Ysgol am Ddim, gyda Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £33 miliwn o gyllid ar gael i warantu prydau ysgol am ddim drwy gydol gwyliau'r haf yn 2020, gyda chymorth yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Yn 2019-20, roedd 66,012 o 85,731 o blant cymwys (77%) yn manteisio ar eu hawl i gael prydau ysgol am ddim. Erbyn mis Mai 2020, roedd 5,000 o blant ychwanegol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac roedd dros 90,000 o blant yn manteisio ar eu hawl (Sefydliad Bevan, 2020a). Darparodd 17 o awdurdodau lleol gymorth prydau ysgol am ddim i deuluoedd drwy ddarparu arian parod, tra bod pump wedi defnyddio talebau neu hamperi. Daeth grŵp bord gron Sefydliad Bevan i'r casgliad y gallai'r cynnydd yn nifer y plant a oedd yn manteisio ar brydau ysgol am ddim fod wedi bod yn rhannol oherwydd y newid i'r ddarpariaeth arian parod mewn rhai ardaloedd, a oedd yn lleihau'r stigma ynghylch prydau ysgol am ddim (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi darparu £23.3 miliwn ychwanegol o gyllid (yn ogystal â'r £52.7 miliwn a gyhoeddwyd yn 2020) i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod pob gwyliau ysgol yn 2021-22 (Llywodraeth Cymru, 2020b).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cofnodi cynnydd sylweddol yn y nifer sy’n hawlio o'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) o ganlyniad i’r Coronafeirws. Gwnaed mwy na 60,000 o Daliadau Cymorth Brys sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws o'r Gronfa Cymorth Dewisol rhwng 18 Mawrth 2020 a Medi 2020 (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020). Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 77,892 o daliadau o’r Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol gyfan 2019-20 (Sefydliad Bevan, 2020a).

## 6.5 – Biliau a dyled

Mae pandemig y Coronafeirws wedi cynyddu gwariant ar filiau cyfleustodau i lawer o aelwydydd yng Nghymru gan fod pobl yn treulio mwy o amser gartref. Mae hyn, yn ogystal â gostyngiad mewn incwm wedi rhoi pwysau sylweddol ar lawer o aelwydydd yng Nghymru. Mae tua 15% o bobl yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi, neu'n disgwyl syrthio ar ei hôl hi, gyda thaliadau tanwydd ac mae 13% yn disgwyl i'r un peth ddigwydd ar gyfer biliau dŵr, yn ôl Cyngor ar Bopeth Cymru (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2020). Mae Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at ddatgysylltu cyfleustodau parhaus am beidio â thalu yn ystod y pandemig fel problem allweddol yng Nghymru. Dywedodd 44 y cant o'r bobl yr oedd eu cyfleustodau wedi'u datgysylltu yn ystod y cyfnod clo cychwynnol nad oeddent yn gallu talu eu biliau oherwydd diffyg arian, gyda mwy na 60% o'r bobl hyn yn dweud mai'r pandemig oedd achos uniongyrchol hyn (Sefydliad Bevan, 2020a).

Mae gwariant hefyd wedi cynyddu ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig. Mae Gofalwyr Cymru wedi canfod bod 77% o ofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi gorfod gwario mwy yn ystod eu dyletswyddau gofalu yn ystod y pandemig (Ymchwil y Senedd, 2020).

Mae costau bwyd hefyd wedi bod yn broblem i aelwydydd incwm isel. Yn 2020, gwelodd Ymddiriedolaeth Trussell gynnydd o 89% (o'r un cyfnod yn 2019) yn y bobl a oedd angen parseli bwyd brys mewn banciau bwyd yng Nghymru (Sefydliad Bevan, 2020a).

## 6.6 – Allgáu digidol

Mae allgáu digidol yn rhychwantu dau fater rhyng-gysylltiedig – mynediad at ddyfeisiau a mynediad at ddata. Gall diffyg naill ai nifer digonol o ddyfeisiau neu ddigon o ddata i ddefnyddio'r dyfeisiau hyn arwain at allgáu digidol. Daeth y mater hwn i'r amlwg yn ystod y pandemig wrth i blant symud i addysg o bell/ar-lein ac wrth i nifer o oedolion weithio gartref. Mae gwariant ar fynediad i'r rhyngrwyd wedi cynyddu yn ystod y pandemig, gydag 16% o aelwydydd yn dweud bod y gost o barhau i gysylltu'n ddigidol (o ran biliau'r rhyngrwyd a chost dyfeisiau i gael mynediad i'r rhyngrwyd) wedi cynyddu (Sefydliad Bevan, 2020d).

Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnolegau digidol wedi arwain at heriau sylweddol i aelwydydd incwm isel, sy'n llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd a dyfeisiau digidol. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r allgáu digidol presennol yng Nghymru oherwydd, erbyn mis Ebrill 2020, roedd mwy na 10% o bobl wedi syrthio ar ei hôl hi, neu'n disgwyl syrthio ar ei hôl hi, o ran talu eu bil rhyngrwyd neu ffôn symudol, gan arwain at y risg o atal eu mynediad i'r rhyngrwyd (Sefydliad Bevan, 2020a).

Yn ogystal ag atal pobl rhag cael cyswllt cymdeithasol rhithwir, adloniant a gwaith, mae allgáu digidol yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau cymorth i deuluoedd incwm isel yn ystod y pandemig. Mae nifer o gynlluniau nawdd cymdeithasol, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, yn gweithredu drwy wasanaeth ar-lein yn bennaf. Yn ogystal â hyn, cafodd mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol eu cau, lle'r oedd pobl fel arfer yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi gwaethygu'r allgáu presennol a'r mynediad cyfyngedig at wasanaethau cymorth yn ystod y pandemig (Sefydliad Bevan, 2020c).

## 6.7 – Addysg

Mae allgáu digidol wedi cael effaith sylweddol ar allu plant i barhau â'u haddysg gartref yn ystod y cyfnod clo hefyd. Mae effaith y cyfnod clo wedi bod yn fwyaf difrifol i blant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Dyma'r plant yr oedd y pandemig yn fwyaf tebygol o fod wedi tarfu ar eu haddysg, hyd yn oed pan oedd cyfleoedd dysgu o bell wedi bod ar gael (Ymchwil y Senedd, 2020). Nid yw llawer o deuluoedd incwm isel yn gallu darparu'r adnoddau digidol perthnasol i blant i gefnogi dysgu o bell. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi canfod bod 40% o deuluoedd incwm isel yn colli adnoddau hanfodol i gefnogi dysgu o bell ar gyfer eu plentyn neu blant (Sefydliad Bevan, 2020a). Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y ffaith bod dysgu o bell hefyd wedi bod yn heriol i deuluoedd nad ydynt wedi'u hallgáu'n dechnegol yn ddigidol, ond nad oes ganddynt ddigon o adnoddau digidol i gefnogi addysg ar-lein i'w holl blant ar unwaith (Sefydliad Bevan, 2020a). Ar 30 Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hyd at £3 miliwn o gyllid ar gyfer rhyngrwyd symudol a dyfeisiau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol (Llywodraeth Cymru, 2020d).

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cyfnod clo yn debygol o ehangu'r bwlch cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru (Ymchwil y Senedd, 2020). Dangoswyd bod y defnydd o raddau disgwyliedig a/neu raddau a gyfrifwyd yn rhoi myfyrwyr o dan anfantais mewn cymunedau mwy difreintiedig (Ymddiriedolaeth Sutton, 2020). Yn yr un modd, dangoswyd hefyd bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn perfformio'n well mewn lleoliadau ystafell ddosbarth yn hytrach na dysgu ar-lein (Sefydliad Brookings, 2017). Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y myfyrwyr hyn yn rhoi'r gorau iddi os bydd addysg prifysgolion a cholegau yn parhau i gael ei darparu'n bennaf drwy lwyfannau dysgu o bell.

# 7. Dyfodol tlodi yng Nghymru

Mae dyfodol tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr. Er ei bod yn amlwg bod tlodi'n debygol o gynyddu yn 2021 (ac o bosibl y tu hwnt), mae union lwybr tlodi yng Nghymru yn y dyfodol yn parhau i fod yn aneglur. Mae mesurau i reoli pandemig y Coronafeirws yn debygol o barhau ymhell i 2021 a bydd goblygiadau economaidd y pandemig yn cael eu teimlo ymhell y tu hwnt i hynny. Mae'r sefyllfa economaidd yn cael ei chymhlethu ymhellach gan oblygiadau parhaus Brexit. Nid yw'r effeithiau posibl yn gwbl glir eto.

Tynnodd Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan sylw at gostau byw cynyddol, llai o fudd-daliadau, gwaith o ansawdd gwael, diffyg cyrhaeddiad addysgol a phrinder cynilion personol fel sbardunau allweddol tlodi yng Nghymru yn y dyfodol cyn y pandemig – ac mae'r rhain yn parhau i fod yn ffactorau allweddol yn y llwybr tlodi yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi cyflwyno ffactorau sy'n cymhlethu o ran gwaith, y mae angen eu hystyried hefyd.



## Dyfodol tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Y prif negeseuon

- Bydd yr hyn sy'n digwydd pan ddaw cynlluniau cymorth y llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r pandemig i ben yn dylanwadu ar ddyfodol tlodi yng Nghymru. Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd diweithdra'n cynyddu, er nad yw maint y cynnydd hwn yn glir eto, a bydd penderfyniadau a chymorth y llywodraeth yn effeithio arnynt yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.
- Mae'r risg o ddiweithdra yn uwch i fenywod, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl sydd â'r lefelau cymhwyster isaf. Mae dileu swyddi ar raddfa fawr hefyd yn bryder i ddiwydiannau a gafodd eu cau yn ystod y pandemig.
- Disgwylir i dlodi mewn gwaith barhau i gynyddu hyd yn oed wrth i'r pandemig leddfu.
- Tai yw'r maes allweddol lle mae dyled o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws wedi cynyddu i lawer o deuluoedd. Mae nifer o sefydliadau wedi mynegi pryder am y posibilrwydd o gynnydd yn y nifer sy'n cael eu troi allan ar ôl i amddiffyniadau'r llywodraeth gael eu codi.

- Mae ansicrwydd ynglŷn â beth fydd yn digwydd ar ôl i'r newidiadau dros dro i nawdd cymdeithasol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig ddod i ben. Bydd hyn yn arbennig o bwysig, o ystyried y nifer uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau o ganlyniad i newidiadau yn y farchnad lafur a achoswyd gan y pandemig.
- Disgwylir i effeithiau ariannol y pandemig arwain at fwy o aelwydydd yn syrthio ar ei hôl hi wrth dalu biliau ac yn cael eu datgysylltu oddi ar gyfleustodau allweddol.
- Mae dros 25% o bobl ar incwm isel yng Nghymru wedi benthyg arian i dalu am gostau bob dydd yn ystod y pandemig. Gallai hyn arwain at broblemau ariannol hirdymor i unigolion ac aelwydydd nad ydynt yn gallu gwasanaethu eu benthyciadau.
- Gan fod Brexit wedi cyd-daro â phandemig y Coronafeirws, mae arbenigwyr wedi awgrymu y bydd hi'n anodd adnabod effeithiau penodol Brexit ar dlodi nes bod effaith lawn pandemig y Coronafeirws yn hysbys.
- Prin yw'r adnoddau sydd gan bobl ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a/neu sy'n byw mewn tlodi ac felly maent yn llai gwydn wrth wynebu ergydion economaidd fel Brexit a'r Coronafeirws.
- Mae'r adran hon yn edrych ar ddyfodol tlodi yng Nghymru mewn perthynas â gwaith; tai; nawdd cymdeithasol a chymorth; biliau a dyled; a Brexit.

## 7.1 – Gwaith

Yn y tymor byr, yr ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol gwaith yng Nghymru yw'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl i gynlluniau cymorth y llywodraeth gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi (JRS) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) ddod i ben. Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan yn awgrymu y gallai diweithdra yng Nghymru godi i 20% os nad yw hanner y rhai sy'n derbyn cymorth JRS a SEISS yn dychwelyd i'r gwaith (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae Sefydliad Bevan hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y byddai difrifoldeb diweithdra o'r fath yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ardaloedd, gan adlewyrchu'r nifer amrywiol o hawlwyr JRS a SEISS rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru (Sefydliad Bevan, 2020a). Canfu amcanestyniadau gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith y byddai diweithdra yn uwch nag yn ystod y dirwasgiad diwethaf yn 2008 pe bai un o bob pedwar o'r 250,000 o weithwyr mewn sectorau a oedd wedi gorfod cau yn colli eu swyddi. Canfu'r un amcanestyniadau fod y risg o ddiweithdra yn uwch i fenywod, pobl ifanc 16-24 oed a phobl â'r lefelau cymhwyster isaf (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2020).

Mae dileu swyddi ar raddfa fawr yn bryder allweddol i rai diwydiannau wrth iddynt wynebu'r posibilrwydd o gyfnodau clo oherwydd y Coronafeirws yn y dyfodol. Mae dileu swyddi posibl ar raddfa fawr eisoes wedi'u cyhoeddi yn y diwydiannau modurol a manwerthu yng Nghymru (Sefydliad Bevan, 2020d). Mae mil o swyddi eisoes wedi'u colli yn y diwydiant awyrofod ac mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd hyd at 30,000 o swyddi'n cael eu colli yn niwydiant lletygarwch Cymru (Sefydliad Bevan, 2020a). Bydd effeithiau'r colledion hyn yn cael eu dwysáu gan y farchnad swyddi bresennol, gan fod swyddi gwag yng Nghymru ar y lefel isaf mewn 20 mlynedd. Mae hyn yn debygol o wneud ailfynediad i'r farchnad lafur hyd yn oed yn fwy heriol i'r rhai a gollodd eu swyddi oherwydd y pandemig (Sefydliad Bevan, 2020a).

Disgwylir hefyd i'r colledion swyddi a ragwelir gael effaith anghymesur ar fenywod, pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl ifanc, sy'n fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau a oedd wedi gorfod cau. Mae menywod yn wynebu rhagor o broblemau gan y gallai diffyg darpariaeth gofal plant, ac ansicrwydd parhaus ynghylch agor ysgolion/cau ysgolion yn y tymor byr orfodi rhai menywod i adael y gweithlu er mwyn darparu gofal plant, sy'n angenrheidiol oherwydd y pandemig (Sefydliad Bevan, 2020a).

Mae'r gostyngiad yn y gwasanaethau gofal yn ystod y pandemig hefyd yn parhau i fod yn rhwystr i waith ar gyfer gofalwyr di-dâl pobl anabl a phobl anabl eu hunain sydd angen gwasanaethau o'r fath er mwyn gallu cael mynediad i'r farchnad lafur (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae pryderon hefyd y gallai cyngor parhaus i warchod eithrio pobl anabl neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor o farchnad lafur sy'n gynyddol gystadleuol.

Roedd tlodi mewn gwaith cynyddol yn broblem yng Nghymru cyn y pandemig, ac nid yw'r sefyllfa bresennol ond yn debygol o waethygu'r broblem hon. Mae parhau i ostwng oriau gweithwyr yn debygol o wthio llawer o bobl sydd eisoes yn agos at dlodi i dlodi yn ystod y misoedd nesaf wrth i gymorth y llywodraeth gael ei dynnu'n ôl/dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at effaith bosibl diweithdra cynyddol ar dlodi mewn gwaith gan fod hyn yn debygol o leihau'r pwysau ar gyflogwyr i gynyddu oriau neu wella cyflogau ar gyfer eu gweithlu presennol (Sefydliad Bevan, 2020a).

Bu nifer o alwadau i wella ansawdd gwaith a swyddi yng Nghymru yn ystod cyfnod adfer y Coronafeirws. Wrth siarad mewn digwyddiad Resolution Foundation ym mis Tachwedd 2020, tynnodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford sylw at y ffaith bod y ffocws ar gymorth Coronafeirws llywodraeth y DU wedi bod yn cynnal swyddi sy'n bodoli eisoes yn hytrach na datblygu'r hyn y bydd ei angen ar economi a gweithlu Cymru ar ôl yr argyfwng.

Mae llawer yn dadlau y dylid cael ffocws deuol ar ddarparu mentrau hyfforddi (ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sydd wedi colli eu swyddi yn ystod y pandemig) a chynyddu nifer y swyddi cynhyrchiant uchel, â chyflogau uchel yng Nghymru.

## 7.2 – Tai

Tai yw'r maes allweddol lle mae dyled o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws wedi cynyddu i lawer o deuluoedd. Mynegodd rhanddeiliaid mewn bord gron diweddar a gynhaliwyd gan Sefydliad Bevan bryderon nad oedd pobl naill ai'n deall arwyddocâd eu hôl-ddyledion rhent oherwydd diffyg profiad gyda sefyllfaoedd o'r fath neu'n dewis osgoi'r broblem yng ngoleuni'r amddiffyniadau dros dro (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae Sefydliad Joseph Rowntree, Achub y Plant a Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru i gyd wedi mynegi pryderon am y posibilrwydd o gynnydd yn y nifer sy'n cael eu troi allan yng Nghymru ar ôl i'r amddiffyniadau gael eu codi (TPAS Cymru, 2020).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau i leihau pwysau gwariant tai ar aelwydydd y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt drwy ymestyn y cyfnod rhybudd troi allan heb fai a chyflwyno Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae'r cynllun hwn yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn darparu benthyciadau i denantiaid nad ydynt yn gallu talu eu rhent oherwydd y Coronafeirws. Mae'n cynnig benthyciadau 1% APR i denantiaid, sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid neu asiantau gosod, gyda chyfnod ad-dalu o hyd at bum mlynedd. Mae'r cynllun hefyd yn darparu mynediad at wasanaethau cymorth i helpu tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu harian (Llywodraeth Cymru, 2020c). Er bod y cynllun hwn yn cael ei ystyried yn fesur cadarnhaol gan y bydd yn helpu i atal troi allan, gall hefyd adael tenantiaid â dyledion sy'n eu hatal rhag gadael eiddo yn y dyfodol (Sefydliad Bevan, 2020a).

Mae tai hefyd wedi bod yn her ddifrifol i bolisi Llywodraeth Cymru o weithio gartref. Nid yw llawer o bobl ar aelwydydd incwm isel, tai o ansawdd gwael ac sydd mewn llochesi yn gallu gweithio gartref gan nad yw eu hamgylchedd yn addas (Sefydliad Bevan, 2020a). Gall hyn arwain at bobl yn gorfod rhoi'r gorau i'w swydd ac mae'n cyflwyno rhwystrau difrifol i bobl sy'n ceisio (ail)ymuno â'r farchnad lafur, oherwydd disgwylir y bydd gweithio gartref yn parhau i gael ei annog, o leiaf yn y tymor byr.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'uchelgais hirdymor i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at eu cartrefi, gan gynnwys ar ôl i'r bygythiad o Covid-19 leihau' (Llywodraeth Cymru, 2020g) sy'n awgrymu y gallai gweithio o bell ar raddfa fawr ddod yn nodwedd barhaol o economi Cymru.

## 7.3 – Nawdd cymdeithasol a chefnogaeth

Mae ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl i'r newidiadau dros dro i nawdd cymdeithasol yn dod i ben yn 2021 - sef y newidiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys y cynnydd o £20 yr wythnos i daliadau Credyd Cynhwysol craidd. Mae pryderon y bydd materion sy'n bodoli eisoes gyda nawdd cymdeithasol (fel aros pum wythnos am Gredyd Cynhwysol a phryderon am lefel y cymorth a ddarperir) yn cael eu gwaethygu wrth i fwy o bobl barhau i hawlio'r budd-daliadau hyn o ganlyniad i effeithiau hirdymor Coronafeirws ar y farchnad lafur (Sefydliad Bevan, 2020b).

Yng Nghymru, mae pryder sylweddol ynghylch effaith gwrthdroi newidiadau dros dro i ddarparu cymorth, a oedd yn fuddiol yn ystod y pandemig. Er enghraifft, disgwylir i'r ddarpariaeth arian parod sydd ar waith ar gyfer prydau ysgol am ddim ddod i ben wrth i ysgolion ddychwelyd.

Fodd bynnag, nid oes fframwaith clir ar waith ar hyn o bryd i gefnogi teuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim os yw ysgolion ar gau neu pan ddywedir wrth blant am ynysu mewn ymateb i achosion o'r Coronafeirws (Sefydliad Bevan, 2020a). Os na ddarperir cymorth, gallai teuluoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim syrthio i dlodi bwyd – yn y tymor byr o leiaf.

Mae Sefydliad Bevan yn dadlau y bydd y materion sylfaenol a'r materion sy'n bodoli eisoes yn y system nawdd cymdeithasol yn atal teuluoedd rhag cael digon o gymorth ar amser wrth i dlodi yng Nghymru gynyddu oherwydd y Coronafeirws (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae'n tynnu sylw at y problemau a ddaw yn sgil rhoi cap ar fudd-daliadau fel cynlluniau prydau ysgol am ddim sy'n atal llawer o deuluoedd mewn tlodi mewn gwaith rhag cael cymorth, gan eu gwthio'n nes at dlodi. Ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, mae hefyd yn galw am sefydlu system fudd-daliadau i Gymru a all roi cymorth sydd wedi'i deilwra i gyd-destun Cymru (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020b).

## 7.4 – Biliau a dyled

Mae pryderon sylweddol y bydd pobl yn parhau i fod ar ei hôl hi o ran biliau cyfleustodau wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen. Mae hyn yn debygol o arwain at ragor o aelwydydd yn cael eu datgysylltu oddi ar gyflenwadau dŵr, gwres a'r rhyngrwyd. Er bod hyn yn broblem pan ddechreuodd y pandemig yn ystod gwanwyn a haf 2020, daeth yn broblem hyd yn oed yn fwy o ran risg iechyd drwy gydol y gaeaf (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys afiechydon anadlol, sy'n cael eu gwaethygu gan gyflyrau oer. Rydym hefyd yn gwybod bod y coronafeirws yn ffynnu mewn amodau llaith ac oer. Felly, roedd y risg y byddai pobl yn cael eu gwthio i dlodi tanwydd dros y gaeaf hefyd yn peri risg gwirioneddol i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r pandemig (Ymchwil y Senedd, 2020).

Bydd syrthio ar ei hôl hi wrth dalu biliau hefyd yn effeithio ar addysg plant ar aelwydydd incwm isel. Os caiff pobl eu datgysylltu oddi ar y rhyngrwyd, sy'n sefyllfa sy'n wynebu 10% o deuluoedd yng Nghymru ar hyn o bryd, ni fydd plant a myfyrwyr yn gallu cael gafael ar eu deunyddiau dysgu o bell gartref ac efallai na fyddant yn gallu cael gafael ar ddeunydd o'r fath o gwbl os bydd rhagor o fesurau cyfnod clo (Sefydliad Bevan, 2020a). Mae diffyg mynediad i'r rhyngrwyd a chost biliau rhyngrwyd wedi bod yn heriau allweddol i lawer o aelwydydd incwm isel sydd wedi gorfod cymryd rhan mewn addysg o bell yn ystod y pandemig.


Canfu ymchwil ar lefel y DU gan y Resolution Foundation fod 50% o bobl â llai na £1,000 mewn cynilion wedi gorfod defnyddio eu cynilion i dalu am wariant bob dydd (Resolution Foundation, 2020b). Canfu dadansoddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru nad oedd gan un o bob pedair aelwyd yng Nghymru ddigon o arbedion yn lle eu hincwm arferol am fis (Canolfan Llywodraethiant Cymru, 2020).

Mae benthyca hefyd wedi cynyddu yng Nghymru, gyda mwy na 25% o bobl ag incwm aelwyd o dan £10,000 a mwy nag 20% o bobl ag incwm aelwyd rhwng £10,000-19,999 wedi benthyca i dalu am gostau byw bob dydd yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cymharu â 15% o'r boblogaeth gyfan (Sefydliad Bevan, 2020d). Mae'r cynnydd yn y cynilion sydd wedi'u defnyddio a'r dyledion yn codi pryderon am bwysau ariannol ar aelwydydd yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r pandemig yn para'n hirach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cynnydd posibl yn y cynilion a ddefnyddir a benthyca yn peri pryder arbennig i Gymru, oherwydd cyn y pandemig nododd Sefydliad Joseph Rowntree fod prinder cynilion personol yn sbardun allweddol i dlodi yn y dyfodol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018).

## 7.5 – Brexit

Ochr yn ochr â'r Coronafeirws, mae Brexit yn her wirioneddol i'r ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn y tymor byr. Mae Sefydliad Bevan yn awgrymu bod Brexit yn debygol o gael effaith sylweddol ar brisiau bwyd ac felly tlodi bwyd (Sefydliad Bevan, 2020a). Roedd amcangyfrifon wedi rhagweld y gallai Brexit gynyddu cost bwyd rhwng 6% a 22% yn y 14 mis canlynol (Barons ac Aspinall, 2020). Fodd bynnag, gan fod Brexit wedi cyd-daro â phandemig y Coronafeirws, mae arbenigwyr wedi awgrymu y bydd hi'n anodd adnabod effeithiau Brexit ar dlodi nes bod effaith lawn pandemig y Coronafeirws yn hysbys (Portes, et al., 2020).

Mae'n bwysig nodi mai prin yw'r adnoddau sydd gan bobl ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a/neu sy'n byw mewn tlodi ac felly maent yn llai gwydn wrth wynebu ergydion economaidd fel Brexit a'r Coronafeirws (Portes, et al., 2020). Felly, mae ergydion o'r fath yn fwyaf tebygol o gael effaith andwyol ar y bobl hyn, gan fod eu diffyg adnoddau'n cyfyngu ar eu gallu i addasu.



# 8. Casgliad

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol wedi bod yn broblemau ers amser maith yng Nghymru. Cyn pandemig y Coronafeirws roedd bron i un o bob pedwar o bobl yn byw mewn tlodi. Mae pandemig y Coronafeirws wedi gwaethygu tlodi ac allgáu cymdeithasol i'r rhai yr oedd hynny eisoes yn effeithio arnynt yng Nghymru ac wedi gwthio llawer o bobl i dlodi ac wedi arwain atynt yn profi allgáu cymdeithasol am y tro cyntaf. Mae dyfodol ansicr y pandemig ac effaith Brexit yn cymhlethu ymhellach unrhyw ymdrechion i ragweld trywydd tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n amlwg y bydd cyfnod y pandemig a sut bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn rheoli'r cyfnod adfer yn dylanwadu'n fawr ar ddyfodol tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Er bod llawer wedi canmol y camau a gymerwyd gan y Llywodraethau hyn i gefnogi pobl yn ystod y pandemig hyd yn hyn, cymorth dros dro yw hwn ac ni fydd yn ddigon i fynd i'r afael ag effeithiau hirdymor y pandemig.

Mae diweithdra/tangyflogaeth a thai yn parhau i fod yn faterion allweddol yng Nghymru, sydd wedi dod yn fwy dwys oherwydd y pandemig. Mae'r pandemig hefyd wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar gymorth nawdd cymdeithasol ac wedi tynnu sylw at yr angen i wella'r system hon. Mae effeithiau hirdymor Coronafeirws ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl a'r tarfu ar addysg oherwydd y pandemig hefyd yn debygol o fod yn faterion allweddol a fydd yn effeithio ar ddyfodol tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.



# 9. Cyfeirnodau


Bailey, N. (2017). **Employment, poverty and social exclusion.** Yn: G. Bramley a N. Bailey, goln. Poverty and social exclusion in the UK: Volume 2 - the dimensions of disadvantage. Bryste: Policy Press, tt. 159-178.

Barons, M. ac Aspinall, W. (2020). **Anticipated impacts of Brexit scenarios on UK food prices and implications for policies on poverty and health: a structured expert judgement approach.** BMJ Open, Cyfrol 10, t. e032376.

BBC. (2020). **Illegal immigration: No recent figure for UK, report finds.** Adalwyd o: https://www.bbc.co.uk/news/uk-53075318

BBC. (2021). **Welsh election: Thousands of 16-17-year-olds not registered to vote.** Adalwyd o: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56770072

Sefydliad Bevan. (2020a). **Reducing the impact of Coronavirus on Poverty in Wales**, Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2020b). **Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality**, Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2020c). **Rhifyn 2. Fair Work Focus**, 17 Gorffennaf, tt. 1-6.

Sefydliad Bevan. (2020d). **A snapshot of poverty in Winter 2020**, Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Sefydliad Bevan. (2020e). **Gweminar: Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality**. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.

Bradshaw, J., Kemp, P., Baldwin, S. a Rowe, A. (2004). **The drivers of social exclusion: A review of the literature for the Social Exclusion Unit in the Breaking the Cycle series**, SEU/ODPM: Llundain.

Campaign for Better Transport. (2012). **Transport and Poverty: A Literature Review**, Llundain: Campaign for Better Transport.

Gofalwyr Cymru. (2015). **Value of unpaid care in Wales reaches over £8 billion a year.** Adalwyd o: https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/vale-of-unpaid-care-in-wales

Centre for Homelessness Impact. (2020). **What the latest statistics tell us about homelessness trends in Wales**. Adalwyd o: https://www.homelessnessimpact.org/post/what-the-latest-statistics-tell-us-about-homelessness-trends-in-wales#:~:text=The%20figures%20released%20from%20the,April%202018%20%2D%20March%202019)

Chwarae Teg a Sefydliad Bevan. (2019). **Yn gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw**, Caerdydd: Chwarae Teg.

Cyngor ar Bopeth Cymru. (2020). **New figures from Citizens Advice Cymru lay bare the scale of financial crisis caused by Coronavirus in Wales.** Adalwyd o: https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/our-work/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/new-figures-from-citizens-advice-cymru-lay-bare-the-scale-of-financial-crisis-caused-by-coronavirus-in-wales/

Crisis UK. (2017). **Digartrefedd yng Nghymru**. Adalwyd o: https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor?gclid=EAIaIQobChMI5J3y6re57gIVvBAGAB3yRwcTEAAYASAAEgLbUfD_BwE#Wales

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (2020). **Fuel Poverty Methodology Handbook**, Llundain: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (2021). **Sustainable Warmth: Protecting Vulnerable Households in England**, Llundain: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2020a). **Ystadegau Gwladol - Family Resources Survey: financial year 2018/19**. Adalwyd o: https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-201819

Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2020b). **Coronavirus and claiming benefits**. Adalwyd o: https://www.understandinguniversalcredit.gov.uk/Coronavirus/#:~:text=Changes%20to%20how%20much%20you,Tax%20Credit%20for%20one%20year.andtext=This%20means%20that%20for%20a,to%20%C2%A3409.89%20per%20month..

Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2021). **Income Dynamics: income movements and the persistence of low income, 2010 to 2019.** Adalwyd o: https://www.gov.uk/government/statistics/income-dynamics-2010-to-2019/income-dynamics-income-movements-and-the-persistence-of-low-income-2010-to-2019#related-statistics

Anabledd Cymru. (2018). **A national disgrace: the high price of disability poverty in Wales**. Adalwyd o: https://www.disabilitywales.org/national-disgrace-high-price-disability-poverty-wales/?lang=cy

Ditch the Label. (2020). **The Annual Bullying Survey 2020**, y DU: Ditch the Label.

Duque, M. a McKnight, A. (2019). **Understanding the relationship between inequalities and poverty: mechanisms associated with crime, the legal system and punitive sanctions**, Llundain: Centre for Analysis of Social Exlcusion.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2018). **Effaith cronnol diwygiadau treth a lles**, Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Cynghrair Tlodi Bwyd Cymru. (2017). **Cyflwyniad Cynghrair Tlodi Bwyd Cymru (FPAW) i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**, Caerdydd: Busnes y Senedd.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd. (2017). **Arolwg Bwyd a Chi Cylch 4**, Llundain: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fox, L. (2017). **Anchored and Relative: Supplemental Thresholds for the Supplemental Poverty Measure**, Suitland: US Census Bureau.

Gates, S. et al. (2019). **Transport and inequality: An evidence review for the Department for Transport,** Llundain: NatCen.

Hartfree, Y. a Collard, S. (2014). **Poverty, debt and credit: An expert-led review**, Bryste: Canolfan Ymchwil Cyllid Personol Prifysgol Bryste.

Heery, E., Hann, D. a Nash, D. (2015). **The Living Wage in Wales**, Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Hick, R. a Lanau, A. (2017). **In-work poverty in the UK: Problem, policy analysis and platform for action**, Llundain: Sefydliad Nuffield.

Hick, R. a Murphy, M. (2020). **Common shock, different paths? Comparing social policy responses to COVID-19 in the UK and Ireland**. Social Policy and Administration, Issue - Special Issue, tt. 1-14.

Tŷ'r Cyffredin. (2020a). **UK Prison Population Statistics**, Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Tŷ'r Cyffredin. (2020b). **Poverty in the UK: Statistics**, Llundain: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2019). **Why has in-work poverty risen in Britain?**, Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Johnsen, S. a Watts, B. (2014). **Homelessness and poverty: reviewing the links**, Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt.

Jones, R. (2018). **Imprisonment in Wales: A Factfile**, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Jones, R. (2020). **Prison, probation and sentencing in Wales: 2019 factfile**, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Sefydliad Joseph Rowntree.(2015). **Housing and Poverty**, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2018). **Tlodi yng Nghymru 2018**, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020a). **Tlodi yng Nghymru 2020**, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020b). **A lifeline for our children: Strengthening the social security system for families with children during this pandemic**, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith. (2020). **Understanding the potential impact of coronavirus in Wales** , Caerlŷr: Y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Levitas, R. et al. (2007). **The Multi-dimensional Analysis of Social Exclusion**, Bryste: Prifysgol Bryste.

Lupo-Pasini, F. (2020). **Is it a wonderful life? cashless societies and monetary exclusion**. Review of banking and financial law, Rhifyn 40.

Nastic, D. (2012). **Why we need a relative income poverty measure**. Poverty, Rhifyn 143, tt. 13-17.

GIG 111 Cymru. (2020). GIG 111 Cymru: **Waiting times**. Adalwyd o: https://111.wales.nhs.uk/Waitingtimes/

GIG Cymru. (2021). **Data Ar-lein PEDW**. Adalwyd o: https://igdc.gig.cymru/gwasanaethau-gwybodaeth/hwb-data-cymru/data-ar-lein-pedw/

GIG. (2021a). **Model a Geiriadur Data y GIG: First Definitive Treatment**. Adalwyd o: https://datadictionary.nhs.uk/nhs_business_definitions/first_definitive_treatment.html

GIG. (2021b). **Model a Geiriadur Data y GIG: Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is**. Adalwyd o: https://datadictionary.nhs.uk/nhs_business_definitions/lower_layer_super_output_area.html#:~:text=A%20Lower%20Layer%20Super%20Output,statistics%20in%20England%20and%20Wales

NSPCC. (2020). **Looked after children**. Adalwyd o: https://learning.nspcc.org.uk/children-and-families-at-risk/looked-after-children#:~:text=policy%20and%20guidance-,Introduction,children%20and%20young%20people%20prefer

OECD. (2016). **Job quality**. Adalwyd o: https://www.oecd.org/employment/job-quality.htm

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019a). **Working and workless households in the UK: April to June 2019**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/workingandworklesshouseholds/apriltojune2019

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019b). **Persistent poverty in the UK and EU: 2017**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/articles/persistentpovertyintheukandeu/2017

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020a). **Exploring religion in England and Wales: February 2020**. Adalwyd o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/articles/exploringreligioninenglandandwales/february2020#attendance-at-religious-services-or-meetings

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020b). **Financial resilience of households: Wealth and Assets Survey, Wales, April 2016 - March 2018**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/adhocs/12099financialresilienceofhouseholdswealthandassetssurveywalesapril2016tomarch2018

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020c). **Suicides in England and Wales by local authority**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/suicidesbylocalauthority

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020d). **Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales: 2016 to 2018**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbynationaldeprivationdecileswales/2016to2018

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021a). **People, population and community. Crime and justice Crime in England and Wales**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingseptember2020

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021b). **Population of the UK by country of birth and nationality**. Adalwyd o: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/datasets/populationoftheunitedkingdombycountryofbirthandnationality

Ogbonna, E. (2020). **Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19. Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Omar, M. ac Inaba, K. (2020). **Does financial inclusion reduce poverty and income inequality in developing countries? A panel data analysis**. Journal of Economic Structures, Cyfrol 9, t. 37.

Oxford Poverty and Human Development Initiative. (2016). **Chapter 4: Multidimensional Poverty and its Measurement**. Genefa, Cynhadledd Ystadegwyr Ewropeaidd - Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig.

Ozbay, F. et al. (2007). **Social Support and Resilience to Stress**. Psychiatry (Edgemont), 4(5), tt. 35-40.

Pande, R. et al. (2012). **Does poor people's access to formal banking services raise their incomes?**, Llundain: Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau. (2020). **Ymrestru Awtomatig**. Adalwyd o: https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/auto-enrolment/automatic-enrolment-an-introduction

Perera, J. (2020). **How Black working-class youth are criminalised and excluded in the English school system: A London case study**, Llundain: Y Sefydliad Cysylltiadau Hiliol.

Portes, J., Bristow, G. a Levell, P. (2020). **Goblygiadau Brexit i incwm aelwydydd**, Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Portes, J. a Reed, H. (2018). **Effaith cronnol diwygiadau treth a lles**, Manceinion: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. (2016). **Rural Poverty in Wales: Existing Research and Evidence Gaps**, Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

raisin. (2020). **Who's better at saving money?**. Adalwyd o: https://www.raisin.co.uk/newsroom/articles/better-saving-money/

Sefydliad Resolution. (2020a). **From Locking-Down to Levelling-Up**, Llundain: Sefydliad Resolution.

Sefydliad Resolution. (2020b). **Caught in a (Covid) trap: Income, savings and spending through the coronavirus crisis, 2020**: Sefydliad Resolution.

Rodriguez, J. ac Ifan, G. (2020). **Covid-19 and the Welsh economy: working from home**, Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Samariaid Cymru. (2018). **Gwahardd unigolion o ysgolion yng Nghymru: Y gost gudd**, Caerdydd: Samariaid Cymru.

Y Samariaid. (2017). **Anfantais economaidd-gymdeithasol ac ymddygiad hunanladdol: Dod o hyd i ffordd ymlaen i Gymru**, Ewell: Y Samariaid.

SCIE. (2012). **Commissioning care homes: common safeguarding challenges**. Adalwyd o: https://www.scie.org.uk/publications/guides/guide46/commonissues/lackofsocialinclusion.asp

Fforwm Cyffuriau'r Alban. (2007). **Drugs and poverty: A literature review**, Glasgow: Fforwm Cyffuriau'r Alban.

Ymchwil y Senedd. (2018). **Tlodi yng Nghymru: a yw'r gwir sefyllfa'n glir?**. Adalwyd o: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/tlodi-yng-nghymru-a-yw-r-gwir-sefyllfa-r-glir/

Ymchwil y Senedd. (2020). **Coronafeirws: Tlodi**. Adalwyd o: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/coronafeirws-tlodi/

Short, S. a Mollborn, S. (2016). **Social Determinants and Health Behaviors: Conceptual Frames and Empirical Advances**. Current Opinion in Psychology, Rhifyn 5, tt. 78-84.

Y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol. (2019). **Measuring Poverty 2019**, Llundain: Y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol.

Y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol. (2020). **Measuring Poverty 2020**, Llundain: Y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol.

Sonuga-Barke, E. (2020). **Institutionalisation of millions of children worldwide should be gradually phased out in favour of family-based care**. Adalwyd o: https://www.kcl.ac.uk/news/institutionalisation-of-millions-of-children-worldwide-should-be-gradually-phased-out-in-favour-of-family-based-care#

Ystadegau Cymru. (2018). **Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), ar 31 Mawrth 2018-Diwygiedig**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ystadegau Cymru. (2019a). **Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19: Defnydd o'r Rhyngrwyd a Sgiliau Digidol**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ystadegau Cymru. (2019b). **Llesiant Cymru**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

StatsCymru. (2019a). **Oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/workingageadultsinrelativeincomepoverty-by-economicstatusofhousehold

StatsCymru. (2019b). **Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, Tlodi ac amddifadedd**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

StatsCymru. (2020a). **Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year-gender

StatsCymru. (2020b). **Pensiynwyr mewn tlodi incwm cymharol, yn ôl math o deulu**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/pensionersinrelativeincomepoverty-by-familytype

StatsCymru. (2020c). **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation

StatsCymru. (2020d). **Aelwydydd heb waith yng Nghymru yn ôl oedran, newidyn, statws yr aelwyd a blwyddyn**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Workless-Households/worklesshouseholdsinwales-by-age-variable-householdstatus-year

StatsCymru. (2020e). **Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ôl canlyniad a math o aelwyd**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype

StatsCymru. (2020f). **Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl awdurdod lleol**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Rough-Sleepers/roughsleepers-by-localauthority

StatsCymru. (2020g). **Canran yr holl unigolion, plant, oedolion o oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2016-17 i 2018-19 (cyfartaleddau 3 blynedd o flynyddoedd ariannol)**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year

StatsCymru. (2020h). **Cyfranogiad unigolion 16-30 oed mewn addysg yn ôl dull, oedran a blwyddyn**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Lifelong-Learning/Participation-of-Adults-and-Young-People/participationof1630yearoldsineducation-by-mode-age-year

StatsCymru. (2020i). **Crefydd yn ôl Oedran a Rhyw.** Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Religion/religion-by-age-sex

StatsCymru. (2020j). **Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision/adultsreceivingservices-by-localauthority-agegroup

StatsCymru. (2021a). **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age

StatsCymru. (2021b). **Rhestr etholwyr: Etholwyr yn ôl etholaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a blwyddyn**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Electoral-Register/electors-by-seneddconstituency-and-year

StatsCymru. (2021c). **Statws unigolion cyflogedig yn ôl awdurdod lleol Cymru a mesur**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/statusofemployedpersons-by-welshlocalauthority-measure

StatsCymru. (2021d). **Pobl mewn gwaith yn ôl ardal a galwedigaeth (SOC 2010)**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/peopleinemployment-by-area-occupation

StatsCymru. (2021e). **Crynodeb o weithgarwch chwarterol**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Substance-Misuse/summary-of-quarterly-activity

StatsCymru. (2021f). **Amseroedd aros yn ôl mis**. Adalwyd o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Diagnostic-and-Therapy-Services/waitingtimes-by-month

StatsCymru. (2021g). **Perfformiad yn erbyn targed o 4 awr o ran amseroedd aros, pob cyfleuster gofal brys yn ôl bwrdd iechyd lleol**. Adalwyd o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Accident-and-Emergency/performanceagainst4hourtargetallemergencycarefacilities-by-localhealthboard

Step Change. (2019). **Cymru yn y Coch**, Leeds: Step Change.

Sefydliad Brookings. (2017). **Promises and pitfalls of online education**, Washington DC.: Sefydliad Brookings.

Y Comisiwn Etholiadol. (2019a). **Canlyniadau a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**. Adalwyd o: https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/senedd-elections/results-and-turnout-2016-national-assembly-wales-election

Y Comisiwn Etholiadol. (2019b). **Canlyniadau a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad cyffredinol y DU yn 2017**. Adalwyd o: https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/elections-and-referendums/past-elections-and-referendums/uk-general-elections/results-and-turnout-2017-uk-general-election

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2017). **Living standards, poverty and inequality in the UK 2017-18 to 2021-22**, Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2020). **Sector shutdowns during the coronavirus crisis: which workers are most exposed?**. Adalwyd o: https://www.ifs.org.uk/publications/14791

Yr Arsyllfa Ymfudo. (2020). **Irregular migration in the UK**. Adalwyd o: https://migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/briefings/irregular-migration-in-the-uk/

Y Cyngor Ffoaduriaid. (2020). **Changes to Asylum and Resettlement policy and practice in response to Covid-19**. Adalwyd o: https://www.refugeecouncil.org.uk/latest/news/changes-to-home-office-asylum-resettlement-policy-and-practice-in-response-to-covid-19/

Ymddiriedolaeth Sutton. (2020). **Unexpected diversion: Coronavirus' impact on prospective and current university students**. Adalwyd o: https://www.suttontrust.com/news-opinion/all-news-opinion/unexpected-diversion/

Cydffederasiwn GIG Cymru. (2018). **The key priorities for carers in Wales**, Caerdydd: Cydffederasiwn GIG Cymru.

TPAS Cymru. (2020). **Llais y Tenantiaid - Covid-19 - Craciau yn dechrau ymddangos**, Caerdydd: TPAS Cymru.

Llywodraeth y DU. (2020). **Tlodi Tanwydd** , Llundain: Llywodraeth y DU.

Llywodraeth y DU. (2021a). **Cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol**. Adalwyd o: https://www.gov.uk/cyfraddau-isafswm-cyflog-cenedlaethol

Llywodraeth y DU. (2021b). **Ystadegau Swyddogol: Data ieuenctid yn y ddalfa**. Adalwyd o: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data

Llywodraeth y DU. (2021c). **Cosbau am ymddygiad gwrthgymdeithasol**. Adalwyd o: https://www.gov.uk/civil-injunctions-criminal-behaviour-orders

UNHCR. (2021). **Asylum in the UK**. Adalwyd o: https://www.unhcr.org/uk/asylum-in-the-uk.html

Cenhedloedd Unedig. (1995). **Datganiad a Rhaglen Weithredu Copenhagen, Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cymdeithasol**. Efrog Newydd, Cenhedloedd Unedig.

Canolfan Llywodraethiant Cymru. (2020). **Pa aelwydydd yng Nghymru sydd fwyaf agored i golli incwm oherwydd Covid-19?**. Adalwyd o: http://blogs.cardiff.ac.uk/brexit/2020/03/20/which-welsh-households-are-most-vulnerable-to-a-loss-of-income-because-of-covid-19/

Watson, I., MacKenzie, F., Woodfine, L. ac Azam, S. (2019). **Gwneud Gwahaniaeth. Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi**, Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Webb, J., Parken, A., Hodges, H. a Mathias, M. (2018). **Hybu camu ymlaen mewn swydd mewn sectorau cyflog isel**, Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2012). **Holiadur Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/12**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2015). **Cyngor Adnewyddu'r Economi: Trechu Tlodi**. Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2016). **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2017a). **Mesur perfformiad ysgolion yng Nghymru: gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2017b). **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad data dangosyddion): 2017**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-data-dangosyddion-2017

Llywodraeth Cymru. (2017c). **Addysg Oedolion Cymru,** Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018a). **Llesiant Cymru 2017-18: beth ydym ni'n ei wybod am lesiant plant?**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018b). **Arolwg Cyflwr Tai Cymru: dangosydd canlyniadau**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-dangosydd-canlyniadau

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2019**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Mae'r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio – adroddiad newydd**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd

Llywodraeth Cymru. (2019c). **Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018

Llywodraeth Cymru. (2019d). **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd): 2019**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Troi allan o'r cartref yn ystod pandemig y coronafeirws**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/troi-allan-or-cartref-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws

Llywodraeth Cymru, 2020b. **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Diogelu, Adeiladu, Newid**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020c). **Lansio cynllun yng Nghymru i helpu tenantiaid y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/lansio-cynllun-yng-nghymru-i-helpu-tenantiaid-sydd-wediu-heffeithio-gan-y-coronafeirws

Llywodraeth Cymru. (2020d). **£3 miliwn ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/3m-o-gyllid-ychwanegol-i-gefnogi-dysgwyr-sydd-wediu-hallgau-or-byd-digidol

Llywodraeth Cymru. (2020e). **Casglu data: Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/casglu-data-gwasanaethau-cymdeithasol-awdurdod-lleol

Llywodraeth Cymru. (2020f). **Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol?**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020g). **Datganiad i'r Wasg. Anelu at gael 30% o'r gweithlu yng Nghymru i weithio o bell**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/anelu-gael-30-or-gweithlu-yng-nghymru-i-weithio-o-bell

Llywodraeth Cymru. (2020h). **Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2018 i Awst 2019**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020i). **Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2018 i Awst 2019**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion-medi-2018-i-awst-2019

Llywodraeth Cymru. (2020j). **Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020k). **Ystadegau ar y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth coronafeirws: hyd at 31 Gorffennaf 2020**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/ystadegau-ar-y-cynllun-cadw-swyddi-coronafeirws-ar-cynllun-cymorth-incwm-hunangyflogaeth-hyd-31-gorffennaf-2020

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

Llywodraeth Cymru. (2021b). **Ystadegau ar y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws: Mawrth 2021**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/ystadegau-ar-y-cynllun-cadw-swyddi-coronafeirws-mawrth-2021

Llywodraeth Cymru. (2021c). **Hoffech chi help llaw gan Dechrau'n Deg**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/hoffech-chi-help-llaw-gan-dechraun-deg

CLlLC. (2021). **'Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf**. Adalwyd o: https://www.wlga.cymru/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programme





# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru


Prifysgol Caerdydd
Sbarc/Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP



Cardiff University Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government